

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2016/17

(ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar
31 Mawrth 2017)

HC 149



Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2016/17

(ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017)

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â pharagraffau 11(4) ac 15(3) yn Atodlen 1ZA Deddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2012 a Deddf Gwasanaethau Ariannol (Diwygio Bancio) 2013

Gorchynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin ei fod i'w argraffu ar 5 Gorffennaf 2017

Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd	6
Datganiad gan y Prif Weithredwr	8
Adroddiad strategol	
1 Trosolwg o'r flwyddyn	11
2 Mesur ein perfformiad	16
3 Diogelu defnyddwyr	23
4 Diogelu a gwella uniondeb system ariannol y DU	32
5 Hybu cystadleuaeth	44
6 Sut rydym yn rheoleiddio	51
7 Ein hadnoddau	60
8 Gweithio gyda'n partneriaid	66
Datganiadau ariannol a Llywodraethu corfforaethol	
9 Trosolwg ariannol o'r grŵp	73
10 Adroddiad y cyfarwyddwyr a Datganiad llywodraethu corfforaethol	82
11 Datganiadau ariannol	101
Atodiadau	
Atodiad 1: Adroddiad yr unigolyn medrus	124
Atodiad 2: Adolygiad Blynyddol y Pwyllgor Penderfyniadau Rheoleiddio	126
Atodiad 3: Adroddiad cynaliadwyedd	135

Rhagair gan y Cadeirydd

John Griffith-Jones



Croeso i'n Hadroddiad Blynnyddol ar gyfer 2016/17.

Yn ogystal â darparu cofnod o'r hyn y mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r adroddiad hwn yn dangos yn glir pa mor eang yw'r cylch gwaith rydym yn ei gyflawni er mwyn cyrraedd ein hamcan strategol cyffredinol, sef sicrhau bod marchnadoedd ariannol yn gweithio'n effeithiol. O ystyried graddfa a phwysigrwydd y sector yn y Deyrnas Unedig (DU), mae'n rhaid i ni gyflawni'r rôl yn effeithiol.

Mae'r FCA bellach yn bedair blwydd oed; mae wedi datblygu'n sylweddol yn y cyfnod hwnnw. Yn ystod y flwyddyn hon, mae Andrew Bailey wedi cymryd drosodd fel Prif Weithredwr. Mae wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu ein Cenhadaeth, sydd wedi'i hategu gan ein safbwyntiau cyhoeddedig ar y sector â rhaglen waith helaeth. Gan edrych yn ôl ar y cyfnod ers i ni ddechrau, mae llawer wedi newid – a llawer wedi aros yr un fath.

O ran yr hyn sydd wedi newid, y llwyddiant pwysicaf yn anad dim yw ymgorffori pwysigrwydd ymddygiad da wrth galon sector ariannol y DU. Gyda chymorth dyfodiad y Drefn Uwch Reolwyr ac Ardystio ym meysydd bancio ac yswiriant eleni, sydd ar fin cael ei hymestyn i bob cwmni arall sy'n cael ei reoleiddio, mae'r diwydiant ar y cyfan wedi sylweddoli bod angen i'n hagenda ni fod yn rhan greiddiol o'i agenda ei hun. Nid yw arbitraris rheoleiddiol, ym maes ymddygiad o leiaf, yn talu'r ffordd bellach. Mae hynny, i raddau, o ganlyniad i'r ffordd y mae'r FCA wedi datgan ei safbwynt. Fodd bynnag, i roi clod lle mae'n ddyledus, mae hynny o ganlyniad yn bennaf i ymdrechion cwmnïau i wella modelau a diwylliant eu busnes er

mwyn bodloni ein disgwyliadau. Mae lle i bawb wella o hyd, ac rydw i'n ofni y bydd yna bob amser leiafrif bach sy'n ceisio camddefnyddio'r system. Ond wrth edrych i'r dyfodol, y brif her fydd sicrhau bod cwmnïau'n dal i ganolbwyntio'n gryf ar ymddygiad, ac nad ydynt yn llaesu dwylo neu'n gadael i bendil rheoleiddio newid cyfeiriad eto.

O ran yr hyn sydd wedi aros yr un fath, cyfeiriaf yn bennaf at y risgiau sy'n rhan annatod o'r sector ariannol. Yn eu plith mae gorddyled, y gallu i elwa'n annheg ar ddefnyddwyr mwy agored i niwed, pa mor gyflym mae technoleg yn newid, ei pheryglon a'i manteision diamau, diffyg cystadleuaeth mewn rhai sectorau, a diwallu ein hanghenion tymor hir o ran cynilion a phensiynau. Bydd y risgiau hyn ynghyd â rhai allweddol eraill yn dal yn berthnasol am beth amser eto, fel y bydd yr angen am reoleiddio effeithiol er mwyn eu lliniaru.

Rydym wedi parhau i weithio ar y sail mai rhwystro yw'r math gorau o reoleiddio – atal adeiladol fydda' i'n ei alw. Ond ni fydd hynny'n ddigon ym mhob achos ac felly, lle bo angen, byddwn yn cymryd camau gweithredu pan fydd defnyddwyr yn dioddef niwed. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi nodi sut aethom ati i fynd i'r afael â'r prif risgiau a nodwyd gennym yng Nghynllun Busnes 2016/17. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys ein hastudiaeth farchnad ar y diwydiant rheoli asedau, ein gwaith ar Yswiriant Gwarchod Taliadau (PPI) a arweiniodd at ein cynigion ar gyfer cyfyngiad amser ar hawliadau, llunio rheolau i weithredu'r Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad ac MiFID II (Markets in Financial Instruments Directive II), yn ogystal â phwyslais parhaus ar annog arloesedd technegol.

Nid tasg syml yw mesur effeithiolrwydd ein gwaith rheoleiddio. Er ein bod yn gosod ein mewnbynnau a'n hallbynnau, nid peth hawdd yw mesur y canlyniad hollbwysig yn flynyddol, sef rhwystro niwed neu sicrhau gwelliannau drwy atal. O allu edrych yn ôl dros gyfnod hirach, bydd y patrymau a'r tueddiadau'n fwy amlwg. Yn y cyfamser, ceir tystiolaeth feddal bresennol drwy gyfrwng arolygon ymysg rhanddeiliaid, gan gynnwys cwmnïau a defnyddwyr, ac mae'n galonogol gweld bod hyder yn yr FCA fel rheoleidiwr yn parhau i gynyddu. Byddwn yn parhau i weithio gydag arweinwyr meddwl yn y maes hwn er mwyn datblygu mesurau mwy gwrthrychol.

Mae argoel y bydd y flwyddyn nesaf yn un brysur. Rydym eisoes wedi cyhoeddi ein Cynllun Busnes. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ehangu ymhellach ein tryloywder a'n hatebolrwydd drwy'r cyhoeddiadau sydd ar y gweill gennym, a fydd yn esbonio ein 'dull gweithredu' yng nghyswllt ein prif swyddogaethau. Mae tasg fawr o'n blaen ni o ran paratoi diwygiadau i'n rheolau yn sgil Brexit, ac rydym yn barod i ddarparu pa gymorth ychwanegol bynnag y bydd ei angen ar y Llywodraeth mewn cyd-destun ehangach. Ymhellach yn y dyfodol, efallai y bydd angen i ni gynyddu ein gallu i lunio ein polisiau ein hunain, yn annibynnol ar yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Ni fyddai'r un o'n llwyddiannau wedi bod yn bosibl heb sgiliau ac ymrwymiad y bobl sy'n gweithio i ni. Mae ethos gwasanaeth cymdeithasol cryf iawn ymysg ein gweithlu, ynghyd â mwy a mwy o arbenigedd wrth i ni freinio ein ffordd o weithredu. Mae ein gwaith yn ymdrech tîm sylweddol, ond hoffwn gofnodi fy niolch arbennig i Tracey McDermott, ein Prif Weithredwr yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn ariannol hon, i Andrew Bailey, a gymerodd yr awenau ym mis Gorffennaf 2016, ac i'r tîm arwain ehangach.



John Griffith-Jones



Nid yw arbitrais rheoleiddiol, ym maes ymddygiad o leiaf, yn talu'r ffordd bellach.



Datganiad gan y Prif Weithredwr

Andrew Bailey



Mae'r Adroddiad Blynnyddol hwn yn nodi diwedd fy mlwyddyn gyntaf fel Prif Weithredwr yr FCA, ac am flwyddyn hynod ddiddorol. Wrth weithio yn yr FCA, mae'n amhosibl peidio â rhyfeddu at yr amryw byd o faterion y mae'r sefydliad yn eu delio â nhw. Ymunais â'r FCA ar 1 Gorffennaf 2016, ychydig ddiwrnodau ar ôl y bleidlais refferendwm i'r DU adael yr UE. Roedd yn ddechrau difyr iawn i fy nghyfnod yn yr FCA, a chyflwynodd y cyd-destun ar gyfer yr amrywiaeth o wahanol faterion sy'n rhan o reoleiddio ymddygiad yn y DU.

Mae pleidlais y DU dros adael yr UE, yn ogystal â'r ansicrwydd ynghylch y goblygiadau i wasanaethau ariannol, wedi dangos bod angen rheoleiddiwr ymddygiad â blaenoriaethau clir, sy'n gallu ymateb yn hyblyg i effaith digwyddiadau allanol. Mae ein gwaith ar atal cronfeydd eiddo, o ganlyniad i'r galw cwbl annisgwyl am adbryniannau yn y cyfnod ar ôl y bleidlais, yn enghraifft o sut mae'r FCA yn parhau i wneud yn siŵr bod marchnadoedd yn gweithio'n deg wrth wynebu digwyddiadau annisgwyl yn y dyfodol.

Roedd cyhoeddi Cenhadaeth yr FCA ym mis Ebrill 2017, yn dilyn ymgynghoriad eang, yn foment hollbwysig i'r sefydliad. Mae'r FCA yn gweithredu mewn tirwedd eang iawn – un mesur o hynny yw'r ffaith ein bod yn rheoleiddio 56,000 o gwmnïau, o reolwyr asedau a banciau i ymgynghorwyr ariannol a darparwyr credyd defnyddwyr. Mae hyn, yn anochel, yn golygu bod yn rhaid i ni wneud penderfyniadau ynghylch ble rydym yn canolbwyntio ein hadnoddau. Mae gennym hefyd fwy o adnoddau na nifer o reoleiddwyr ymddygiad eraill, a dylem esbonio sut a phryd y byddem yn eu defnyddio. Nod y Genhadaeth yw esbonio sut rydym yn gwneud y

penderfyniadau hynny, ac yn defnyddio ein hadnoddau i sicrhau ein bod yn gwasanaethu budd y cyhoedd.

Yr hyn rydw i wedi'i ganolbwyntio arno yn ystod y flwyddyn gyntaf yw cwrdd â chynifer o'n rhanddeiliaid â phosibl, er mwyn deall eu safbwyntiau ynghylch yr FCA a'n gwaith. Fel rhan o hyn, rydw i wedi ymweld â chwmnïau a grwpiau defnyddwyr ledled y wlad, yn ogystal â mynd i gyfarfodydd yma yn Llundain. Uchafbwynt arbennig oedd ymweld â chanolfannau galwadau nifer o elusennau, a chael hanes uniongyrchol gan ymgynghorwyr dyled personol rheng flaen am y materion y maent yn delio â nhw o ddydd i ddydd. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gwrdd â mi ac i rannu eu safbwyntiau a'u profiadau â mi.

Mae ein ffocws ar ddefnyddwyr agored i niwed i'w weld mewn nifer o agweddau ar ein gwaith. Ym mis Tachwedd 2016, gwnaethom lansio ein hadolygiad o gredyd cost uchel, sy'n gynnwys gorddrafftiau, rhentu i brynu, benthyciadau gwarantwyr, credyd catalog a benthyciadau llyfr log. Mae hyn yn dilyn y cap ar fenthyciadau diwrnod cyflog a gyflwynwyd yn 2015. Roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig adolygu'r dirwedd gyfan, yn hytrach na dewis cynnyrch fesul un. Mae hyn yn caniatáu i ni gael dealltwriaeth well o'r goblygiadau ehangach i ddefnyddwyr ac, yn fwy penodol, i gyflenwad credyd yn sgil unrhyw gamau gweithredu y gallem eu cymryd. Nid ydym am wthio defnyddwyr sydd angen credyd tuag at fenthycwyr arian anghyfreithlon.

Mae goruchwyllo cwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio o ddydd i ddydd, ynghyd â chymryd camau gorfodi yn eu herbyn pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddrwgweithredu, yn rhan fawr o'n gwaith. Defnyddion ni ein pwerau sy'n ei

gwneud yn ofynnol i gwmni rhestredig dalu iawndal am gamddefnyddio'r farchnad am y tro cyntaf; gan gyhoeddi ym mis Mawrth y bydd Tesco plc yn talu tua £85m o iawndal i fuddsoddwyr am roi camargraff ynghylch ei elw hanner blwyddyn disgwylidig. Rhoddon ni hefyd ddirwy o £163m i Deutsche Bank, a hynny am fethu cynnal fframwaith rheoli digonol ar gyfer atal gwyngalchu arian. Hon oedd y gosb ariannol fwyaf am fethu rheoli gwyngalchu arian y mae'r FCA neu ei ragflaenydd wedi'i rhoi erioed.

Gwnaethon ni hefyd gyhoeddi adroddiad interim ar ein Hastudiaeth Marchnad Rheoli Asedau ym mis Tachwedd 2016. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio ein pwerau cystadleuaeth. Mae rheolwyr asedau yn gyfrifol am gynilion miliynau o boblyn y DU, gan wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu lles ariannol nawr ac yn y dyfodol. Mewn byd o gyfraddau llog cyson isel, mae'n rhaid i ni wneud popeth gallwn ni i alluogi pobl i Gronni a gwneud elw ar eu cynilion a fydd yn gallu diwallu eu hanghenion gydol oes. I allu gwneud hyn, mae angen i ni sicrhau bod cystadleuaeth ym maes rheoli asedau yn gweithio'n effeithiol er mwyn lleihau cost buddsoddi. Rydym wedi cynnig nifer o gamau unioni sydd wedi'u hanelu at ychwanegu rhagor o dryloywder, er mwyn i fuddsoddwyr weld yn glir faint maent yn ei dalu a'r effaith mae ffioedd yn ei chael ar eu helw.


Fel rhan o fy rôl fel Prif Weithredwr, rydw i'n eistedd ar Fwrdd Goruchwylwyr Awdurdod Gwarannau a Marchnadoedd Ewrop (ESMA), ac yn aelod parhaol o Fwrdd y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Comisiynau Gwarannau (IOSCO). Mae cydweithrediad byd-eang o ran rheoleiddio yn hanfodol ar gyfer sicrhau sefydlogrwydd ariannol ac ymddygiad da ar draws y gwasanaethau ariannol.

Mae ein perthynas â rheoleiddwyr eraill yn Ewrop ac yn rhyngwladol yn ein galluogi ni i rannu gwybodaeth, dealltwriaeth ac arferion gorau, ac mae'r perthnasoedd hyn yn cefnogi gwaith goruchwyllo cyson ac effeithiol. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i allu rhannu gwybodaeth a data â'n cymheiriaid yn yr UE ar ôl i'r DU adael yr Undeb. Rydym wedi ymrwymo'n gryf i ymgysylltu â'n cymheiriaid ledled y byd.

Hon yw blwyddyn olaf yr FCA yn Canary Wharf, wrth i ni baratoi ar gyfer cam nesaf ein gwaith gyda swyddfa newydd yn Stratford. Bydd symud i Stratford yn rhoi adeilad o safon i ni, ynghyd â chyfleusterau ardderchog a'r seilwaith cywir i ddiwallu ein hanghenion yn y dyfodol. Mae hefyd yn sicrhau gwerth am arian. Byddwn yn dechrau symud fis Mai 2018.

Hon hefyd fydd y flwyddyn olaf lle byddwn yn gallu elwa ar brofiad John Griffith-Jones. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae John wedi llywio'r FCA o'r dechrau un, ac wedi helpu i sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol. Hoffwn ddiolch iddo'n bersonol am ei gyfnod wrth y llyw.

Hoffwn ddiolch i fy holl gyd-weithwyr yn yr FCA am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd, ac i Fwrdd yr FCA am eu her a'u cyfranogiad parhaus. Rydw i'n edrych ymlaen at weld beth fydd gan fy ail flwyddyn i'w gynnis.



Andrew Bailey



Mae pleidlais y DU dros adael yr UE, yn ogystal â'r ansicrwydd ynghylch y goblygiadau i wasanaethau ariannol, wedi dangos bod angen rheoleiddiwr ymddygiad â blaenoriaethau clir.





Pennod 1

Trosolwg o'r flwyddyn

Mae marchnadoedd ariannol yn hollbwysig i bob person a busnes yn y DU, ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i'n heconomi genedlaethol. Ein nod yw sicrhau bod system ariannol y DU yn gweithio'n effeithiol. Drwy wneud hyn rydym yn darparu budd i'r economi a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Rydym yn rheoleiddio dros 56,000 o gwmnïau gwasanaethau ariannol, dros 140,000 o unigolion cymeradwy sy'n gweithio yn y diwydiant a marchnadoedd ariannol y DU. Mae gwasanaethau ariannol yn cyfrannu tua 12% o gyfanswm allbwn economaidd y DU, gan effeithio'n uniongyrchol ar gryfder ein heconomi a'n gallu i ddenu buddsoddiadau rhyngwladol. Mae gennym amcan strategol cyffredinol, sef sicrhau bod y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio'n gweithio'n effeithiol. I wneud hyn, mae gennym dri amcan gweithredol hefyd. Yr amcanion hyn yw sicrhau lefel briodol o ddiogelwch i ddefnyddwyr, diogelu a gwella uniondeb system ariannol y DU, a hybu cystadleuaeth er budd defnyddwyr.

Sut rydym yn rheoleiddio

Mae ein gwaith rheoleiddio yn gwella'r ffordd mae'r marchnadoedd ariannol yn gweithio, a sut mae cwmnïau'n mynd o amgylch eu busnes. Drwy wneud hyn rydym yn darparu budd i unigolion, i fusnesau, i'r economi, ac felly i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae ein hamcanion wedi'u nodi yn Neddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol 2000. Rydym yn defnyddio dull cymesur ar gyfer rheoleiddio, ac yn blaenoriaethu'r meysydd a'r cwmnïau sy'n peri'r risg fwyaf i'n hamcanion a'r meysydd lle gallwn wasanaethu orau'r budd cyhoeddus a gynrychiolir gan ein hamcanion.

Rydym yn edrych ar farchnadoedd penodol ac ar faterion sy'n torri ar draws sectorau. Rydym yn archwilio gwybodaeth a ddaw o amrywiaeth o ffynonellau, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon sy'n esblygu'n barhaus i lunio ein Safbwyntiau ar y Sector. Mae'r rhain yn disgrifio ein barn am

berfformiad pob sector. Mae'r dull hwn yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach a chynharach i ni o risgiau newydd, ac yn ein helpu i sicrhau bod y gwersi sy'n cael eu dysgu mewn un sector yn cael eu defnyddio ar draws sectorau eraill. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth yn ein Safbwyntiau ar y Sector i helpu i benderfynu ar y blaenoriaethau yn ein Cynllun Busnes.

Mae ein rôl rheoleiddiol yn cynnwys adnabod a mynd i'r afael ag enghreifftiau o ymddygiad sâl ac o gamddefnyddio'r farchnad. Rydym yn gosod yr egwyddorion, y rheolau a'r safonau y mae'n rhaid i gwmnïau gadw atynt er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n deg ac yn effeithiol i ddarparu budd i farchnadoedd a defnyddwyr. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o grwpiau rhanddeiliaid i annog arferion gorau, i gefnogi arloesedd ac i annog cystadleuaeth sy'n diwallu anghenion defnyddwyr.

61%

o bobl yn y DU o leiaf un cynnyrch credyd defnyddwyr, ac mae gan

26%

o'r rheini ddyled heb ei thalu ar y cynnyrch hwnnw.

Roedd ein Cynllun Busnes ar gyfer 2016/17 yn nodi ein rhaglen waith a'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol, sef:

- pensiynau
- troseddau ariannol ac atal gwyngalchu arian
- marchnadoedd ariannol cyfanwerthol
- cyngor
- arloesedd a thechnoleg
- diwylliant a threfniadau llywodraethu cwmnïau
- triniaeth cwsmeriaid presennol

Roedd y Cynllun Busnes yn darparu mesurau dangosol o lwyddiant yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau hyn. Yn ogystal ag adrodd ar y gwaith a wnaed yn erbyn ein hamcanion gweithredol, mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi manylion am ein perfformiad yn erbyn y mesurau hyn.

Mae'r trosolwg hwn yn tynnu sylw at rywfaint o'n gwaith ar gyflawni ein hamcanion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Sicrhau diogelwch i ddefnyddwyr

Rydym yn gosod y rheolau a'r safonau i gwmnïau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gallu sicrhau canlyniadau teg i ddefnyddwyr. Er mai cyfrifoldeb cwmnïau yw trin cwsmeriaid yn deg, gallwn ymyrryd os bydd cwmnïau'n methu gwneud hynny, gan gynnwys cymryd camau gweithredu i wella arferion y diwydiant a sicrhau bod defnyddwyr yn cael iawndal.

Bargen well ar yswiriant

Mae llawer o gwsmeriaid yn adnewyddu eu polisiau yswiriant cyffredinol heb daro golwg ar faint mae eu premiymau wedi cynyddu, neu siopa o gwmpas am y fargen orau. Felly yn 2016 cyhoeddodd ni reolau newydd y mae'n rhaid i yswirwyr cyffredinol gadw atynt yn ystod y broses adnewyddu, gan gynnwys rhoi manylion premiwm y flwyddyn flaenorol i gwsmeriaid, a'u hannog i siopa o gwmpas.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau terfynol i gwmnïau yswiriant bywyd er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn trin eu cwsmeriaid sydd â chynlluniau sydd wedi'u cau i gwsmeriaid newydd ('closed-book customers') yn deg, gan gynnwys rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu polisi, gan gynnwys cynhyrchion a ffioedd.

Gorddrafftiau a chredydau cost uchel

Ers ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio credyd defnyddwyr ym mis Ebrill 2014, rydym wedi canolbwyntio ar y cynnyrch sy'n peri'r risg fwyaf i ddiogelwch defnyddwyr. Cyhoeddodd ni gais am fewnbwn i gael tystiolaeth ar gyfer ein gwaith ar gredyd cost uchel, gan gynnwys adolygiad o'r cap ar brisiau benthyciadau diwrnod cyflog a gyflwynwyd gennym yn 2015. Yn ogystal ag adolygiad o'r cap ar brisiau, roedd y cais am fewnbwn yn ceisio tystiolaeth o sut mae cynhyrchion credyd cost uchel yn cael eu defnyddio, gan bwy, ac a yw defnyddwyr yn cael eu diogelu'n briodol. Gwnaethom gynnwys gorddrafftiau er mwyn ystyried y materion o ran diogelu defnyddwyr a godir yn sgil diffyg tryloywder prisiau, a natur a lefel y ffioedd. Ein bwriad yw adrodd ar ganlyniadau ein cais am fewnbwn yn ystod haf 2017.

Edrychion ni hefyd ar yr effaith ar ddefnyddwyr pan fydd cwmnïau rheoli dyled yn dirwyn i ben.

Cwsmeriaid sydd ag ôl-ddyledion

Mae gan 61% o unigolion yn y DU o leiaf un cynnyrch credyd defnyddwyr, ac mae gan 26% o'r rheini ddyled heb ei thalu ar y cynnyrch hwnnw. Yn ôl ein hamcangyfrifon ni, mae gan ddwy filiwn o ddeiliaid cerdyn credyd ddyledion cyson, ac roedd gan ddwy filiwn ychwanegol ôl-ddyledion, neu roeddent wedi methu talu.

Cyhoeddodd ni ganlyniadau ein hadolygiad o sut mae cwmnïau'n trin cwsmeriaid sydd ag ôl-ddyledion cynnar ar gyfer cynnyrch benthycy anwarantedig, megis cardiau credyd a benthyciadau personol. Gwelsom nad oedd rhai cwmnïau'n adnabod nac yn helpu'r cwsmeriaid hynny, a rhoddodd adborth penodol i bob cwmni yn yr adolygiad ynghylch beth dylent fod yn ei wneud.

Ar wahân i hynny, gwelsom fod rhai cwmnïau morgais wedi cynnwys, yn anghywir, balans diffygion talu cwsmeriaid wrth gyfrifo eu taliadau misol. Dywedon ni wrth gwmnïau morgais roi'r gorau i wneud hynny. Gwnaethom wneud ein rheolau'n gliriach i wella dealltwriaeth ymysg cwmnïau morgais, ynghyd â sefydlu gweithgor y diwydiant i lunio fframwaith unioni y gall cwmnïau ei ddefnyddio ar gyfer cwsmeriaid yr effeithir arnynt.

Gosod cap ar ffioedd gadael pensiwn

Yn 2016, cyhoeddodd y Trysorlys y byddai'n gosod dyletswydd newydd ar yr FCA i roi cap ar ffioedd gadael yn gynnar ar gyfer pobl dros 55 oed sydd am gael mynediad cynnar at eu polisiau pensiwn o dan y trefniadau rhyddid pensiwn newydd. O ganlyniad i'n rheolau newydd, mae cap o 1% ar ffioedd gadael ar gyfer pensiynau personol a ddechreuwyd cyn 31 Mawrth 2017, ac ni all cwmnïau godi unrhyw ffioedd gadael ar gyfer pensiynau personol a ddechreuwyd ar ôl y dyddiad hwn.

Sicrhau iawndal pan aiff pethau o chwith

Erbyn hyn, mae cwmnïau wedi talu dros £26.9bn mewn iawndal i ddefnyddwyr y gwnaeth cam-werthu yswiriant gwarchod taliadau (PPI) effeithio arnynt. Rydym wedi cyhoeddi dyddiad cau ar gyfer cwynion PPI, sef 29 Awst 2019. Er mwyn annog defnyddwyr i benderfynu a dylent gymryd gamau ai peidio, byddwn yn cyflwyno ymgyrch gyfathrebu helaeth ar gyfer defnyddwyr i roi gwybod iddynt am y dyddiad cau, sut mae gwirio a oedd ganddynt PPI, a sut mae cwyno. Rydym wedi gweithio gyda chwmnïau sy'n delio â chwynion PPI i symleiddio'r broses i ddefnyddwyr.

Hefyd, rydym wedi llunio rheolau a chanllawiau sy'n ymwneud â sut dylai cwmnïau ddelio â chwynion PPI, yng ngoleuni dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos *Plevin v Paragon Personal Finance Limited* yn 2014. Bydd ein rheolau a'n canllawiau yn lleihau'r ansicrwydd ar ôl y dyfarniad, gan alluogi cwmnïau i fabwysiadu agwedd deg a chyson, a sicrhau'r canlyniadau gorau

i ddefnyddwyr ar yr adeg gynharaf yn y broses gwyno.

Mae cais am adolygiad barnwrol o'n penderfyniad i gyflwyno dyddiad cau PPI, a'n rheolau a'n canllawiau ynghylch delio â chwynion PPI yng ngoleuni dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos *Plevin*, wedi cael ei wneud. Byddwn yn amddiffyn y cais hwnnw.

Trin cwsmeriaid busnes yn annheg

Rydym wedi comisiynu 'unigolyn medrus' i adolygu honiadau o gwsmeriaid busnesau bach a gyfeiriwyd at Grŵp Ailstrwythuro Byd-eang Royal Bank of Scotland (RBS GRG) rhwng 2008 a 2013 yn cael eu trin yn annheg. Cwblhaodd yr unigolyn medrus ei adroddiad ar yr adolygiad hwn ym mis Medi 2016, ac ym mis Tachwedd 2016 cyhoeddodd ni grynoded o ganfyddiadau'r adroddiad. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gyhoeddi fersiwn fwy cynhwysfawr o ganfyddiadau'r adolygiad cyn gynted ag y bo modd. Mae RBS bellach wedi sefydlu proses adolygu cwynion, ac wedi cytuno i ddarparu ad-daliadau awtomatig ar gyfer ffioedd cymhleth i rai o'r cwsmeriaid busnesau bach hyn. Rydym yn croesawu cyfraniad trydydd parti annibynnol i'r gwaith o oruchwylio'r broses adolygu cwynion. Bydd y trydydd parti annibynnol hwn yn rhoi adroddiadau i ni yn rheolaidd.

Contractau Gwahaniaeth

Offerynnau ariannol cymhleth yw Contractau Gwahaniaeth Adwerthu, sy'n cael eu cynnig i gwsmeriaid adwerthu drwy lwyfannau masnachu ar-lein. Mae ein gwaith wedi dangos bod y Contractau hyn yn gynnyrch uchel ei risg, a bod y mwyafrif helaeth o gleientiaid yn colli arian o'u herwydd. Rydym wedi cyhoeddi papur ymgynghori sy'n esbonio ein pryderon ac yn cynnig mesurau i fynd i'r afael â nhw.

Diogelu defnyddwyr drwy gryfhau system ariannol y DU

Yn dilyn argyfwng ariannol 2007, roedd clustnodi ymhlith y nifer o ddiwygiadau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth er mwyn cryfhau'r system ariannol. Fel rhan o glustnodi, mae'n rhaid i rai o

fanciau'r DU neilltuo eu gwasanaethau adwerthu hanfodol o weddill eu grŵp bancio.

Y prif reoleiddwr yng nghyswllt clustnodi yw'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus. Ein rôl ni yw monitro a rheoli effeithiau negyddol ar ddefnyddwyr, uniondeb y farchnad a chystadleuaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf buom yn gweithio'n agos gyda chwmnïau i wella a llunio'u cynlluniau terfynol ar gyfer clustnodi, sy'n gorfod cael eu rhoi ar waith erbyn 1 Ionawr 2019.

Diogelu a gwella uniondeb system ariannol y DU

Ein nod yw sicrhau bod gan y DU system ariannol iach a thryloyw.

Goruchwylio cwmnïau'n barhaus

Rydym yn gwneud ein gorau i fynd i'r afael yn gyflym â digwyddiadau yn y farchnad a allai fygwth uniondeb y farchnad, neu achosi niwed i ddefnyddwyr. Mae'r gwaith hwn yn berthnasol i'n hamcanion o ran uniondeb y farchnad a diogelu defnyddwyr. Mae'r digwyddiadau risg' hyn yn cael eu hadnabod gennym mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys ein gwaith thematig, ffurflenni rheoleiddiol a'n hasesiadau rheoleiddiol. Yn ystod 2016/17, cawsom 24,916 o achosion seiliedig ar ddigwyddiadau gan gwmnïau 'hyblyg' ar draws pob sector. O'r 24,916 o ddigwyddiadau a gafwyd yn 2016/17, rydym yn dal yn asesu 2,049 ohonynt. Gwnaethom gymryd camau goruchwylio ar gyfer 36% o'r digwyddiadau hyn, gan fod ganddynt y potensial i achosi'r niwed mwyaf i'n hamcanion.

Mynediad cyfartal at wybodaeth IPO

Mae'r broses Cynigion Cyntaf i'r Cyhoedd (IPO) yn y DU yn chwarae rôl hanfodol yn helpu cwmnïau i sicrhau cyllid. Rhwng 2011 a 2015, lansiodd 460 o gwmnïau ar Gyfnwidfa Stoc Llundain, gan godi tua £53bn. Mae'n bwysig bod darpar fuddsoddwyr yn cael mynediad teg at wybodaeth amserol yn ystod y cyfnod cyn yr IPO. Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Mawrth 2017 a oedd yn cynnig pecyn o fesurau polisi i wella ystod ac ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i fuddsoddwyr

yn ystod y broses IPO. Byddwn yn rhoi'r newidiadau ar waith yn 2017.

Effaith ansefydlogrwydd ar asedau caeth

Gwnaethom waith ar gronfeydd eiddo a oedd wedi rhoi'r gorau i fasnachu am gyfnod yn sgil y galw uchel am adbryniannau yn y cyfnod ar ôl pleidlais y DU dros adael yr UE. Ystyrion ni a oedd cwmnïau wedi trin eu cwsmeriaid yn deg ac wedi cyfathrebu'n effeithiol, a hynny wrth i'r masnachu ddod i ben ac aildddechrau. Cyhoeddod ni bapur trafod i gasglu rhagor o dystiolaeth ynghylch y problemau sy'n gysylltiedig â chronfeydd penagored sy'n dal asedau caeth, ac a fyddai ymyriad rheoleiddiol pellach yn gallu eu datrys. Rydym yn gobeithio cyhoeddi ymateb i'r adborth a gawn yn nes ymlaen eleni.

Y Gyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol (MiFID II) yn agosáu

MiFID II yw'r Gyfarwyddeb sy'n rheoleiddio cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag offerynnau ariannol megis cyfranddaliadau, bondiau a deilliadau. Bydd yn dod i rym ar 3 Ionawr 2018, ac yn creu gwasanaethau buddsoddi newydd yn ogystal ag ehangu diffiniad yr hyn sy'n cael ei ystyried yn offeryn ariannol. Y llynedd, cyhoeddod ni bedwar papur ymgynghori ar wahanol elfennau o MiFID II, ynghyd â chanllawiau newydd ar gyfer cwmnïau yr effeithir arnynt. Gwnaethon ni hefyd gynnal nifer o weithdai'r diwydiant i helpu'r cwmnïau hyn. Agorwyd y broses awdurdodi gennym ym mis Ionawr 2017 er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer ceisiadau, ac i amharu cyn lleied â phosibl ar y farchnad yn sgil y nifer fawr o gwmnïau y mae disgwyl iddynt wneud cais am awdurdodiadau newydd.

Hybu cystadleuaeth i ddefnyddwyr

Mae cystadleuaeth iach yn helpu i rymuso defnyddwyr yn ogystal â rhoi gwybodaeth iddynt. Mae hyn yn annog cwmnïau i fynd ati i ennill cwsmeriaid drwy well gwasanaeth, ansawdd, pris ac arloesedd. Ein nod yw gwneud yn siŵr

bod cwmnïau llwyddiannus, cystadleuol ac arloesol yn ffynnu, a bod cwmnïau sydd ddim yn gystadleuol yn newid eu ffyrdd neu'n gadael y farchnad.

Rheoli asedau

Mae dros dri chwarter yr aelwydydd yn y DU sydd â phensiynau gweithle neu bersonol yn defnyddio gwasanaethau rheoli asedau, ac mae'r diwydiant rheoli asedau yn y DU yn rheoli bron i £7tn o asedau. Er mwyn deall a oedd cystadleuaeth yn gweithio'n effeithiol yn y sector rheoli asedau, cynhalion ni astudiaeth farchnad a chyhoeddi ein canfyddiadau interim. Dangosodd y canfyddiadau gystadleuaeth wan mewn nifer o feysydd, elw uchel cyson ac adroddiadau aneglur ar berfformiad yn aml. Rydym wedi cynnig pecyn o fesurau i wella cystadleuaeth yn y farchnad hon, a byddwn yn cyhoeddi ein hadborth terfynol yn nes ymlaen eleni. Rydym hefyd wedi ymgynghori ynghylch a dylid cyfeirio at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yng nghyswllt y farchnad ymgynghori ar gyfer buddsoddi.

Cardiau credyd

Mae canfyddiadau ein hastudiaeth farchnad o ran pa mor effeithiol mae cystadleuaeth yn gweithio i ddefnyddwyr yn y farchnad cardiau credyd wedi cael eu cyhoeddi. Yn ôl ein canfyddiadau, mae cystadleuaeth yn gweithio'n effeithiol i'r rhan fwyaf o'r 30 miliwn o ddefnyddwyr sydd â cherdyn credyd. Mae defnyddwyr yn dueddol o siopa o gwmpas a newid er mwyn cael bargaen well. Serch hynny, mae cystadleuaeth yn dueddol o ganolbwyntio ar nodweddion megis cynigion rhagarweiniol, ac mae llai o gystadleuaeth yng nghyswllt costau, ffioedd a chyfraddau llog yn y tymor hir.

Mae gennym bryderon sylweddol ynglŷn â graddfa, hyd a lled a natur dyled cardiau credyd sy'n achosi problemau, a diffyg cymhellion cwmnïau i'w lleihau. Rydym wedi cynnig amrywiaeth o gamau unioni i ddefnyddwyr, gan gynnwys cymryd rhagor o gamau ar gwmnïau i wneud yn siŵr eu bod yn ymyrryd yn gynt, cyn

i ddefnyddwyr fynd i ddyled sy'n achosi problemau iddynt.

Rhagor o eglurder ynghylch cynnyrch ychwanegol ar ben yswiriant

Cynnyrch ychwanegol ar ben yswiriant yw cynnyrch sy'n cael ei werthu ochr yn ochr â'r cynnyrch yswiriant sylfaenol. Yn aml, fodd bynnag, nid yw defnyddwyr yn sylweddoli eu bod wedi prynu cynnyrch ar ben, neu eu bod yn prynu cynnyrch ar ben sy'n darparu gwerth gwael am arian neu'n anaddas i'w hanghenion.

Yn dilyn ein hastudiaeth farchnad ynghylch y mater hwn, rydym yn cynnal cynllun peilot sy'n edrych ar gyhoeddi mesurau gwerth yswiriant, gan gynnwys amlder hawliadau, cyfraddau derbyn hawliadau a thaliadau cyfartalog hawliadau, a hynny ar gyfer pedwar cynnyrch yswiriant cyffredinol. Cyhoeddod ni'r data hyn i roi mesurau y gellir eu cymharu i grwpiau defnyddwyr er mwyn gwella tryloywder y farchnad ac annog cwmnïau i gynyddu gwerth eu cynnyrch.

Arloesedd

Trwy gyfrwng ein Hyb Arloesi, rydym wedi parhau i feithrin arloesedd sy'n canolbwyntio ar gynnig canlyniadau gwell i ddefnyddwyr.

Yr adnoddau i gyflawni ein hamcanion

Ein staff

Ni fyddai'n bosibl cyflawni ein hamcanion heb ein staff. Mae gennym gylch gwaith eang, ac mae'n hanfodol ein bod yn denu, yn datblygu ac yn cadw'r bobl iawn i gyflawni ein hamcanion.

Yn 2016/17, fe ddechreuon ni ein rhaglen prentisiaethau gyntaf. Mae 104 o weithwyr ar ein rhaglen graddedigion ar hyn o bryd. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein cwricwlwm a'n rhaglen Academi fewnol, ac mae 56% o'r holl weithwyr wedi mynd i o leiaf un digwyddiad hyfforddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ein seilwaith

Rydym yn datblygu ac yn gwella ein systemau gwybodaeth yn barhaus

er mwyn cadw ar y blaen o ran ein gofynion gweithredol a rheoleiddiol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi buddsoddi £58.5 miliwn i gyflawni prosiectau newid er mwyn rhoi newidiadau deddfwriaethol y DU a'r UE ar waith, ac i wella ein gallu gweithredol a chynnal ein systemau gwybodaeth.

Yn 2018, byddwn yn symud o'n swyddfeydd presennol yn Llundain i Barc Olympaidd y Frenhines Elizabeth yn Stratford. Bydd ein hadeilad newydd yn fwy effeithlon, ac yn darparu'r seilwaith cadarn sydd ei angen arnom i barhau i helpu defnyddwyr gwasanaethau ariannol.

Ein Cenhadaeth

Rydym wedi bod yn drafftio ein Cenhadaeth ac yn ymgynghori'n helaeth yn ei chylch drwy gydol 2016/17. Mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer ein penderfyniadau strategol, y rhesymeg wrth wraidd ein gwaith a'r ffordd rydym yn dewis yr adnoddau i'w gyflawni. Mae'n rhoi rhagor o eglurder i gwmnïau a defnyddwyr ynghylch sut a pham rydym yn blaenoriaethu, yn diogelu ac yn ymyrryd ym marchnadoedd ariannol. Cyhoeddwyd fersiwn derfynol ein Cenhadaeth ym mis Ebrill 2017.

Fe wnaeth dros 180 o grwpiau defnyddwyr, cwmnïau, cymdeithasau masnach, academyddion ac unigolion ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd hyd a lled eu sylwadau yn hollbwysig o ran helpu i lunio ein Cenhadaeth. Mae'n tanlinellu mai ein rôl ni yw gwasanaethu budd y cyhoedd drwy'r amcanion y mae'r Senedd wedi'u rhoi i ni. Dywedodd ein rhanddeiliaid wrthym eu bod am i ni fod yn fwy clir ynghylch sut rydym yn gwneud ein dyfarniadau rheoleiddiol, a bydd y dull sy'n cael ei esbonio yn ein Cenhadaeth yn sicrhau y byddwn yn gwella yn hynny o beth.

Mae ein Cenhadaeth yn esbonio sut byddwn yn mynd ati i ddefnyddio mesurau ansoddol a meintiol i ddeall a gwerthuso effaith ein gwaith. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyhoeddi rhagor o ddogfennau i esbonio sut rydym yn cyflawni ein prif weithgareddau – awdurdodi a goruchwyllo cwmnïau, cymryd camau gorfodi, annog cystadleuaeth a

dylanwadu ar ddyluniad y farchnad – a sut mae'r Genhadaeth yn effeithio ar y gwaith hwn.

Brexit

Bydd penderfyniad y DU i adael yr UE yn golygu goblygiadau pwysig i'r sector gwasanaethau ariannol, y fframwaith rheoleiddiol ac, felly, ein gwaith. Rydym yn darparu cyngor technegol diduedd i'r Llywodraeth er mwyn helpu gyda'r trafodaethau ar gyfer gadael yr UE a'r newidiadau deddfwriaethol cysylltiedig, yn arbennig lle gallant effeithio ar ein gallu i barhau i gyflawni ein hamcanion gweithredol. Rydym yn gweithio gyda chwmnïau i ddeall eu cynlluniau ar gyfer parhau i wasanaethu eu gweithrediadau trawsffiniol.

Rydym wedi dechrau gweithio gyda'r Trysorlys i ddarparu mewnbwn technegol i waith sy'n ymwneud â'r Bil Diddymu Mawr. Mae hon yn dasg sylweddol sy'n cynnwys dadansoddi, fesul llinell, pob darn o ddeddfwriaeth yr UE lle mai ni yw'r prif reoleiddiwr ar ei chyfer. Ein hamcan sylfaenol yn y gwaith hwn yw rhoi sicrwydd i bob parti sydd â diddordeb, er mwyn cael trefn reoleiddio glir sy'n gweithio yn ei lle ar y diwrnod y mae aelodaeth y DU o'r UE yn dod i ben. Byddwn yn parhau i hybu ein hamcanion strategol, ac o ganlyniad yn cynnal safonau ymddygiad uchel a gwaith rheoleiddio cadarn, cymesur a chynaliadwy.

Rydym ar ein hennill yn sylweddol drwy gydweithredu â rheoleiddwyr eraill yn Ewrop ac yn rhyngwladol. Mae hynny'n ein galluogi ni i rannu gwybodaeth, dealltwriaeth ac arferion gorau, ac mae'r perthnasoedd hyn yn cefnogi gwaith goruchwyllo cyson ac effeithiol. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i allu rhannu gwybodaeth reoleiddiol â'n cymheiriaid yn yr UE ar ôl Brexit.



Bydd penderfyniad y DU i adael yr UE yn golygu goblygiadau pwysig i'r sector gwasanaethau ariannol.



Pennod 2

Mesur ein perfformiad

Ein nod yw bod yn rheoleiddiwr atebol a thryloyw. Mae deddfwriaeth yn mynnu ein bod yn asesu sut rydym wedi datblygu ein hamcanion bob blwyddyn. Rydym wedi mesur ein perfformiad dros y flwyddyn a fu gan ddefnyddio fframwaith perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

O ystyried y wybodaeth y mae'r dangosyddion (ffigur 2.1) wedi'i rhoi i ni, ac edrych ar yr ystod o weithgareddau a nodir yn yr adroddiad hwn, rydym o'r farn ein bod wedi gweithredu'n gydnaws â'n hamcan strategol ac wedi hybu ein hamcanion gweithredol yn ystod y flwyddyn.

Mae ein Cenhadaeth yn esbonio sut byddwn yn gwella ein dull ar gyfer mesur ein heffaith. Mae'n nodi'r fframwaith 3 haen y byddwn yn ei ddefnyddio i fesur ein llwyddiant. Mae hyn yn cynnwys mesur ein heffeithlonrwydd gweithredol yn erbyn ein fframwaith gwerth am arian, effaith ein hymyriadau, a'r canlyniadau ar farchnadoedd yn


Ffigur 2.1: Fframwaith perfformiad seiliedig ar ganlyniadau

Sicrhau bod marchnadoedd gwasanaethau ariannol yn gweithio'n dda

Amcanion statudol	Sicrhau diogelwch priodol i ddefnyddwyr	Diogelu ac ehangu uniondeb system ariannol y DU	Hybu cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr			
Canlyniadau	Mae defnyddwyr yn cael mynediad teg at gynnyrch a gwasanaethau, sy'n gwneud yr hyn maent yn addo ei wneud	Gall defnyddwyr fod yn ffyddiog bod cwmnïau'n eu trin yn deg ac yn datrys problemau ar unwaith	Gall defnyddwyr ymddiried mewn cwmnïau addas a phriodol a marchnadoedd ariannol dilychwin	System reoleiddio uchel ei pharch sy'n rhoi gwybod i gwmnïau da lle maent yn sefyll	Mae cystadleuaeth yn cyfrannu at well canlyniadau i ddefnyddwyr	Mae cwmnïau'n cystadlu ar sail costau clir ac mae gan ddefnyddwyr y wybodaeth sydd ei hangen arnynt.
	Dangosyddion canlyniadau	Cynnyrch a gwasanaethau teg	Meithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltu	Marchnadoedd glân sy'n cael eu rheoleiddio	Pa mor ddeniadol yw'r farchnad	Cynnyrch a gwasanaethau sy'n cynnig gwerth am arian
	Gwell profiad i ddefnyddwyr	Atebion effeithiol	Dim llawer o droseddau ariannol	Rheoliadau cydgyssylltiedig uchel eu parch	Cael gwell gwasanaeth	Gwybodaeth glir a defnyddiol

Mae'r fframwaith perfformiad hwn yn berthnasol i'r marchnadoedd adwerthu a chyfanwerthu. Mae 'defnyddiwr' yn y fan hon yn golygu defnyddwyr adwerthu a chyfranogwyr yn y farchnad gyfanwerthu.

Ffigur 2.2: Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi gyda darparwr eich cynnyrch?



Ffynhonnell: Arolwg Bywyd Ariannol 2017

gyffredinol er mwyn adnabod achosion sylfaenol cyffredin. Byddwn yn datblygu ein ffyrdd o fesur yn erbyn y fframwaith hwn yn ystod 2017/18.

Mesurau perfformiad o dan ein hamcanion statudol

Diogelu defnyddwyr

Rydym yn gwneud gwaith ymchwil ac yn monitro'r farchnad i ddeall barn defnyddwyr am y cynnyrch a'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio, a pha mor fodlon ydynt arnynt. Mae'r detholiad o fetrigau isod yn rhoi arwydd o'r newidiadau yng nghanlyniadau defnyddwyr.

Rydym yn crybwyll ein Harolwg o Fywyd Ariannol 2017 drwy gydol yr Adroddiad Blynyddol hwn. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Ebrill 2017, a chymerodd tua 13,000 o ddefnyddwyr ran ynddo. Gwnaethom yn siŵr ein bod yn arolygu ystod lawn o ddefnyddwyr, a bod y canlyniadau'n cynrychioli poblogaeth y DU. Mae'r arolwg hwn yn rhoi cipolwg defnyddiol i ni o brofiad oedolion 18 oed neu hŷn yn y DU o'r sector gwasanaethau ariannol.

Mae bodlonrwydd ar wahanol gynnyrch ymysg oedolion yn y DU yn gymedrol neu'n uchel ar y cyfan (ffigur 2.2), gyda rhwng 69% a 90% o ddefnyddwyr yn rhoi sgôr bodlonrwydd o 7-10 (allan o 10). Ceir eithriad yng nghyswllt cyfrifon cynilo: dim ond hanner (51%) y defnyddwyr â chyfrif cynilo a roddodd sgôr rhwng cymedrol ac uchel o ran eu bodlonrwydd ar eu darparwr, canlyniad a allai adlewyrchu'r lefelau isel o gyfraddau llog sydd ar gael o ran y cynhyrchion hyn ar hyn o bryd.

Cwynion


Ffynonellau ein data cwynion yw'r wybodaeth mae cwmnïau'n ei rhoi yn eu ffurflenni i'r FCA, a Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Rydym yn monitro'r wybodaeth hon i asesu hyd a lled y materion yn y diwydiant a sylwi ar dueddiadau newydd.




Dim ond hanner y defnyddwyr gyda chyfrif cynilo sy'n eithaf bodlon neu'n gwbl fodlon â'u darparwr.



Ffigur 2.3a: Cwynion a dderbyniwyd gan gwmnïau rheoledig



Ffigur 2.3b: Cwynion a dderbyniwyd gan gwmnïau rheoledig



Mae Ffigur 2.3a yn dangos cyfanswm y cwynion a gafwyd gan gwmnïau yn 2014 a 2015. Mae Ffigur 2.3b yn dangos nifer y cwynion yn 2016. O ganlyniad i newidiadau i reolau ein data cwynion, a ddaeth i rym yn 2016, ni ellir cymharu data 2016 yn uniongyrchol â data 2014 a 2015.

Gwnaethom newidiadau i'n rheolau cwynion er mwyn ehangu ein dadansoddiadau o gwynion a gwella'r ffordd mae cwmnïau'n delio â chwynion. Mae'r newidiadau hynny'n golygu bod yn rhaid i gwmnïau roi gwybod i ni am bob cwyn a wneir iddynt, yn hytrach na'r rheini sydd yn dal heb eu datrys erbyn diwedd y diwrnod busnes nesaf yn unig. Daeth y rheolau newydd i rym ar 30 Mehefin 2016, ond ni ddefnyddiodd pob cwmni'r ffurflen adrodd newydd o'r dyddiad hwnnw ymlaen, oherwydd dyddiad dod i ben eu blwyddyn ariannol nhw a'u cyfnodau adrodd gwahanol. Bydd yn rhaid i bob cwmni adrodd o dan y rheolau newydd yn 2017.

Mae'r rheolau adrodd newydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y cwynion yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae data chwech o'r banciau mwyaf yn dangos y byddai nifer eu cwynion, pe baent wedi adrodd o dan yr hen reolau, wedi gostwng tua 14% yn 2016, gan

awgrymu mai'r rheswm pennaf dros y cynnydd oedd y gofyniad i roi gwybod am bob cwyn.

Er bod cyfanswm y cwynion a adroddwyd i'r FCA wedi cynyddu'n sylweddol, o ganlyniad i'r newidiadau hyn i'r rheolau ychydig iawn o newid sydd i'w weld yn nifer y cwynion PPI a adroddwyd wrth gymharu 2016 â 2015.

O edrych ar holl ddata cwynion yr FCA gan gwmnïau, yn gyffredinol roedd 2016 yn well na 2015 o ran yr amser yr oedd cwmnïau wedi'i gymryd i ddod â'u cwynion i ben. Roedd mwy o gwynion wedi cael eu cau gan gwmnïau o fewn wyth wythnos neu lai. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r newidiadau o ran adrodd, bydd mwy o gwynion a gaewyd o fewn wyth wythnos yn cael eu hadrodd i'r FCA yn ystod ail hanner 2016. Mae'r duedd gyffredinol yn galonogol. Fodd bynnag, efallai fod gwahanol ffactorau'n effeithio ar y gwaith o ddelio â chwynion yn brydlon, megis materion mwy cymhleth yn dod i'r amlwg.

Yn 2016, cafodd 59% o'r holl gwynion i gwmnïau eu cadarnhau (lle roedd y cwmni'n cytuno â'r achwynydd). Mae hyn wedi codi o 54% yn 2015, ac mae'r un fath ag yr oedd yn 2014. Nid yw'r ganran yn newid yn sylweddol pan gaiff PPI ei eithrio.

Mae cyfanswm yr iawndal a delir gan gwmnïau i ddefnyddwyr mewn ymateb i gwynion wedi gostwng o £5.2bn yn 2014, i £4.1bn yn 2015, a £3.9bn yn 2016. Y prif reswm dros hyn yw'r gostyngiad yn yr iawndal a delir am gynnyrch diogelwch ac yswiriant cyffredinol, gan gynnwys PPI. Rydym yn amcangyfrif mai PPI yw'r rheswm am fwy na 90% o'r iawndal a delir yn y sector diogelwch ac yswiriant cyffredinol. Ar ôl eithrio'r iawndal am ddiogelwch ac yswiriant cyffredinol, roedd cyfanswm yr iawndal yn gostwng o £699m yn 2015 i £564m yn 2016. Mae hyn yn agosach i'r £551m a dalwyd yn 2014.

Ffigur 2.4: Pa mor fodlon oeddech chi ar sut gwnaeth eich darparwr ddelio â'ch cwyn?

Sector	Sgôr 7-10 (allan o 10)
Bancio adwerthu	45%
Credyd defnyddwyr	40%
Buddsoddiadau adwerthu	41%
Diogelwch ac yswiriant cyffredinol	33%
Morgais *	27%

Arolwg Bywyd Ariannol 2017:
*maint y sampl yn llai na 100

Mae Ffigur 2.4 yn dangos bod gan gwmnïau lawer o waith i'w wneud o hyd i wella sut maent yn delio â chwynion. Ym mhob sector, roedd llai na hanner y cwsmeriaid (45% oedd yr uchaf) wedi rhoi sgôr rhwng eithaf bodlon a chwbl fodlon ar ffordd eu darparwr o ddelio â chwyn.

Byddwn yn parhau i fonitro'r effaith mae ein newidiadau i'r rheolau o ran delio â chwynion yn ei chael ar sgoriau bodlonrwydd dros 2017/18.


Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

Cafodd Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol 1,394,379 o ymholiadau yn ystod 2016/17 (o'i gymharu â 1,631,955 yn 2015/16 a 1,786,973 yn 2014/15). Nid yw pob ymholiad yn arwain at agor achos newydd. Yn 2016/17, cafodd 321,283 o achosion newydd eu hymchwilio, o'i gymharu â 340,899 yn 2015/16 (ffigur 2.5).


Yn ystod 2016/17, cafodd 336,381 o achosion eu datrys gan Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, gyda chyfradd cadarnhau cwynion gyffredinol o 43% (o'i gymharu â 438,802 a 51% yn 2015/16).

Er bod nifer y cwynion wedi disgyn, rydym yn cydnabod mai un dangosydd o effeithiolrwydd marchnadoedd ariannol yw data cwynion. Gall ffactorau eraill effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar nifer y cwynion, megis defnyddwyr yn dod yn fwy ymwybodol o'u hawliau.

Ffigur 2.5: Cwynion a dderbyniwyd gan Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol



Ffigur 2.6: Ystadegyn Glendid y Farchnad



Diogelu a gwella uniondeb system ariannol y DU

Ein nod yw cefnogi system ariannol iach a llwyddiannus, lle mae marchnadoedd ariannol yn deg, yn effeithlon ac yn dryloyw, lle mae cwmnïau'n gallu ffynnu, a lle mae defnyddwyr yn ymddiried mewn marchnadoedd agored a thryloyw. Rydym yn monitro uniondeb mewn llawer o ffyrdd, ac un enghraifft yn unig o'r adnoddau rydym yn eu defnyddio yw'r ystadegyn glendid y farchnad yn ffigur 2.6.


Rydym yn dadansoddi i ba raddau mae pris cyfranddaliad yn newid yn ystod y ddau ddiwrnod cyn cyhoeddi trosfeddiad rheoleiddiol perthnasol, ac yn nodi newidiadau anarferol. Fodd bynnag, nid yw graddau'r newidiadau pris anarferol cyn cyhoeddi (APPMs) o reidrwydd yn dangos lefel y masnachu mewnol. Gallai llawer o ffactorau eraill achosi newidiadau pris anarferol cyn cyhoeddi trosfeddiad. Er enghraifft, ffactorau megis dadansoddwyr ariannol neu'r cyfryngau yn asesu'n gywir pa gwmnïau sy'n debygol o fod yn dargedau ar gyfer trosfeddiad, neu fasnachau sylweddol, ond arferol, yn digwydd cael eu gwneud cyn cyhoeddiad. Nid yw'n bosibl pennu pa ffactor sydd wrth wraidd pob newid pris anarferol, ac felly a oes masnachu mewnol wedi digwydd ai peidio.

Yn ystod y pedair blynedd cyn 2009, arhosodd yr ystadegyn glendid y farchnad yng nghyswllt cyhoeddiadau trosfeddiad o gwmpas 30%. Ond o 2010 ymlaen, gwelsom gryn ostyngiad yn y mesur, gan gyrraedd 15.2% yn 2014.

19% oedd y mesur yn 2016, yr un fath ag yn 2015. Byddwn yn parhau i fonitro'r canlyniadau a chasglu gwybodaeth am y farchnad er mwyn ein galluogi i ddod i gasgliadau cadarn ynghylch y duedd gyffredinol o ran gweithgarwch masnachu mewnol.


Mae Ffigur 2.7 yn dangos nifer yr adroddiadau o dwyll gan unigolion a busnesau (gan ddod yn uniongyrchol gan heddluoedd neu drwyddynt) a wnaed i Action Fraud (prif ganolfan y DU ar gyfer rhoi gwybod am dwyll a seiberdroseddu) dros y ffôn neu ar-lein. Mae canlyniadau 2016 yn dangos bod

Ffigur 2.7: Twyll y rhoddwyd gwybod amdano i Action Fraud




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, fely cofnodwyd gan y Ganolfan Genedlaethol Gwybodaeth am Dwyll – ffigurau Action Fraud

Ffigur 2.8: Safbwynt cadarn ynghylch pa mor effeithiol yw'r FCA wrth reoleiddio'r diwydiant gwasanaethau ariannol (%)



Nodyn: Daw'r ffigurau ar gyfer 2015 a 2016 o adroddiad Arolwg Panel Cyfranogwyr yr FCA 2016. Daw canlyniadau 2017 o Arolwg Diwydiant Panel Cyfranogwyr 2017 a'r FCA.

Ffigur 2.9: Boddhad cwmnïau o ran y berthynas â'r FCA (%)




adroddiadau o dwyll wedi parhau i godi yng nghyswllt bancio a chredyd, yn ogystal â thwyll yswiriant. Serch hynny, rydym yn falch o weld gostyngiad sylweddol mewn adroddiadau o dwyll yng nghyswllt buddsoddiadau ariannol, a allai ddangos bod ymdrechion yr FCA ac amrywiaeth o asiantaethau partner yn y maes hwn, gan gynnwys ein hymgyrch ScamSmart, wedi helpu i addysgu defnyddwyr ac atal twyllwyr er mwyn lleihau faint o dwyll sy'n digwydd.

Sgoriau cadarn i'r 'FCA fel rheoleiddwr effeithiol'

Yn 2017, cynhalion ni arolwg ar y cyd â Phanel Ymarferwyr yr FCA, yn gofyn i gwmnïau roi eu barn am yr FCA, gan gynnwys 'effeithiolrwydd y rheoleiddwr' a 'bodlonrwydd ar y berthynas reoleiddiol'.

Yn yr arolwg diweddaraf, roedd y sgôr gyffredinol gymedrig ar gyfer effeithiolrwydd yr FCA (ffigur 2.8) wedi cynyddu o 6.7 i 7.0 (allan o 10) Mae'r sgôr gyffredinol gymedrig ar gyfer bodlonrwydd ar y berthynas â'r FCA (ffigur 2.9) yn parhau i wella, gan godi o 7.1 yn 2015 i 7.2 yn 2016 a 7.5 yn 2017 (allan o 10).

Ffigur 2.10: Cytundeb bod yr FCA yn cyflawni pob un o'r amcanion a brofwyd




Ffynhonnell: Gwaith Ymchwil Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yr FCA 2017 (BritainThinks)

Barn rhanddeiliaid am ein perfformiad

Trwy BritainThinks, rydym yn cynnal ymchwil annibynnol blynyddol ymysg ein rhanddeiliaid, sy'n holi amrywiaeth eang ohonynt – gan gynnwys cyrff masnach, sefydliadau defnyddwyr, seneddwyr a'r cyfryngau – ynghylch eu barn am yr FCA. Mae'r ymchwil hwn yn dangos bod y mwyafrif o rhanddeiliaid yn cytuno bod yr FCA yn cyflawni ei amcanion statudol. Mae hynny wedi aros yn gyson; nid yw wedi newid rhyw lawer ers y llynedd (ffigur 2.10).

Ffigur 2.11: Awdurdodiadau banc newydd ac amrywio caniatâd



Mae arolwg BritainThinks hefyd yn dangos bod bron i dri chwarter y rhanddeiliaid (72%) yn cytuno bod yr FCA yn amlwg yn sefydlu ei awdurdod dros ddiwydiant gwasanaethau ariannol y DU – cynnydd o 6 phwynt canran ers yr ymchwil diweddaraf ymysg rhanddeiliaid. Mae barn rhanddeiliaid am yr FCA yn ôl ar y lefelau a welwyd ym mlynnyddoedd blaenorol, ar ôl disgyn yn 2016.

Mae'r mwyafrif o randdeiliaid allanol (67%) yn teimlo bod yr FCA yn cysylltu â nhw 'ar lefel briodol'. Mae hyn yn gynydd o 6 phwynt canran ers yr ymchwil yn 2016.

Hybu cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr

Mewn marchnadoedd sy'n gweithio'n effeithiol, mae gan ddefnyddwyr amrywiaeth o ddewis, gyda chwmnïau'n cystadlu yng nghyswllt gwasanaeth, ansawdd, pris ac arloesedd.

Nid yw'n bosibl pennu'n uniongyrchol a yw cystadleuaeth yn gweithio'n effeithiol mewn marchnad benodol ai peidio. Mae'n rhaid casglu data marchnad sy'n dangos y lefel debygol o gystadleuaeth, a'u hystyried gyda'i gilydd. Gall y dangosyddion hyn gynnwys gallu cwmnïau i ymuno â'r farchnad honno, a yw cwmnïau'n ei gadael a pha rai sydd, a faint o bŵer sydd gan y cwmnïau yn y farchnad honno. Dyna pam ein bod yn defnyddio ein hadnoddau cystadleuaeth, yn arbennig astudiaethau marchnad, i gymryd golwg fanwl ar ba mor effeithiol yw cystadleuaeth mewn sector. Mae rhagor o wybodaeth am sut

rydym yn cyflawni ein hamcan o ran cystadleuaeth ym mhennod 5.

Enghraifft o'r dull hwn yw'r newidiadau sylweddol y gwnaethom i'r broses awdurdodi yn 2013 er mwyn tynnu'r rhwystrau rhag ymuno yn y farchnad bancio. Rhwng yr adeg honno a diwedd mis Mawrth 2017, fe wnaethon ni weithio gyda'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus i'w helpu gyda'r broses o awdurdodi 23 o fanciau, gan annog rhagor i ymuno â'r farchnad gyda'r bwriad o godi lefelau cystadleuaeth yn y farchnad.

Er mwyn i gystadleuaeth weithio'n effeithiol, dylai marchnadoedd groesawu aelodau newydd ac arloesedd. Mae Ffigur 2.11 yn dangos nifer y trwyddedau bancio (un ai drwy awdurdodi cwmni newydd neu gwmni presennol sy'n cael ei reoleiddio sy'n newid ei hawliau). Serch hynny, gellir gwella cystadleuaeth o hyd. Yn dilyn ein hymateb i Ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i'r Farchnad Bancio Adwerthu, rydym yn bwrw ymlaen â nifer o gamau gweithredu (gweler 'Triniaeth cwsmeriaid presennol' ym mhennod 3 am ragor o fanylion).

Safonau gwasanaeth

Rydym yn monitro ac yn adrodd ar feysydd perfformiad eraill, gan gynnwys a ydym yn cyrraedd ein safonau gwasanaeth ai peidio.

Rydym yn olrhain ein perfformiad ac yn adrodd arno, a hynny yn erbyn ein safonau gwasanaeth ar gyfer ein swyddogaethau rheoleiddio, ac yn

cyhoeddi'r canlyniadau ar ein gwefan bob chwe mis.

Mae ein safonau gwasanaeth yn cynnwys ymrwymadau gwirfoddol a'n dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol a deddfwriaethau eraill. Mae'r safonau'n berthnasol i amrywiaeth o'n gwasanaethau, gan gynnwys sut rydym yn delio â cheisiadau, gohebiaeth ac ymholiadau dros y ffôn.

65 o safonau gwasanaeth sydd gennym bellach, i fyny o'r 54 a oedd gennym pan sefydlwyd yr FCA. O'r 65 hyn, yn ystod 2016/17 cyrhaeddod ni'r safonau ar gyfer 44 o'r 63 o safonau perthnasol (67%).

Mae rhagor o wybodaeth am ein safonau gwasanaeth ar gael ar ein gwefan.

Pennod 3

Diogelu defnyddwyr

Un o'n hamcanion gweithredol yw sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n briodol. Rydym yn annog pob cwmni i ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau teg i gwsmeriaid bob amser.

Ein nod yw sicrhau bod polisiau cwmnïau'n ystyried defnyddwyr bob amser, a bod gan y cwmnïau staff cymwys wedi'u hyfforddi sy'n trin defnyddwyr yn deg, a bod defnyddwyr yn cael iawndal priodol os aiff pethau o chwith. Rydym yn goruchwyllo cwmnïau i wneud yn siŵr eu bod yn bodloni eu gofynion rheoleiddiol, ac yn cymryd camau i orfodi ein rheolau. Rydym hefyd yn diogelu defnyddwyr drwy fynd i'r afael â gweithgarwch troseddol, a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o sgamiau.

Yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2016/17, rydym wedi cynnwys tri maes blaenoriaeth sy'n rhan o'r amcan hwn yn bennaf – pensiynau, cyngor a thriniaeth cwsmeriaid presennol.

Gweithredu

Trin cwsmeriaid morgais sydd â diffygion talu yn deg

Edrychon ni ar sut mae cwmnïau morgais yn cyfrifo rhandaliadau misol cytundebol ar gyfer cwsmeriaid sydd â diffygion talu, i weld a ydynt yn cadw at ein rheolau a beth oedd yr effaith ar gwsmeriaid. Gwelsom fod rhai cwmnïau'n cynnwys balans diffygion talu a/neu falans ôl-ddyledion cwsmeriaid yn eu cyfrifiadau rhandaliadau misol cytundebol heb ystyried amodau cwsmeriaid a chytuno ar hynny gyda nhw. Yn ôl ein

hamcangyfrifon, mae'n debygol fod hyn wedi effeithio ar 750,000 o gwsmeriaid.

Mae'r ymarfer hwn yn brin o dryloywder, gall achosi niwed, ac mae'n debygol o fod yn torri ein rheolau. Gall achosi i gwsmer gymryd mwy o amser i ad-dalu ei ddiffygion talu, arwain at ffioedd amhriodol yn cael eu codi, a'r cwsmer yn gor-dalu tuag at ei falans morgais sy'n weddill heb wybod.

Er mwyn datrys y sefyllfa'n gymesur, yn ymarferol, yn deg ac yn gyflym, fe ddatblygon ni fframwaith unioni gyda mewnbwn gan weithgor y diwydiant. Gwnaethom ymgynghori ynghylch y fframwaith, sy'n darparu un dull y gall cwmnïau ei ddefnyddio wrth gynnig ateb i'r cwsmeriaid yr effeithir arnynt, a chyfathrebu â nhw. Rydym yn disgwyl i gwmnïau benderfynu ar eu dull eu hunain a sicrhau canlyniadau teg i'r holl gwsmeriaid yr effeithir arnynt.

Prif gwmnïau a'u cynrychiolwyr penodedig yn y sector yswiriant cyffredinol

Mae yswirwyr cyffredinol yn y DU yn defnyddio amrywiaeth o ddsbarthwyr gwahanol i werthu cynnyrch i gwsmeriaid, gan gynnwys dros 20,000 o gynrychiolwyr penodedig. Cwmnïau neu unigolion sy'n cyflawni gweithgaredd a reoleiddir ac yn gweithredu fel asiant i gwmni rydym yn ei awdurdodi'n uniongyrchol yw

Mae cwmnïau wedi talu mwy na

£26.9bn

o iawndal i ddefnyddwyr y mae PPI wedi effeithio arnynt

cynrychiolwyr penodedig. Er enghraifft, gallant werthu yswiriant a gwarantiadau ar gyfer eu cynnyrch eu hunain, megis nwyddau gwyn a gwyliau, i filiynau o ddefnyddwyr bob blwyddyn.

Nifer gymharol isel o reolau sydd i lywodraethu cynrychiolwyr penodedig; y prif gwmni sy'n eu penodi sy'n gyfrifol am eu goruchwyllo a'u rheoli. Rydym wedi dod o hyd i broblemau eang o ran y ffordd mae'r cynrychiolwyr hyn yn gweithredu. Cynhalion ni adolygiad thematig o brif gwmnïau a'u cynrychiolwyr penodedig, a chyhoeddi'r canfyddiadau ym mis Gorffennaf 2016.

Daeth ein hadolygiad i'r casgliad nad oedd llawer o brif gwmnïau'n goruchwyllo eu cynrychiolwyr penodedig yn effeithiol. O ganlyniad, roedd gan nifer o'r cynrychiolwyr brosesau ac arferion gwerthu gwael, gan arwain at gam-werthu a niwed i ddefnyddwyr. Cymeron ni gamau gweithredu cynnar lle roedd ein rheolau wedi cael eu torri. Roedd hyn yn cynnwys rhwystro rhai cwmnïau rhag penodi rhagor o gynrychiolwyr penodedig, rhoi'r gorau i weithgarwch gwerthu a mynnu bod y prif gwmnïau'n cynnal adolygiadau o fusnes blaenorol i nodi'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. Rydym wedi rhoi gwybod am ein disgwyliadau i bob prif gwmni perthnasol, ac rydym yn gweithio gyda nhw i fynd i'r afael â'r materion penodol yr ydym wedi eu nodi. Rydym hefyd yn gweithio gyda chwmnïau nad oedd wedi'u cynnwys yn ein hadolygiad i wneud yn siŵr eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau.

Rhoi'r ISA Gydol Oes ar waith

Cafodd yr ISA Gydol Oes ei gyhoeddi yng Nghyllideb Mawrth 2016, ac mae wedi bod ar gael i fuddsoddwyr ers 6 Ebrill 2017. Ei nod yw helpu oedolion o dan 40 oed i gynilo tuag at flaendal ar gartref cyntaf neu at eu hymddeoliad. Daeth ein rheolau sy'n rheoleiddio'r gwaith o hyrwyddo a dosbarthu'r ISA Gydol Oes i rym ar 6 Ebrill 2017. Rydym yn disgwyl i'r rheolau hyn helpu buddsoddwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, a'u rhoi mewn sefyllfa i sbarduno cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad ar gyfer y cynnyrch newydd hwn.

Talu iawndal

Yswiriant gwarchod taliadau (PPI)

Cwmnïau'n cam-werthu PPI oedd y brif broblem o ran cam-werthu ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae wedi niweidio ymddiriedaeth y cyhoedd mewn sefydliadau ariannol. Erbyn hyn, mae cwmnïau wedi talu mwy na £26.9bn mewn iawndal i ddefnyddwyr yr effeithiwyd arnynt. Yn ôl ein hymchwil ni fodd bynnag, nid yw amserlen sy'n ymddangos yn benagored ar gyfer cwyno yn annog defnyddwyr i ystyried a ydynt am weithredu ai peidio.

Ar ôl ymgynghori, ym mis Mawrth 2017 fe gyhoeddodd ni ddyddiad cau o 29 Awst 2019 ar gyfer cwynion PPI, wedi'i ategu gan ymgyrch cyfathrebu â defnyddwyr dan arweiniad yr FCA i annog defnyddwyr i benderfynu a ydynt am weithredu ai peidio. Rydym hefyd wedi llunio rheolau a chanllawiau ynghylch sut dylai cwmnïau ddelio â chwynion PPI, yng ngoleuni dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos *Plevin v Paragon Personal Finance Limited*. Yn yr achos hwnnw, dyfarnodd y llys fod methiant y cwmni i roi gwybod i'r cwsmer am y comisiwn sylweddol a oedd yn daladwy o'i bremiwm PPI yn golygu bod y berthynas yn annheg, a hynny o dan adran 140A y Ddeddf Credyd Defnyddwyr. Dylai ein pecyn ddod â'r broblem PPI i ben yn drefnus, a rhoi pendantrwydd a sicrwydd i ddefnyddwyr a chwmnïau.

Mae cais am adolygiad barnwrol o'n penderfyniad i gyflwyno dyddiad cau PPI, a'n rheolau a'n canllawiau ynghylch delio â chwynion PPI yng ngoleuni dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos *Plevin*, wedi cael ei wneud. Byddwn yn amddiffyn y cais hwnnw.

Hwyluso iawndal teg

Yn bennaf oll, cyfrifoldeb cwmni yw trin cwsmeriaid yn deg a thalu iawndal priodol pan aiff pethau o chwith. Pan fydd hyn yn digwydd, gallwn weithio gyda chwmnïau i'w helpu nhw i sefydlu cynlluniau iawndal gwirfoddol.

Ym mis Tachwedd 2016, fe wnaeth Motormile Finance UK Limited, cwmni prynu a chasglu dyledion, ymrwymo i gytundeb gyda ni i ddarparu iawndal i dros hanner miliwn o gwsmeriaid, y dilyn methiannau diwydrwydd dyladwy

a arweiniodd at gontractau annheg i gwsmeriaid. Cytunodd hefyd i ddileu gwerth £414m o ddyledion nad oedd yn gallu dangos eu bod yn gywir a'u bod yn ddyledus mewn gwirionedd. Tynnwyd ein sylw at yr achos hwn yn gyntaf gan nifer uchel y cwynion gan gwsmeriaid i'n Canolfan Gyswilt. Yn yr achos hwn, yn yr un modd â sawl un arall, yn sgil ein hadolygiad canlynol fe newidiodd y cwmni ei brosesau, ei systemau a'i reolyddion er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd gennym.

Yn yr un modd, ym mis Ionawr 2017 fe gytunodd HSBC yn wirfoddol i sefydlu cynllun iawndal i gwsmeriaid a oedd wedi talu ffioedd casglu dyled afresymol y codwyd arnynt gan HFC Bank Ltd a John Lewis Financial Services Ltd, dau gwmni sydd bellach yn rhan o HSBC Bank Ltd. Nododd ein hadolygiad o'r honiadau cychwynol o ffioedd afresymol y gallai tua 6,700 o gwsmeriaid fod â hawl i iawndal.

Trin cwsmeriaid busnes yn annheg

Yn 2014, gwnaethom benodi 'unigolyn medrus' i adolygu triniaeth y Royal Bank of Scotland (RBS) o gwsmeriaid busnesau bach a chanolig a oedd wedi cael eu trosglwyddo i'w Grŵp Ailstrwythuro Byd-eang (GRG) rhwng 2008 a 2013. Roedd adroddiad yr unigolyn medrus yn ystyried triniaeth cwsmeriaid busnesau bach a oedd mewn trafferthion ariannol, ac yn mynd i'r afael â'r honiadau o arferion gwael o ran sut roedd cwmnïau'n cael eu trin gan RBS GRG, fel y nodwyd yn adroddiad Dr Lawrence Tomlinson ac y cyfeiriwyd ato yn adroddiad Sir Andrew Large.

Cyhoeddodd ni grynodeb o ganfyddiadau adroddiad yr unigolyn medrus ym mis Tachwedd. Ar y cyfan, nid yw'r gweithgareddau benthyg masnachol sy'n cael eu gwneud gan y GRG ac y mae cynigion RBS yn mynd i'r afael â nhw yn cael eu rheoleiddio; felly mae ein pwerau'n gyfyngedig yn y maes hwn. Rydym wedi ystyried adroddiad yr unigolyn medrus yn ofalus, ynghyd â deunydd ychwanegol arall, ac wedi gwneud rhagor o waith.

Mae RBS wedi sefydlu proses adolygu cwynion a ddylai roi llwybr ar gyfer gwneud cwyn i rai cwsmeriaid

busnesau bach a chanolig, pe baent yn dymuno gwneud hynny. Ar ben hynny, mae RBS wedi cytuno i ddarparu ad-daliadau awtomatig ar gyfer ffioedd cymhleth i rai cwsmeriaid busnesau bach a chanolig. Yn arbennig, rydym wedi nodi a chrosawu cyfraniad trydydd parti annibynnol i oruchwyllo'r broses adolygu cwynion.

Gorfodi

Byddwn yn cymryd y camau gweithredu angenrheidiol i orfodi mesurau diogelu defnyddwyr, gan gynnwys yng nghyswilt busnesau buddsoddi heb eu hawdurdodi, megis cynlluniau buddsoddi ar y cyd, twyll buddsoddi ac yswiriant, cymryd arian cadw, a chanolfannau galwadau amheus a elwir yn 'boiler rooms'.

Mae gennym dîm pwrpasol sy'n adolygu pob adroddiad o weithgarwch heb ei awdurdodi yn erbyn cyfres o fesurau er mwyn adnabod y materion mwyaf difrifol sy'n peri'r risg fwyaf i ddefnyddwyr. Pan fyddwn yn penderfynu bod angen cymryd camau gweithredu, rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau ymchwilio i roi'r gorau i'r gweithgarwch ac atal rhagor o niwed i ddefnyddwyr. Mae'r adnoddau hyn yn amrywio o gyhoeddi rhybuddion am gwmnïau ac unigolion heb eu hawdurdodi, amharu ar gwmnïau mewn amrywiaeth o ffyrdd, tynnu gwefannau oddi ar y we a chymryd camau troseddol neu sifil yn erbyn cwmnïau ac unigolion. Cyhoeddodd ni gyfanswm o 285 o rybuddion i ddefnyddwyr yn 2016/17, a chymryd un cam troseddol ac un cam sifil, ill dau yn ymwneud ag ymchwiliadau ar raddfa fawr i weithgarwch heb ei awdurdodi.

Codi ymwybyddiaeth

Helpu cwmnïau i baratoi ar gyfer effaith cynnydd mewn cyfraddau llog ar gwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol

Rydym wedi cyhoeddi canlyniadau ein hadolygiad thematig o strategaethau benthygwyr morgeisi i liniaru effaith cynnydd mewn cyfraddau llog ar gwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o gwmnïau wedi ystyried pa nodweddion a allai wneud cwsmer yn fwy agored i niwed yn sgil cynnydd mewn cyfraddau llog, ac wedi dadansoddi nifer y cwsmeriaid y gallai hynny effeithio arnynt.

Fodd bynnag, roedd cwmnïau ar wahanol gamau o ddatblygu strategaethau i drin cwsmeriaid yn deg pan fydd cyfraddau llog yn cynyddu; nifer isel o gwmnïau fyddai'n gallu rhoi strategaethau ar waith pe bai hynny'n digwydd yn y dyfodol agos.

Dechreuodd yr adolygiad hwn yn gynnar yn 2016, ar adeg lle roedd disgwyl cyffredinol am gynnydd mewn cyfraddau llog. Ers hynny, mae cyfraddau llog wedi disgyn ac rydym yn cydnabod efallai na fyddai hyn yn ymddangos fel blaenoriaeth uchel. Serch hynny, fe wnaethon ni benderfynu rhannu canlyniadau ein hadolygiad i helpu cwmnïau a chwsmeriaid baratoi ar gyfer unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog.

Adnewyddu yswiriant cyffredinol

Roedd gan yr FCA, grwpiau defnyddwyr a rhai o gynrychiolwyr y diwydiant bryderon a oedd yn bod ers tro ynglŷn â'r diffyg cystadleuaeth a'r lefelau isel o gwsmeriaid yn newid darparwr ym maes yswiriant cyffredinol.

Yn 2014, gwnaethom redeg hap-dreial ar raddfa fawr gyda mwy na 300,000 o gwsmeriaid yswiriant cartref a modur i weld beth oedd yn eu sbarduno i wneud dewisiadau mwy gweithredol wrth adnewyddu. Yn sgil hynny fe gyflwynon ni reolau a chanllawiau newydd ar gyfer adnewyddu yswiriant cyffredinol. Mae ein rheolau newydd yn mynnu bod cwmnïau yswiriant cyffredinol yn:

- datgelu premiwm y flwyddyn flaenorol yn ystod pob adnewyddiad
- cynnwys testun sy'n annog defnyddwyr i wirio'u cytundeb yswiriant ac i siopa o gwmpas am y fargen orau yn ystod pob adnewyddiad
- nodi'r defnyddwyr sydd wedi adnewyddu gyda nhw bedair gwaith yn olynol, a rhoi neges safonol ychwanegol iddynt yn eu hannog i siopa o gwmpas

Ym mis Medi 2016, roedd

£188.7bn

o gredyd yn ddyledus
gan ddefnyddwyr yn y
DU

Nod y gofynion hyn, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2017, yw gwella'r lefelau o ymgysylltu â defnyddwyr yn ystod y broses adnewyddu yswiriant, a gwella'r ffordd mae cwmnïau'n trin defnyddwyr presennol wrth iddynt adnewyddu. Bydd y rheolau newydd hyn yn gwneud cynnydd mewn prisiau wrth adnewyddu yn fwy clir, ac rydym yn disgwyl i hyn arwain at nifer uwch o ddefnyddwyr yn siopa o gwmpas i gael bargen well.

Gwella sut mae cwmnïau'n delio â chwsmeriaid sydd ag ôl-ddyledion cynnar

Ym mis Medi 2016, roedd £188.7 biliwn o gredyd yn ddyledus gan ddefnyddwyr yn y DU. Mae gan 6.1% o unigolion yn y DU o leiaf un cynnyrch credyd defnyddwyr, ac mae gan 26% o'r rheini ddyled heb ei thalu ar y cynnyrch hwnnw.

Cyhoeddodd ni ganlyniadau ein hadolygiad thematig o sut mae cwmnïau'n trin cwsmeriaid sydd ag ôl-ddyledion cynnar ar gyfer benthycy anwarantedig, yn cynnwys cardiau credyd, benthyciadau personol a chyllid pwynt gwerthu.

Gwelsom nad oedd pob cwsmer a oedd yn talu'n hwyr yn cael trafferth ad-dalu. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o gwmnïau'n methu cyfleoedd cynnar i nodi'r rheini a oedd yn dangos arwyddion o drafferthion ariannol, ac i gynnig cymorth priodol.

Roedd y dewisiadau ad-dalu ar gael i gwsmeriaid gan gwmnïau yn amrywio'n eithaf sylweddol. Roedd diwylliant cwmni yn amlwg yn dylanwadu ar eu hagwedd at gwsmeriaid mewn trafferthion ag ôl-ddyledion, a sut roeddent yn eu trin.

Rydym wedi rhoi adborth penodol i bob cwmni ynghylch yr arferion da a drwg y daethom o hyd iddynt. Mae'n bosibl y byddwn yn cymryd rhagor o gamau rheoleiddiol, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y materion ac ymateb y cwmnïau i'n canfyddiadau.

Rydym yn disgwyl i bob cwmni sy'n rhan o'r broses casglu dyledion credyd defnyddwyr ystyried eu dull o ran ôl-ddyledion yng ngoleuni ein canfyddiadau.

Gorddrafftiau a chredydau cost uchel

Ers ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio credyd defnyddwyr ym mis Ebrill 2014, rydym wedi canolbwyntio ar y cynnyrch sy'n peri'r risg fwyaf i ddiogelwch defnyddwyr yn ein barn ni. Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd ni gais am fewnbwn i gael tystiolaeth a safbwyntiau ar gyfer ein gwaith ar gredyd cost uchel, gan gynnwys adolygiad o'r cap ar brisiau benthyciadau diwrnod cyflog a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2015.

Roedd y cais am fewnbwn yn cynnwys y canlynol:

- cynnyrch credyd cost uchel, gan gynnwys credyd a gesglir gartref, rhai elfennau o rentu i brynu, credyd catalog, agweddau ar y maes gwystlo, benthyciadau gwarantwyr a benthyciadau llyfr llog.
- gorddrafftiau
- y cap ar brisiau credyd tymor byr cost uchel (benthyciadau diwrnod cyflog)
- benthycy credyd tymor byr cost uchel sawl tro neu gan sawl darparwr

Ein bwriad yw adrodd ar ganlyniadau ein cais am fewnbwn yn ystod haf 2017.

Yn unol â'n dull o ran credyd cost uchel, rydym hefyd yn edrych ar yr effaith ar ddefnyddwyr pan fydd cwmnïau rheoli dyledion yn dirwyn i ben. Rydym yn mynd ati i gysylltu â'r rheini y mae hyn yn effeithio arnynt, a'u cyfeirio at ffynonellau cyngor dyledion am ddim.

Cyfrifon banc mewn pecyn

Yn dilyn y rheolau newydd a gyflwynwyd gennym ynghylch cyfrifon banc mewn pecyn yn 2013, cynhalion ni adolygiad thematig er mwyn gweld a oeddent wedi bod yn gweithio'n effeithiol.

Cyhoeddodd ni ein canfyddiadau ym mis Hydref 2016. Er bod ein canfyddiadau'n awgrymu bod y rheolau wedi codi safonau, maent hefyd yn dangos bod gan gwmnïau fwy i'w wneud i sicrhau eu bod yn gwirio cymhwysedd cwsmeriaid am yr yswiriannau mewn cyfrifon banc mewn pecyn yn gyson. Gwelsom hefyd fod angen i gwmnïau wella sut maent yn delio â chwynion ynghylch cyfrifon banc mewn pecyn. Rydym wedi rhoi adborth penodol i bob cwmni a oedd yn rhan o'n hadolygiad, sy'n cynnwys y camau

rydym yn disgwyl iddynt eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd gennym.

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, rydym wedi adolygu sampl ychwanegol o gwynion mwy diweddar ynghylch cyfrifon banc mewn pecynnau, er mwyn profi i ba raddau y mae cwmnïau wedi codi eu safonau ers ein hadolygiad cyntaf. Bydd adborth unigol yn cael ei roi i bob cwmni sydd yn y sampl.

Diogelu defnyddwyr drwy gryfhau system ariannol y DU

Un o'r nifer o ddiwygiadau pwysig a gyflwynwyd gan y Llywodraeth er mwyn cryfhau'r system ariannol yn dilyn yr argyfwng ariannol a ddechreuodd yn 2007 oedd clustnodi.

Mae rheolau clustnodi yn mynnu bod banciau'r DU sydd â dros £25 biliwn o 'adneuon craidd' ar gyfartaledd dros dair blynedd yn 'clustnodi' neu wahanu'n gyfreithiol eu gwasanaethau bancio hanfodol ym maes adwerthu oddi wrth weddill y grŵp bancio. Gwasanaethau hanfodol yw'r gwasanaethau craidd y mae banciau'n eu cynnig: derbyn adneuon, cyfleusterau tynnu arian neu wneud taliadau o gyfrif, a chyfleusterau gorddrafft.

Gan weithio gyda'r prif reoleiddiwr ar gyfer clustnodi, yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus, ein rôl ni yw monitro a rheoli effeithiau negyddol posibl ar ddefnyddwyr, uniondeb y farchnad a chystadleuaeth. Yn ystod 2016/17, buom yn gweithio gyda chwmnïau i fireinio a llunio'u cynlluniau terfynol ar gyfer clustnodi, gan fod yn rhaid eu rhoi ar waith erbyn 1 Ionawr 2019.

Contractau Gwahaniaeth

Offerynnau ariannol cymhleth, deilliannol wedi'u benthylu yw Contractau Gwahaniaeth Adwerthu, sy'n cael eu cynnig yn gyffredinol i gleientiaid adwerthu drwy lwyfannau masnachu ar-lein gan gwmnïau buddsoddi.

Dros y chwe blynedd diwethaf, mae ein gwaith goruchwylio a'n hadolygiadau thematig o gwmnïau Contractau Gwahaniaeth Adwerthu wedi dangos bod ymddygiad gwael a risg o niwed

i ddefnyddwyr yn cynyddu ar draws y sector. Yn ôl ein dadansoddiad o sampl gynrychioladol o gyfrifon cleientiaid Contractau Gwahaniaeth Adwerthu, mae mwy a mwy o'r cynhyrchion hyn yn cael eu gwerthu i gleientiaid adwerthu, ac roedd 82% o gleientiaid wedi colli arian ar y cynhyrchion hyn. O ganlyniad, cyhoeddod ni bapur ymgynghori yn 2016 a oedd yn cynnig pecyn o fesurau polisi i fynd i'r afael â'r risgiau hyn.

Ochr yn ochr â hynny, rydym wedi parhau â'n dull goruchwylio gan edrych ar y risgiau mae'r cynhyrchion hyn yn eu peri i ddefnyddwyr. Mae ein ffocws wedi cynnwys y risgiau i gwsmeriaid adwerthu sy'n masnachu Contractau Gwahaniaeth Adwerthu ar sail ddi-gyngor, lle efallai nad yw cwmnïau wedi gwella'r profion addaswydd y mae'n rhaid iddynt eu defnyddio cyn derbyn cleientiaid newydd, a'r risgiau a ddaw yn sgil masnachu Contractau Gwahaniaeth Adwerthu drwy gyfryngwr ar sail ymgynghorol neu ddewisol ar ran cwsmer. Mae rheoleiddwyr cenedlaethol eraill wedi bod yn edrych ar y cynhyrchion hyn hefyd.



Mae rheolau clustnodi yn mynnu bod banciau'r DU sydd â dros £25 biliwn o 'adneuon craidd' ar gyfartaledd dros dair blynedd yn 'clustnodi' eu gwasanaethau bancio hanfodol ym maes adwerthu oddi wrth weddill y grŵp bancio.



Ymrwymiadau ein Cynllun Busnes – Pensiynau

Gwelwyd newidiadau mawr mewn deddfwriaeth a pholisiau pensiynau yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, felly roedd hyn yn flaenoriaeth i ni yn ystod 2016/17. Mae newidiadau diweddar i'r sector pensiynau wedi cynnwys cyflwyno trefniadau cofrestru awtomatig ar gyfer pensiynau'r gweithle, a'u rhoi ar waith, a chyflwyno trefniadau rhyddid pensiwn ym mis Ebrill 2015.

Mae mwy a mwy o ddefnyddwyr yn gorfod gwneud penderfyniadau di-droi'n-ôl a fydd yn effeithio ar eu lles ariannol hirdymor. Er bod y farchnad yn newid, mae ein hamcanion ni yn dal yn gyson. Rydym eisiau i ddefnyddwyr gael mynediad at gynnyrch a gwasanaethau teg sy'n gwneud yr hyn maent yn addo ei wneud, a gallu bod yn ffyddiog y bydd cwmnïau'n eu trin yn deg ac yn datrys problemau ar unwaith. Rydym hefyd yn awyddus i hybu cystadleuaeth ar draws y sector.

Mae'r gwaith o reoleiddio cynlluniau pensiwn yn cael ei rannu rhwng yr FCA a'r Rheolydd Pensiynau. Yr FCA sy'n gyfrifol am ymddygiad cwmnïau sy'n darparu pensiynau sy'n seiliedig ar gontractau, gan gynnwys pensiynau cyfranddeiliaid, pensiynau personol unigol a phensiynau personol yn y gweithle, fel pensiynau personol grŵp. Rydym hefyd yn rheoleiddio cyngor ar bensiynau a roddir i unigolion.

Newidiadau i reolau pensiwn

Ym mis Ionawr 2016, penderfynodd y Trysorlys fod ffioedd gadael yn gynnar ar rai polisiau pensiwn yn creu rhwystr i'r rheini sydd dros 55 oed sy'n defnyddio'r trefniadau rhyddid pensiwn newydd. Rhoddodd y Senedd rym a dyletswydd i ni roi cap ar ffioedd gadael yn gynnar er mwyn lleihau'r risg. Ym mis Tachwedd 2016, cwblhawyd y rheolau'n derfynol, ac roedd hyn yn golygu:

- bod ffioedd gadael yn gynnar yn cael eu capio ar 1% o werth pensiynau personol seiliedig ar gontractau aelodau, gan gynnwys pensiynau personol yn y gweithle a gychwynwyd cyn 31 Mawrth 2017.
- nad oes modd codi ffioedd gadael yn gynnar i 1% os ydynt yn llai na hyn ar hyn o bryd
- nad oes modd i gwmnïau godi ffioedd gadael yn gynnar at gontractau pensiynau personol a gychwynwyd ar 31 Mawrth 2017 neu ar ôl hynny.

Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth na fydd yn bwrw ymlaen â chynlluniau i adael i bobl werthu eu hincwm blwydd-dal heb gyfyngiadau treth cyfredol. Yn sgil hyn, daethom â'n hymgyngoriad ar reolau ar gyfer marchnad flwydd-dal eilaidd i ben.

Cynyddu cystadleuaeth ac arloesedd

Eleni, lanswyd ein Hadolygiad o Ganlyniadau Ymdeol er mwyn asesu effaith diwygio pensiynau ar gystadleuaeth yn y farchnad incwm ar ôl ymdeol.

Mae'r adolygiad yn edrych ar ymateb defnyddwyr i'r ystod ehangach o gynnyrch ac opsiynau sydd ar gael iddynt erbyn hyn, a beth sy'n effeithio ar eu dewisiadau. Yn ogystal â hyn, rydym yn edrych ar sut mae cwmnïau wedi addasu i ddiwygiadau ym maes pensiwn, pa gynnyrch a modelau busnes sy'n ymddangos, a beth yw'r effaith ar gystadleuaeth yn y farchnad hon. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad interim yn ystod haf 2017, gan nodi ein canfyddiadau a gwahodd safbwyntiau ar ymyriadau posib.

Cynnyrch a gwasanaethau sy'n cynnig gwell gwerth am arian i ddefnyddwyr

Drwy gydol 2016/17, rydym wedi bod yn defnyddio hap-dreialon wedi'u rheoli er mwyn profi pa mor effeithiol yw'r amrywiol becynnau gwybodaeth y bydd cwmnïau'n eu hanfon at bobl ychydig fisoedd cyn eu dyddiad ymdeol. Bydd darparwyr pensiynau'n anfon y pecynnau hyn at gwsmeriaid sy'n agosáu at oed ymdeol er mwyn eu hannog i ystyried eu hopsiynau o ran pensiwn a gweithredu arnynt.

I helpu i annog defnyddwyr i siopa o gwmpas wrth brynu blwydd-dal, rydym wedi ymgynghori ynghylch ei gwneud yn ofynnol bod darparwyr blwydd-daliadau yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr. Bydd y wybodaeth hon yn dangos y gwahaniaeth rhwng dyfynbris blwydd-dal y darparwyr a'r dyfynbris uchaf sydd ar gael ar y farchnad. Seiliwyd hyn ar broffion ymddygiad, a oedd yn dangos bod anfon y wybodaeth hon at ddefnyddwyr yn eu hannog i siopa o gwmpas ac i newid darparwr os oes cynnig gwell ar gael.

Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r FCA adolygiad ar y cyd o gynnydd y diwydiant wrth unioni cynlluniau pensiwn yn y gweithle sydd ddim yn cynnig gwerth da iawn. Yn gyffredinol, canfu fod darparwyr pensiynau wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth roi argymhellion y Bwrdd Prosiect Annibynnol ar waith.

Yn sgil hyn, mae ffioedd dros filiwn o gwsmeriaid pensiynau gweithle wedi gostwng i 1% neu lai, neu bydd hynny'n digwydd yn y dyfodol agos. Rydym yn dal i ddilyn trywydd y nifer fechan o ddarparwyr nad oedd wedi gwneud digon eto i fodloni argymhellion y Bwrdd pan oedd yr asesiad yn cael ei gynnal.

Roedd yr adolygiad yn cefnogi effeithiolrwydd pwyllgorau llywodraethu annibynnol yn gyffredinol o ran gweithredu argymhellion y Bwrdd. O'r herwydd, rydym wedi penderfynu gohirio adolygiad llawn y Bwrdd am y tro er mwyn gallu canolbwyntio ar flaenoriaethau eraill Cynllun Busnes 2017/18.

Arweiniad ar bensiynau – gwybodaeth

Yn ôl ein rheolau ni, dylai cwmnïau sy'n cyfathrebu â chwsmeriaid sy'n ymddeol ynglŷn â'u hopsiynau (cwsmeriaid di-gyngor) ddweud wrthynt am y gwasanaeth sy'n rhoi arweiniad ar bensiynau, Pension Wise. Ym mis Gorffennaf 2016, fe wnaethom gwblhau ein hadolygiad i weld i ba raddau mae cwmnïau'n cydymffurfio â'r rheolau hyn. Canfuom fod y rhan fwyaf o'r 20 o ddarparwyr pensiynau yn ein sampl, ar y cyfan, yn ateb y gofynion o ran cyfeirio cwsmeriaid at arweiniad ynglŷn â phensiynau.

Fodd bynnag, roedd lle i wella mewn nifer o feysydd. Rydym wedi annog pob cwmni sydd â phrosesau gwerthu 'di-gyngor' perthnasol i edrych ar y camau y dylent eu cymryd ar sail canfyddiadau ein hadolygiad.

O dan adran 3300 o'r Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol, mae'n rhaid i ni gyflawni ein swyddogaethau cyffredinol o safbwynt rhoi arweiniad ar bensiynau, gyda'r bwriad o sicrhau lefel briodol o ddiogelwch i'r rheini sy'n cael arweiniad ar bensiynau gan ddarparwyr penodol. Yn sgil hyn, rydym wedi gwneud mân newidiadau i safonau darparwyr arweiniad ar ymddeoliadau i adlewyrchu sut mae gwasanaeth Pension Wise wedi newid (h.y. i adlewyrchu'r newid yn y gwaith o oruchwylio'r gwasanaeth, o'r Trysorlys i'r Adran Gwaith a Phensiynau) a sut mae defnyddwyr sy'n dymuno cael mynediad at eu harian pensiwn yn ei ddefnyddio (h.y. newid y geiriad fel bod sesiwn Pension Wise yn gallu cynnwys mwy nag un apwyntiad, ac mai dim ond gwybodaeth 'berthnasol' ddylai gael ei chynnwys yng nghofnod y sesiwn honno).

Gwybodaeth am flwydd-daliadau i gwsmeriaid di-gyngor

Rydym wedi cynnal adolygiad thematig o arferion gwerthu blwydd-daliadau di-gyngor. Ar sail ein sampl, ni welsom unrhyw dystiolaeth o fethiant systemig na methiant yn y diwydiant drwyddo draw i roi digon o wybodaeth i gwsmeriaid am flwydd-daliadau ychwanegol a oedd wedi arwain at golled.

Fodd bynnag, roedd dystiolaeth nad oedd nifer fechan o gwmnïau wedi rhoi digon o wybodaeth i'w cwsmeriaid o bosibl iddynt allu deall eu hopsiynau, y manteision o brynu blwydd-dal ychwanegol a'u hawl i brynu un ar y farchnad agored. Rydym wedi gofyn i'r cwmnïau hyn gyflawni adolygiad busnes blaenorol o'r holl werthiannau di-gyngor perthnasol rhwng mis Gorffennaf 2008 a'r presennol.

Sgamiau a lleihau niwed i ddefnyddwyr

Byddwn yn cyflawni amrywiol weithgareddau cydgyssylltiedig i ddelio â sgamiau sy'n ymwneud â phensiynau. Mae timau arbenigol wedi cael eu sefydlu i fonitro, i fesur ac i fynd i'r afael ag achosion o gam-werthu pensiynau a thwyll sy'n ymwneud â'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, a'r cwmnïau hynny sydd ddim yn cael eu rheoleiddio sy'n cyflwyno busnes iddynt.

Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau i sicrhau eu bod yn cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu cwsmeriaid, ac yn cydweithio ag asiantaethau eraill i fynd i'r afael â sgamiau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi rhoi rhybuddion i'r diwydiant yn rhoi gwybod iddynt am beryglon gweithio gyda chwmnïau cyflwyno sydd ddim yn cael eu rheoleiddio. Rydym wedi nodi ein disgwyliadau ar gyfer cwmnïau sy'n rhoi cyngor ar drosglwyddo pensiynau, a gweithredwyr pensiynau personol hunan-fuddsoddi (SIPP) yn eu rhybuddio am risg sgamiau pensiwn sy'n datblygu.

Rydym wedi dal ati gyda'n hymgyrch ScamSmart dros y flwyddyn a fu. Ceir rhagor o fanylion am yr ymgyrch hon ym mhennod 4 o dan 'Troseddau ariannol ac atal gwynгалchu arian'.

Mesurau llwyddiant yn erbyn Cynllun Busnes 2016/17

Gwelodd Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol duedd am i fyny yn nifer y cwynion a dderbyniodd ynghylch pensiynau personol rhwng 2009/10 a 2016/17 (38% o gynnydd). Bu cynnydd o 20% mewn cwynion am bensiynau personol yn 2016/17, o'i gymharu â 2015/16, gyda chyfanswm o 2,377.

Rydym yn cydnabod nad yw data cwynion yn ddangosydd perffaith ar gyfer perfformiad y marchnadoedd ariannol, ond maent yn ein helpu i asesu hyd a lled problemau yn y diwydiant ac i weld tueddiadau sy'n ymddangos.

Yn ôl ein harolwg Bywyd Ariannol, mae 41% o oedolion y DU sydd â phensiwn cyfraniad diffiniedig yn eithaf bodlon neu'n gwbl fodlon â'u daprarwr pensiynau, neu â'u darparwr pensiynau diweddaraf os oes ganddynt fwy nag un pensiwn cyfraniad diffiniedig. Roedd cyfran debyg (43%) o ddefnyddwyr hefyd yn ymddiried eu darparwr presennol yn weddol neu'n ymddiried ynddo'n llwyr. Roedd y lefelau boddhad ac ymddiriedaeth ar eu huchaf ymhlith defnyddwyr 45 oed a hŷn.

Ymrwymiadau ein Cynllun Busnes – Cyngor

Mae anghenion defnyddwyr sy'n newid o hyd, a diwygiadau pensiwn, yn golygu ei bod yn rhaid i ddefnyddwyr ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros eu dyfodol ariannol. Mae eu dewisiadau'n fwy cymhleth ac amrywiol hefyd – sy'n golygu bod gwasanaethau sy'n rhoi cyngor ac arweiniad proffesiynol a fforddiadwy yn fwyfwy pwysig. Felly mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar sicrhau bod marchnad sy'n gweithio'n dda ar gyfer rhoi cyngor ac arweiniad i ddefnyddwyr, gyda chostau clir a thryloyw.

Cyngor addas, fforddiadwy a hwylus

Lansiodd y Trysorlys a'r FCA yr Adolygiad o'r Farchnad Cyngori Ariannol yn 2015 i roi sylw i bryderon nad oedd y farchnad cyngori ariannol yn y DU yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr.

Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar hybu marchnad sy'n cynnig cyngor ac arweiniad ariannol fforddiadwy a hwylus i bob defnyddiwr ar bob cam mewn bywyd. Rydym wedi gweithio gyda chwmnïau a chyfrif masnach i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o'u cefnogi, o wella'r farchnad gyngori ac o sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio yn gliriach. Rydym wedi:

- cyhoeddi gwybodaeth i helpu cwmnïau i ddeall sut mae defnyddio'r hyblygrwydd presennol yn ein rheolau sy'n ymdrin â'r ffioedd a godir gan ymgynghorwyr
- newid ein rheolau ar gyfer ffioedd a godir gan ymgynghorwyr mewn cwmnïau lle mae'r gwasanaethau perthnasol i gyd yn cael eu darparu'n fewnl
- ymgynghori ar ganllaw i roi sylw i bedwar o argymhellion yr Adolygiad o'r Farchnad Cyngori Ariannol – cyngor syml, gwybodaeth chwilio am ffeithiau, y 'perimedr' cyngor rheoledig (gweithgareddau lle mae pwerau a rheoliadau'r FCA yn berthnasol) a'r daflen ffeithiau ar gyfer cyflogwyr ac ymddiriedolwyr.

Mae mwy o wybodaeth am roi argymhellion yr Adolygiad o'r Farchnad Cyngori Ariannol ar waith ar gael yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym ni a'r Trysorlys ar 6 Ebrill 2017.

Yr adolygiad asesu addasrwydd

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi asesu 1,142 o ddarnau unigol o gyngor gan 656 o gwmnïau ochr yn ochr â'n gofynion addasrwydd a datgelu. Anfonwyd llythyrau adborth i bob cwmni yn yr adolygiad gyda'n canfyddiadau o'u ffeiliau penodol nhw. Roedd y canfyddiadau'n dangos bod y cwmnïau hyn wedi rhoi cyngor addas mewn 93% o achosion. Mae'r rhain yn ganlyniadau cadarnhaol. Credwn eu bod yn deillio o'r ffaith bod ymgynghorwyr wedi mabwysiadu'r Adolygiad Dosbarthu Adwerthol a'i fod wedi cael ei atgyfnerthu gan ein gweithgareddau gorchwylio a gorfodi blaenorol.

Cefnogaeth i helpu cwmnïau i roi cyngor priodol

Y flwyddyn hon, aethom ati i sefydlu Uned Gyngori i roi adborth i gwmnïau sy'n datblygu modelau awtomataidd i gynnig cyngor ar gost is i ddefnyddwyr. Derbyniwyd 18 o gwmnïau i'r Uned, ac rydym yn rhoi adborth rheoleiddiol unigol ar eu modelau busnes. Rydym yn bwriadu defnyddio profiad cwmnïau unigol i gyhoeddi adnoddau i helpu pob cwmni sy'n datblygu modelau awtomataidd.

Fe wnaethom gefnogi'r Gweithgor Cyngori Ariannol i roi cymorth technegol ynglŷn â rhoi argymhellion yr Adolygiad o'r Farchnad Cyngori Ariannol ar waith. Mae'r Gweithgor yn cynnwys detholiad o arbenigwyr ar ddefnyddwyr a'r diwydiant o Banel Cyngori Arbenigol yr Adolygiad o'r Farchnad Cyngori Ariannol, Panel Defnyddwyr y Gwasanaethau Ariannol, Panel Ymarferwyr Busnesau Llai yr FCA a Phanel Ymarferwyr yr FCA. Un o nodau'r grŵp yw helpu cyflogwyr i helpu eu staff i ofalu am eu hiechyd ariannol a gwella'r 'rheolau cyffredinol' a'r camau bach i sicrhau bod defnyddwyr yn deall eu dewisiadau ariannol yn well.

Mesurau llwyddiant yn erbyn Cynllun Busnes 2016/17


Fel rhan o Arolwg Bywyd Ariannol 2017, arolygwyd oedolion yn y DU a oedd wedi cael cyngor ariannol rheoledig yn y 12 mis diwethaf ynghylch buddsoddiadau, cynilion pensiwn a/neu gynllunio ar gyfer ymddeol. Yn ôl y rhan fwyaf o oedolion (85%) a oedd wedi cael cyngor yn ystod y 12 mis diwethaf, roeddent yn eithaf bodlon neu'n gwbl fodlon â'r ymgynghorydd (sgôr o 7 neu fwy allan o 10) yn eu sesiwn gyngori ddiweddaraf. Byddwn yn parhau i fonitro bodddhad defnyddwyr.

Mae adroddiad sylfaenol yr Adolygiad o'r Farchnad Cyngori Ariannol, a luniwyd gyda'r Trysorlys, yn nodi ystod eang o ddangosyddion a fydd yn cael eu defnyddio fel meincnod ar gyfer mesur newidiadau yn y farchnad ar gyfer cyngor ac effaith argymhellion yr Adolygiad.

Cwynion am gyngor

Mae cyfran y cwynion sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddwyr i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol ynglŷn â chyngor yn dal i ostwng (ffigur 3.1). Er bod llawer o ffactorau'n effeithio ar nifer y cwynion, mae'n galonogol bod cyfanswm y cwynion ynglŷn â chyngor wedi gostwng. Rydym yn dal i weithio i wella safon y cyngor a roddir i ddefnyddwyr.

Ffigur 3.1: Cwynion i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol am werthu a chynghori



Ymrwymadau ein Cynllun Busnes – Y ffordd y mae cwsmeriaid presennol yn cael eu trin

Dros y flwyddyn a fu, mae ein gwaith i sicrhau gwell canlyniadau i gwsmeriaid presennol wedi canolbwyntio ar y wybodaeth y bydd cwmnïau'n ei rhoi i'w cwsmeriaid wrth adnewyddu a gwella tryloywder prisiau. Rydym am wneud yn siŵr hefyd bod mwy o ddewis a mwy o gynnyrch ar gael, a bod y rhwystrau sy'n atal defnyddwyr rhag newid cynnyrch neu symud oddi wrth gynnyrch yn cael eu dileu.

Gwneud y broses brisio'n fwy tryloyw

Canfu ein hastudiaeth o'r farchnad cynilion fod cyfrifon cynilo a agorwyd flynyddoedd yn ôl yn talu llai o log na'r rheini a agorwyd yn fwy diweddar. Er hyn, nid yw nifer sylweddol o ddefnyddwyr yn symud eu harian i gyfrifon a allai dal mwy o log – hyd yn oed gyda'r un darparwr. Yn sgil y canfyddiadau hyn, rydym wedi rhoi rheolau ar waith:

- sy'n mynnu bod darparwyr yn rhoi gwybodaeth gliriach a mwy penodol am y cynnyrch i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr siopa o gwmpas
- sy'n gwneud y broses newid yn gyflymach drwy ei gwneud yn haws newid i gynnyrch arall yn yr un cwmni

Rydym wedi cynnig atebion mewn pedwar prif faes ac wedi treialu'r cynllun taflu goleuni – 'sunlight remedy'. Aethom ati i holi cwmnïau beth oedd y gyfradd isaf bosibl y gallai defnyddwyr ei chael ym mhob un o'u cyfrifon cynilo ac ISA mynediad hwylus. Yna cyhoeddasom y wybodaeth hon i godi ymwybyddiaeth o strategaethau cwmnïau tuag at gwsmeriaid a oedd wedi bod gyda nhw ers tro, ac i alluogi pobl i gymharu cyfrifon agored a chyfrifon caeedig.

Hybu dewis a gwella'r hyn sydd ar gael

Cafwyd argymhelliad gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i gynyddu lefelau cystadleuaeth ym maes bancio adwerthu. Yn dilyn yr adroddiad, rydym wedi llunio mesurau i wella'r wybodaeth y mae'r cwmnïau hyn yn ei rhoi am ansawdd gwasanaethau, sut gall defnyddwyr weithredu, a mesurau gorddrafft. Fe wnaethom gyhoeddi ein hymateb i adroddiad terfynol yr Awdurdod ac rydym wedi dechrau cymryd camau mewn nifer o feysydd:

- **Annog cwsmeriaid i gymryd mwy o ddiddordeb.** Rydym yn ymchwilio i geisio gweld beth sydd fwyaf tebygol o wella gwybodaeth a dealltwriaeth defnyddwyr o ddefnyddio cyfrifon, ar gyfer defnyddwyr unigol ac ar gyfer busnesau bach a chanolig.
- **Gwell tryloywder i'r rheini sy'n defnyddio gorddrafft.** Rydym yn ymchwilio, yn profi ac yn gweithredu mesurau i sicrhau bod defnyddwyr yn deall eu gorddrafft a'r ffioedd maent yn eu talu yn well. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi gwaith ar orddrafftiau a oedd yn mynd y tu hwnt i argymhellion yr Awdurdod (gweler 'Gorddrafftiau a chredydau cost uchel' yn gynharach yn y bennod hon).

- **Hybu arloesedd.** Roedd argymhellion eraill yr Awdurdod yn cynnwys bod yn arsyllwr yn y grŵp llywio sydd wedi cael y dasg o sefydlu'r safon rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau agored ar gyfer bancio. Byddwn yn defnyddio ein rôl yn y grŵp i geisio cael atebion ar gyfer set ehangach o gyfrifon yn hytrach na dim ond cyfrifon cyfredol.

- **Gwella gwasanaethau.** Rydym yn edrych ar y wybodaeth y dylai banciau ei chyhoeddi i alluogi defnyddwyr i asesu gwahaniaeth yn ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Rydym wedi sefydlu grŵp arbenigol i'n cynghori ar wybodaeth ychwanegol a allai helpu defnyddwyr.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod ar y mesurau a'r argymhellion hyn. Rydym hefyd yn ystyried goblygiadau ymddygiad a chystadleuaeth modelau busnes cwmnïau ar gyfer cyfrifon cyfredol a chynnyrch bancio adwerthu eraill.

Fe wnaethom gyhoeddi'r canllaw terfynol sy'n nodi ein disgwyliadau ynghylch beth y dylai cwmnïau yswiriant bywyd ei wneud i sicrhau tegwch i gwsmeriaid sydd â chynlluniau wedi cau i aelodau newydd. Rydym am sicrhau nad yw cwmnïau yn rhoi llai o sylw i'r cwsmeriaid hyn o'u cymharu â chwsmeriaid newydd, a'u bod yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael digon o wybodaeth am y cynnyrch y buddsoddiwyd ynddynt, gan gynnwys perfformiad a ffioedd.

Mae'r canllaw hwn yn golygu y dylai cwmnïau nodi beth mae 'trin cwsmeriaid yn deg' yn ei olygu iddyn nhw a pha ganlyniadau i gwsmeriaid sy'n deg yn eu barn nhw, a hefyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â chanlyniadau gwael, os oes rhai.

Mesurau llwyddiant yn erbyn Cynllun Busnes 2016/17

Dyma ganlyniadau Arolwg Bywyd Ariannol 2017 ar gwsmeriaid sy'n newid cynnyrch ariannol a chynghorwyr:

- Mae 85% o oedolion y DU sydd â chyfrif ar gyfer bancio bob dydd wedi bod yn defnyddio'r un cyfrif am fwy na thair blynedd. O blith y cwsmeriaid hyn, nid oedd 69% erioed wedi newid cyfrif oherwydd:
 - roedd 60% yn dweud eu bod yn fodlon â'u darparwr presennol
 - roedd 21% ddim wedi ystyried newid erioed
 - roedd 19% yn dweud bod newid yn ormod o drafferth
- roedd 32% o oedolion y DU a oedd wedi newid darparwr neu wedi agor cyfrif newydd gyda'u darparwr presennol yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi gwneud hynny oherwydd cymhelliad ariannol, roedd 21% wedi gwneud hynny ar ôl cael argymhelliad gan ffrind neu gydweithiwr, ac roedd 22% wedi gwneud hynny i gael gwell cyfradd llog
- o'r rheini a oedd wedi newid cyfrif (gan gynnwys gyda'r darparwr presennol) neu wedi agor cyfrif am y tro cyntaf, roedd 87% yn dweud bod y broses yn rhwydd

Pennod 4

Diogelu a gwella uniondeb system ariannol y DU

Ein nod yw sicrhau bod gan y DU system ariannol iach a llwyddiannus, lle mae marchnadoedd ariannol yn deg, yn effeithlon ac yn dryloyw, lle mae cwmnïau'n gallu ffynnu, a lle mae defnyddwyr yn ymddiried mewn marchnadoedd agored a thryloyw. Mae angen i farchnadoedd gael seilwaith cadarn a mynediad priodol er mwyn diwallu anghenion eu defnyddwyr, defnyddwyr corfforaethol a defnyddwyr cyfanwerthol eraill.

Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod y rheolau a'r polisiau priodol gennym. Rydym yn canfod unrhyw angen hanfodol am newidiadau strwythurol ac yn eu cyflwyno mewn amrywiol ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys gwella safonau ar draws marchnadoedd ariannol, gan wneud yn siŵr bod y rhai sy'n rhan o'r farchnad yn cadw at y rheolau a chymryd camau pan nad ydynt yn gwneud hynny. Dyma rai o'r prif feysydd gwaith rydym wedi delio â nhw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i wella uniondeb y farchnad.

Gweithredu

Diogelu pob buddsoddwr mewn asedau caeth

Yn dilyn pleidlais y DU ym mis Mehefin 2016 i adael yr Undeb Ewropeaidd, roedd galw gan fuddsoddwyr i wireddu eu hasedau mewn cronfeydd eiddo yn fwy na gallu llawer o gronfeydd i'w gwerthu. Yn sgil hyn, roedd yn rhaid i nifer o gronfeydd eiddo roi'r gorau i fasnachu am y tro, ac fe wnaethom ninnau fynd ati'n ofalus i oruchwylio'r cronfeydd dan sylw a'r yswirwyr bywyd a oedd wedi buddsoddi ynddynt yn ystod y cyfnod hwn. Ers cwmp ariannol 2007, bu craffu ar lefel ryngwladol ar sut gallai gweithgareddau cronfeydd buddsoddi a'r rheini sydd wedi buddsoddi mewn cronfeydd effeithio ar sefydlogrwydd systemau ariannol.

Mae hylifedd arian yn rhan annatod o hyn, ac mae buddsoddiad mewn asedau caeth yn cyfrif am gyfran gynyddol o'r buddsoddiadau sy'n cael eu dal gan fuddsoddwyr sefydliadol, fel cronfeydd pensiwn.

Fe wnaethom benderfynu ei bod yn bryd adolygu'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio cronfeydd penagored sy'n buddsoddi mewn asedau caeth fel eiddo. Aethom ati i edrych ar gwmnïau ar draws y gadwyn gwerth, gan gynnwys ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr corfforaethol awdurdodedig, llwyfannau, rheolwyr cyfoeth ac ymgynghorwyr ariannol annibynnol. Roeddem yn awyddus i gael gwybod a oedd cwmnïau wedi trin eu holl gwsmeriaid yn deg, i ddeall yr effaith ar uniondeb y farchnad pan fydd cwmnïau'n penderfynu atal cronfeydd neu addasu prisiau gwerth teg, ac i weld beth yw safon cyfathrebu cwmnïau yn ystod y cyfnod hwn.

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddassom bapur trafodaeth i gael gwybod mwy am broblemau cronfeydd penagored yn buddsoddi mewn asedau caeth ac i holi a yw'r rheolau presennol yn rhoi sylw i hyn o beth, ac a oes angen i ni ymyrryd ymhellach. Byddwn yn dadansoddi'r adborth i'r papur hwn a chanfyddiadau ein gwaith goruchwylio ac yn cyhoeddi ymateb yn nes ymlaen yn 2017.



Sicrhau bod darparwyr yn gweithredu'n onest

Un rhan bwysig o'n gwaith yw sicrhau mai dim ond pobl addas a phriodol sy'n cael gwneud gweithgarwch rheoledig. Os oes gennym dystiolaeth sy'n dangos nad yw unigolion yn cadw at ein rheolau, byddwn yn eu tynnu o'r farchnad – i sicrhau uniondeb y farchnad ac i ddiogelu defnyddwyr. Gallwn hefyd gymryd camau gorfodi cryfach, gan gynnwys rhoi dirwyon ariannol.

Er enghraifft, ers 2013, mae wedi bod yn ofynnol i ymgynghorwyr buddsoddiadau adwerthu gael Datganiad Safonau Proffesiynol a'r cymwysterau proffesiynol perthnasol. Ym mis Medi 2016, fe wnaethom wahardd Elizabeth Parry rhag gwneud unrhyw weithgarwch rheoledig, a rhoi dirwy o £109,400 iddi am anfon Datganiad ffug atom a dweud celwydd wrthym dro ar ôl tro ynglŷn â bod yn gymwys i fod yn ymgynghorydd buddsoddiadau adwerthu.

Cymryd camau yn erbyn achosion o gamddefnyddio'r farchnad

Mae camddefnyddio'r farchnad yn fater difrifol iawn yn ein barn ni, ac mae'r grym gennym i erlyn os byddwn yn gweld tystiolaeth o hynny.

Ym mis Ionawr 2017, fe wnaethom ddwyn achos llwyddiannus yn erbyn Manjeet Mohal, un o gyn-weithwyr Logica plc, a'i gymydog Reshim Birk, am gynllwyno mewnol. Yn ogystal â hyn, cyflwynodd y llys orchymyn atafaelu o bron i £163,000 yn erbyn Mr Birk. Pan oedd wedi'i gyflogi yn Logica, rhoddodd Mr Mohal wybodaeth fewnol i Mr Birk ynglŷn â throsfeddiannu'r cwmni. Masnachodd Mr Birk ar sail y wybodaeth honno, a gwneud dros £100,000 o elw.

Tesco

Ym mis Awst 2014, cyhoeddodd Tesco plc ddiweddariad masnachu a oedd yn rhoi camagraff ynglŷn â'i elw hanner blwyddyn disgwylidig. Ym mis Medi, cyhoeddodd ei fod wedi gorddatgan y swm. Roedd hyn yn golygu fod y rheini a brynodd gyfranddaliadau a bondiau Tesco rhwng dyddiadau'r cyhoeddiadau hynny wedi talu pris uwch nag y dylen nhw.



Rydym yn amcangyfrif y bydd Tesco plc yn talu oddeutu £85m (a llog) i 10,000 o fuddsoddwyr sefydliadol ac adwerthol o dan y cynllun gwneud iawn.



Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddassom fod Tesco wedi cytuno i dalu iawndal i fuddsoddwyr a oedd wedi gwneud colledion yn sgil cyhoeddiad Tesco. Rydym yn amcangyfrif y bydd Tesco plc yn talu oddeutu £85m (a llog) i 10,000 o fuddsoddwyr sefydliadol ac adwerthol o dan y cynllun gwneud iawn. Dyma'r tro cyntaf i ni ddefnyddio ein pwerau o dan y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol i fynnu bod cwmni rhestrig yn talu iawndal am gamddefnyddio'r farchnad.

Ymchwiliad i gynllwynio mewnol

Gall cynllwynio mewnol achosi niwed difrifol i uniondeb marchnadoedd. Yn 2016, ar ôl ymchwiliad wyth mlynedd a gychwynwyd gan ein rhagflaenydd, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA), llwyddodd ein tystiolaeth i gael dau berson yn euog o gynllwynio mewnol. Roedd hwn yn un o'n hymchwiliadau mwyaf a mwyaf cymhleth i gynllwynio mewnol hyd yma.

Cytunodd dau gyfaill agos (Mr Dodgson a Mr Hind) i ddelio â'i gilydd yn gyfrinachol, weithiau ar sail gwybodaeth fewnol. Roedd Mr Dodgson yn cael gafael ar wybodaeth fewnol o'r banciau buddsoddi yr oedd yn gweithio ynddynt, naill ai drwy weithio ar drafodion ei hun neu drwy gael gwybod ar beth oedd cydweithwyr yn gweithio. Yna roedd yn rhannu'r wybodaeth fewnol hon â Mr Hind, a oedd wedyn yn cynllwynio'n gyfrinachol er budd Mr Dodgson ac yntau.

Roedd ganddynt strategaethau cymhleth i atal yr awdurdodau rhag gweld beth roedden nhw'n ei wneud. Roedd y strategaethau hyn yn cynnwys defnyddio ffonau symudol heb eu cofrestru, cofnodion wedi'u hamgodio a'u hamgryptio, blychau diogel a throsglwyddo buddion gan ddefnyddio arian parod a thaliadau ymarferol.

Mewn sawl achos arall o fasnachu gan Mr Hind yn ystod cyfnod y cyhuddiad, roedd Mr Dodgson neu ei gyflogwr yn cynghori neu'n gysylltiedig â'r cwmni a oedd yn cael ei fasnachu neu gyda chwmni a oedd yn rhan o drafodiad corfforaethol perthnasol.

Roedd y troseddau'n soffistigedig iawn ac fe ddigwyddodd dros nifer o flynyddoedd. Roedd yr ymchwiliad, a gynhaliwyd ar y cyd â'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, yn galed ac yn llafurus. Daethpwyd â sgiliau ymchwilwyr, cyfrifyddion ffrensig, cyfreithwyr, arbenigwyr ar y farchnad, dadansoddwyr gwybodaeth ac arbenigwyr ffrensig digidol at ei gilydd i fynd at wraidd y cynllwyn. Gwnaed hynny drwy fynd ati'n drylwyr ac yn ofalus i ddadansoddi data masnachu, ariannol a chyfathrebu, gwaith goruchwyllo, tystiolaeth ddogfennol gan y banciau buddsoddi a'r deunydd a gafwyd wrth chwilio dan warant.

Cafodd Mr Dodgson ei ddedfrydu i bedair blynedd a hanner yn y carchar, a chafodd Mr Hind ei ddedfrydu i dair blynedd a hanner.

Codi ymwybyddiaeth a gwella tryloywder

Cyllido torfol

Cyllido torfol yw'r ffordd y mae unigolion a sefydliadau, gan gynnwys busnesau newydd, yn codi arian ar-lein i ariannu neu ail-ariannu eu prosiectau a'u busnesau. Mae hyn yn rhywbeth pur newydd, ond mae'r syniad wedi tyfu'n sylweddol yn ystod y blynnyddoedd diwethaf.

Fel rhan o'n hadolygiad ar ôl gweithredu o'n rheolau cyllido torfol, fe wnaethom gyhoeddi cais am fewnbwn ar lwyfannau cyllido torfol sy'n cael eu gweithredu gan gwmnïau a awdurdodwyd gan yr FCA. Roeddem yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o ddatblygiadau diweddar yn y farchnad cyllido torfol seiliedig ar fenthyciadau, sydd ar hyn o bryd yn peri rhywfaint o risg i'n hamcanion. Mae hynny'n cynnwys arbitrais rheoleiddiol a'r risg nad yw buddsoddwyr yn deall y cynnyrch a gynigir yn iawn.

Ein bwriad yw ymgynghori ar newidiadau i'n rheolau i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddiol ar gyfer cyllido torfol yn aros yn gymesur, gan roi gwarchodaeth ddigonol i fuddsoddwyr a chaniatáu ar gyfer twf ac arloesi yn y farchnad yr un pryd.

Gwella proses cynigion cyntaf i'r cyhoedd (IPO) ecwiti'r DU

Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Mawrth 2017 a oedd yn cynnig pecyn o fesurau polisi i wella ystod ac ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i fuddsoddwyr yn ystod y broses IPO. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o reolau i sicrhau bod prospectws neu ddogfen gofrestru yn cael eu cyhoeddi a bod darparwyr 'gwaith ymchwil heb fod yn gysylltiedig' yn gallu cael mynediad at adran reoli'r rhoddwr cyn i unrhyw waith ymchwil cysylltiedig gael ei ryddhau. Roedd y mesurau hefyd yn cynnwys canllaw newydd i egluro ein disgwyliadau wrth i ddadansoddwyr weithio gydag adran reoli'r rhoddwr a'r ymgynghorwyr ariannol corfforaethol pan fydd sefyllfa syndicâd banc a mandad IPO yn cael eu hystyried. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r trafodaethau hyn ac yn gwneud newidiadau priodol i reolau yn ystod 2017.

Rhoi sylw i bryderon am fannau tywyll

Systemau ar gyfer trafod cyfranddaliadau heb 'dryloywder cyn-masnachu' yw 'mannau tywyll' (dark pools). Yn syml, 'tryloywder cyn-masnachu' yw'r gofyniad i ddangos bwriad cwmni i weithredu trafodiad, gan gynnwys y pris a'r maint. Mae gwahaniaethau allweddol rhwng manau tywyll yn y DU a manau tywyll mewn marchnadoedd cenedlaethol eraill, gan gynnwys sut maent yn ymdrin â rhwymedigaethau gweithredu gorau. Gall manau tywyll yn y DU fod yn ganolfannau masnachu neu'n systemau cyfateb mewnol sy'n cael eu rhedeg gan gwmnïau buddsoddi.

Mae manau tywyll wedi bod yn destun craffu cyhoeddus, a bu pryderon ynglŷn â thryloywder prisiau, rhoi mwy o ffafriaeth i rai cleientiaid, a manteision annheg i ddefnyddwyr manau tywyll sy'n fwy blaenllaw ym maes technoleg. Fe wnaethom gynnal adolygiad thematig o fannau tywyll i edrych ar y materion hyn. Canfu ein hadolygiad bod cleientiaid manau tywyll yn croesawu'r hylifedd ychwanegol a'r risg is o wybodaeth yn cael ei rhyddhau heb awdurdod. Gwelsom hefyd fod


gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud gan weithredwyr manau tywyll o ran ansawdd a chywirdeb eu deunyddiau hyrwyddo a rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau. Fodd bynnag, gwelsom hefyd y byddai modd gwella rhai meysydd, gan gynnwys monitro gweithgareddau mewn manau tywyll yn fwy effeithiol, a chanolbwyntio'n benodol ar gywirdeb gweithredol, gweithredu gorau a sgrinio am weithgarwch masnachu diangen, gan gynnwys camddefnyddio'r farchnad.

Cefnogi seilwaith marchnad cadarn

Rydym yn gwneud gwaith goruchwyllo i sicrhau bod seilwaith y farchnad yn gallu sefyll yn gadarn yn erbyn effeithiau allanol a achosir gan ddigwyddiadau fel natur gyfnewidiol y farchnad a chynnydd sydyn mewn lefelau masnachu. Er gwaetha'r ffaith bod y farchnad wedi bod yn gyfnewidiol iawn ar adegau yn ystod 2016, ni gollwyd diwrnodau masnachu i ddigwyddiadau gweithredol ym mhrif seilwaith y farchnad.

Ym mis Mai 2014, lansiodd awdurdodau ariannol y DU CBEST, sef fframwaith profi er mwyn helpu cwmnïau, darparwyr seilwaith a rheoleiddwyr i ddeall y mathau o ymosodiadau seiber a allai danseilio sefydlogrwydd ariannol y DU. Mae'r FCA wedi bwrw ymlaen ag asesiadau CBEST ar gyfer canolfannau masnachu a chwmnïau masnachu mawr, ac wedi ymestyn ein gwaith cadernid seiber i ragor o gwmnïau.

Ffigur 4.1: Nifer yr achosion o chwythu'r chwiban



Yn 2016/17 fe
wnaethom reoli

900

o achosion gwybodaeth
gan chwythwyr chwiban

Chwythu'r Chwiban

Yn unol â Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, mae gennym fframwaith statudol i ddiogelu gweithwyr rhag niwed os byddant yn chwythu'r chwiban ar eu cyflogwr. Mae ein prosesau ni yn mynd y tu hwnt i'r Ddeddf drwy sicrhau bod cyfrinachedd unrhyw un sy'n dymuno datgelu rhywbeth i ni yn cael ei barchu, ac y bydd y person hwnnw'n aros yn ddiennw, pan fydd angen i ni drin ei wybodaeth yn gyfrinachol. Yn 2016/17 roedd y rhaniad rhwng datgeliadau yn unol â'r Ddeddf/ heb fod yn unol â'r Ddeddf yn 73%/27%.

Drwy gydol 2016/17, rydym wedi datblygu ein ffyrdd o weithio yng nghyswllt chwythu'r chwiban ymhellach. Rydym wedi:

- rhoi system rheoli achosion newydd ar waith yn llwyddiannus i wella'r ffordd rydym yn ymdrin ag achosion o chwythu'r chwiban ac i gael gwell deunydd dadansoddi
- gweithio gyda sefydliadau allanol, gan gynnwys grwpiau cefnogi ac elusennau a siaradodd mewn digwyddiad mewnol ar chwythu'r chwiban ym mis Mai 2016
- ymgysylltu â chyrrff eraill sy'n gallu derbyn datgeliadau chwythu'r chwiban yn ffurfiol i feincnodi ein dull gweithredu ni ar gyfer chwythu'r chwiban

- atgyfnerthu hyfforddiant staff fel eu bod yn gwybod pan fydd unigolyn yn chwythu'r chwiban, a gwella ein dull o gyf-weld y rheini sydd wedi chwythu'r chwiban

Yn gyffredinol, rydym wedi sicrhau bod mwy adnoddau ar gael fel ein bod yn cynnig gwasanaeth gwell ac yn mynd ati'n barhaol i wella ein hymateb i chwythwyr chwiban sy'n cysylltu â ni.

Yn 2016/17 fe wnaethom reoli 900 o achosion gwybodaeth gan chwythwyr chwiban (ffigur 4.1). Fe wnaethom rannu gwybodaeth â chyrrff allanol, gan gynnwys yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, lluoedd yr heddlu, Cyllid a Thollau EM, a rheoleiddwyr eraill yn y DU a dramor mewn mwy na 100 o achosion.

Mae'r wybodaeth a gafwyd gan chwythwyr chwiban wedi ein helpu i wneud y canlynol:

- rhoi ymchwiliadau gorfodi ar waith
- rhoi adran 166 o'r Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol ar waith – adolygiadau o gwmnïau gan unigolion medrus
- ymweld â chwmnïau
- paratoi asesiadau o gwmnïau, gan gynnwys yng nghyswllt gwyngalchu arian
- cynnal adolygiadau manwl mewn cwmnïau

Ffigur 4.2: Categoriâu gwybodaeth a roddwyd gan rai a dderbyniodd wybodaeth yn sgil chwythu'r chwiban yn 2016/17

Categori	2016/17	2015/16	2014/15
Gwybodaeth a roddwyd yn uniongyrchol i weithgarwch gorfodi'r FCA neu i amddiffyn defnyddwyr drwy ymyriad arall	7	13	19
Roedd y wybodaeth o werth sylweddol i'r FCA a chyfrannodd at y broses o gyflawni ei ddyletswyddau	159	89	235
Roedd y wybodaeth o werth i'r FCA, neu fe allai fod o werth, ond nid oes modd gwneud dim yn ei chylch ar hyn o bryd neu nid yw'n bodloni'r trothwyon presennol o ran risg rheoleiddiol	259	242	521
Ychydig o werth oedd i'r wybodaeth ac nid yw'n debygol o helpu'r FCA i gyflawni ei ddyletswyddau	48	39	100
Heb eu hasesu eto	427*	631	465
Cyfanswm	900	1,014	1,340

*Rydym yn asesu pob datgeliad chwythu'r chwiban i weld a oes angen cymryd camau rheoleiddiol. Efallai y bydd angen i waith dilynol gael ei wneud gan fwy nag un rhanddeiliad ar draws yr FCA yn sgil datgeliad. Rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer yr achosion o chwythu'r chwiban uchel eu gwerth wrth i ni wneud casgliadau ac asesiadau terfynol ar yr achosion hyn.


Nodyn: mae'r data ar gyfer 2015/16 a 2014/15 yn adlewyrchu sut cafodd y ffigurau hyn eu hadrodd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Mae'r rhifau wedi newid yn sylweddol erbyn hyn, yn enwedig nifer yr achosion sydd 'heb eu hasesu eto', ond mae'r tabl yn dangos pa mor gyflym rydym yn asesu achosion o un flwyddyn i'r llall.

- cynnal adolygiadau thematig.

Nid oes gennym darged ar gyfer nifer yr achosion o chwythu'r chwiban a dylem eu cael. Ein nod yw sicrhau bod y rheini sy'n dymuno peidio â sôn wrth gorff annibynnol yn gwybod am ein rôl ni, ac os byddant yn cymryd y cam i roi gwybod am gyflogwr presennol neu flaenorol – sy'n gallu bod yn gam anodd iawn – byddwn yn eu trin nhw a'u gwybodaeth mewn ffordd sensitif a phroffesiynol.

Rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer yr achosion o chwythu'r chwiban am yr ail flwyddyn yn olynol. Credwn fod chwythwyr chwiban yn fwy ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer gwneud hynny yn eu cwmnïau eu hunain, a'u bod felly yn rhoi gwybod amdanynt yn fewnol yn gyntaf.

Ffigur 4.3: Datgeliadau chwythu'r chwiban yn 2016/17 yn ôl sector



Ymrwymiadau ein Cynllun Busnes – Marchnadoedd ariannol cyfanwerthol

Ein nod yw sicrhau bod marchnadoedd cyfanwerthol yn lân, yn effeithiol ac yn gystadleuol, a bod defnyddwyr yn gallu ymddiried ynddynt i fod yn agored ac yn dryloyw.

Wrth i farchnadoedd cyfanwerthol barhau i esblygu gydag arferion a thechnoleg newydd, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein rheolau sy'n gwahardd ac yn atal ymddygiad niweidiol yn aros yn effeithiol ac yn gyfredol.

Camddefnyddio'r farchnad

Fe wnaethom ddechrau rhoi rheoliad newydd yr UE – Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad – a ddaeth i rym ar 3 Gorffennaf 2016, ar waith. Mae'r Rheoliad hwn yn cryfhau'r fframwaith blaenorol ar gyfer camddefnyddio'r farchnad yn y DU drwy ei hystreyn i gynnwys mwy o farchnadoedd, llwyfannau ac ymddygiadau.

Mae hefyd yn mynnu bod cwmnïau a chanolfannau masnachu yn rhoi gwybod am archebion a thrafodion amheus, ac am unrhyw ymgais i gamddefnyddio'r farchnad. Yn sgil hyn, rydym wedi disodli'r Adroddiadau am Drafodion Amheus (STR) ag Adroddiadau am Drafodion ac Archebion Amheus (STOR). Er ein bod ni yn y gorffennol wedi annog cwmnïau i roi gwybod am archebion a allai arwain at gamddefnyddio (gan gynnwys archebion a fyddai, o fwrw ymlaen a nhw, wedi arwain at gamddefnyddio'r farchnad), mae Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad yn mynnu hyn bellach.

Fe wnaethom weithio'n agos gyda'r diwydiant i baratoi ar gyfer newidiadau sylweddol y rheoliad newydd hwn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn barod ar gyfer y gyfundrefn newydd. Mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol

– derbyniwyd 1,898 STOR yn ystod chwe mis diwethaf 2016, o'i gymharu â 1,110 STR yn H1 2016. Yn y ffigurau hyn, gwelsom gynydd yn nifer yr adroddiadau a oedd yn cynnwys offerynnau ariannol heb fod yn ecwiti a'r rheini a oedd yn rhoi gwybod am achosion o gam-lywio'r farchnad.

Er y bu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt o dan y drefn STR newydd, dylid ystyried y newidiadau yng ngofynion adrodd Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad. Nid oes modd cymharu ffigurau STOR a ffigurau STR yn uniongyrchol.

Mae'r ffigurau STOR yn gofyn am gategoreiddio'r math o ymddygiad sy'n camddefnyddio'r farchnad, naill ai fel cam-lywio'r farchnad neu fel cynllwynio mewnol. Er bod y categorïau hyn yn eithaf tebyg i'r rheini a ddisgrifiwyd yn erbyn STR uchod, mae'n bwysig cyflwyno'r categorïau ar wahân i adlewyrchu'r newidiadau yn y gofynion ar gyfer rhoi gwybod.


At ddibenion ffigur 4.4., mae Cam-lunio (Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad) yn dal yn cynnwys arferion camarweiniol ac enghreifftiau eraill o gamddefnyddio'r farchnad, yn ogystal â cham-lunio meincnodau; mae Cynllwynio mewnol (Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad) yn dal yn cynnwys camddefnyddio gwybodaeth (gan gynnwys datgelu'n anghyfreithlon) ond dim ond pan oedd yn arwain at drafodiad neu archeb amheus. Mae'r ddau gategori hefyd yn cynnwys unrhyw adroddiadau sy'n rhoi manylion am archebion amheus a / neu ymgais i gamddefnyddio'r farchnad.

Ar ein gwefan, ceir dadansoddiad o'r Adroddiadau am Drafodion ac Archebion Amheus a dderbyniwyd ym mhob un o'r pedwar prif ddsbarth asedau – ecwitiai, incwm sefydlog, nwyddau sylfaenol a chyfnewid arian tramor.

Pan fyddwn yn cael STOR (STR yn flaenorol), yn ogystal a phenderfynu a oes angen gwneud rhywbeth ynglŷn â'r achos o gamddefnyddio'r farchnad, byddwn hefyd yn asesu ansawdd yr hyn a gyflwynwyd er mwyn penderfynu a oes sail resymol o amheuaeth, ac a yw hyn wedi cael ei eirio'n glir yn yr adroddiad.

Os nad ydym yn credu bod y prawf amheuaeth resymol wedi cael ei fodloni, yn gyffredinol byddwn yn rhoi adborth i'r cwmni neu'r ganolfan fasnachu i wneud yn siŵr bod eu dealltwriaeth o'r weithdrefn a'r ffordd mae hi'n cael ei rhoi ar waith yn briodol. Yn 2016, nid oedd 2% o Adroddiadau am Drafodion Amheus ac Adroddiadau am Drafodion ac Archebion Amheus yn bodloni'r prawf amheuaeth resymol. Mae hyn yn ostyngiad ers 2015, pan nad oedd 2.5% o Adroddiadau am Drafodion Amheus yn bodloni amodau'r prawf, ac ers 2014, pan nad oedd 5% o

Ffigur 4.4: Cyfanswm yr adroddiadau am drafodion amheus yn ôl math o ymddygiad hyd at 3 Gorffennaf 2016, a chyfanswm yr adroddiadau am drafodion ac archebion amheus o 3 Gorffennaf 2016 ymlaen.



Adroddiadau am Drafodion Amheus yn bodloni amodau'r prawf.

Y Gyfarwyddiaeth Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol (MiFID II)

Mae MiFID II yn rheoleiddio cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau i gleientiaid sy'n gysylltiedig ag 'offerynnau ariannol' (cyfranddaliadau, bondiau, unedau mewn cynlluniau buddsoddi a deilliadau ar y cyd), a'r canolfannau lle maent yn cael eu masnachu. Yn 2016/17, fe wnaethom gyhoeddi pedwar papur ymgynghori i roi'r Gyfarwydddeb ar waith. Mae'r ymgynghoriadau hyn wedi ymdrin â materion fel rheolau ar gyfer ail fasnachu offerynnau ariannol, gofynion systemau a threfniadau rheoli ar gyfer cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau buddsoddi MiFID, arweiniad ar adroddiadau trafodion ac ymddygiad busnesau.

Daw MiFID II i rym ar 3 Ionawr 2018 a bydd yn cyflwyno nifer o offerynnau ariannol a gwasanaethau buddsoddi newydd. Disgwyliwn gael oddeutu 600 o geisiadau, naill ai ar gyfer awdurdodiad newydd neu ar gyfer amrywio caniatâd.

I leihau'r risg o amharu ar y farchnad, agorwyd y Porth Awdurdodi ar 30 Ionawr 2017 ar gyfer ceisiadau buan. Rydym yn cysylltu â'r cwmnïau dan sylw i'w helpu i ddeall y newidiadau yn y broses awdurdodi ac i roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflwyno ceisiadau cyflawn.

Yr Adolygiad Marchnadoedd Teg ac Effeithiol – rheoleiddio a monitro'n rhagweithiol

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Banc Lloegr, y Trysorlys, y CMA a rheoleiddwyr rhyngwladol i weithredu argymhellion yr Adolygiad Marchnadoedd Teg ac Effeithiol (FEMR) i edrych ar sut mae marchnadoedd Incwm Sefydlog, Arian a Nwyddau Sylfaenol (FICC) cyfanwerthol yn gweithredu.

Rydym wedi parhau i roi argymhellion FEMR ar waith yn ystod 2016/17, gan gynnwys awdurdodi'r saith prif feincnod FICC arfaethedig, gweithio gyda'r Bwrdd Safonau Marchnad FICC newydd i adnabod risgiau sy'n ymddangos a chodi safonau mewn marchnadoedd FICC byd-eang, ac ymgorffori canfyddiadau'r FEMR i'n gwaith bob dydd i oruchwylio marchnadoedd FICC a'r rheini sy'n rhan o'r farchnad.

Gwneud prif farchnadoedd yn fwy effeithiol ac effeithlon

Rydym wedi dal ati i weithredu argymhellion Fforwm Marchnad Dyledion y DU yn 2016/17. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys ymestyn ein Dull Gweithredu ar gyfer Dyledion Cyfanwerthu er mwyn iddo fod yn berthnasol i fwy o offerynnau dyledion, gan gynnwys ABS a Bondiau Gwarchoddedig; ymestyn cwmpas ein gwasanaeth yr un diwrnod ar gyfer oddeutu 90% o ddogfennau datgelu dyledion ategol a chreu ein tîm Cyswllt Cynnar i wneud yn siŵr bod y broses codi cyfalaf ar gyfer y rheini sy'n darparu dyledion tramor am y tro cyntaf yn glir ac yn ddealladwy.

Rydym wedi gwneud sawl darn o waith i helpu i sicrhau bod prif farchnadoedd y DU yn dal i fod yn effeithiol, gan gynnwys ymgynghori ar Reoliad Prosbectws newydd arfaethedig. Mae hyn yn dilyn cynlluniau'r Comisiwn Ewropeaidd i ddisodli'r Gyfarwydddeb Prosbectws â rheoliad newydd o fis Mehefin 2019 ymlaen. Nod y rheoliad newydd yw gwneud y drefn yn symlach, yn gyflymach ac yn rhatach i ddarparwyr a rhoi mwy o ddewis i fuddsoddwyr a gwybodaeth fwy hygyrch am gyfleoedd buddsoddi. Dylai hyn olygu bod modd cymeradwyo prosbectysau'n gynt ar gyfer darparwyr cyson, llai o ddatgelu cyhoeddiadau eilaidd, a threfn gymesur benodol ar gyfer busnesau bach a chanolig.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi papur trafodaeth a phapur ymgynghori Adolygiad Rhestru, lle rydym wedi gofyn am sylwadau ynghylch strwythur prif farchnadoedd y DU i sicrhau eu bod yn dal i ddiwallu anghenion darparwyr a buddsoddwyr. Gan ystyried cyd-destun ehangach y farchnad ynghyd â'r adborth, mae'r papur trafodaeth yn edrych ar strwythur y gyfundrefn restru ac a oes elfennau sydd ddim yn cael sylw priodol gan fframwaith y DU ar gyfer prif farchnadoedd ar hyn o bryd. Mae'r papur ymgynghori yn nodi cynigion technegol mwy datblygedig i wella elfennau penodol o'r Gyfundrefn Restru.

Mesurau llwyddiant yn erbyn Cynllun Busnes 2016/17

Nid ydym wedi gweld cynnydd na gostyngiad sylweddol yn y farn bod rheoliadau'r FCA yn rhoi cwmnïau cyfanwerthu dan anfantais o'u cymharu â'u cystadleuwyr dramor, ar sail data Arolwg yr FCA a Phanel Ymarferwyr/Panel Ymarferwyr ar y Cyd 2016 a 2017.

Roedd adborth pellach o arolwg 2017 yn dangos, pan ofynnwyd 'Mae gwaith yr FCA yn gwella enw da'r DU fel canolfan ariannol', fod 88% o gwmnïau cyfanwerthu wedi rhoi ymateb cadarnhaol, 10% wedi rhoi ateb niwtral, a 2% wedi rhoi ateb negyddol. Byddwn yn parhau i fonitro'r duedd hon.

Ymrwymiadau ein Cynllun Busnes – Troseddau ariannol ac atal gwyngalchu arian

Rydym yn mynnu bod gan bob cwmni awdurdodedig systemau a threfniadau rheoli effeithiol, yn ogystal â threfniadau llywodraethu cadarn, i leihau'r risg y gellid eu defnyddio i gyflawni troseddau ariannol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r systemau hyn a'r ffordd maent yn cael eu gweithredu fod yn gymesur â risg y cwmni o wynebu troseddau ariannol, i sicrhau nad ydynt yn creu rhwystrau diangen i gwsmeriaid nac yn eu heithrio rhag cael mynediad at wasanaethau ariannol.

Mae'r adran hon yn rhoi sylw i rai o'r darnau pwysicaf o waith rydym wedi'u gwneud yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn. Rydym yn rhoi rhagor o fanylion am yr elfen hon o'n gwaith yn ein hadroddiad blynyddol ar atal gwyngalchu arian ar ein gwefan.

Atal gwyngalchu arian a goruchwyllo hynny

Rydym wedi dal ati i roi ein strategaeth ehangach ar waith ar gyfer goruchwyllo ym maes atal gwyngalchu arian. Mae hyn yn cynnwys ein Rhaglen Atal Gwyngalchu Arian Systemig sy'n cynnwys 14 o fanciau buddsoddi ac adwerthu mawr sy'n gweithredu yn y DU, yn ogystal â'u gweithgareddau risg uchel dramor neu'u gweithgareddau pwysicaf. Fe wnaethom hefyd barhau i adolygu cwmnïau eraill – banciau llai gan fwyaf – sy'n peri mwy o risg o droseddau ariannol. Yn y tymor hwy, byddwn yn ymestyn cwmpas y rhaglen o 75 o gwmnïau i 150.

Yn ddiweddar, rydym wedi ymestyn ein goruchwylloeth ragweithiol ym maes atal gwyngalchu arian drwy gyflwyno rhaglen newydd o ymweliadau â chwmnïau sy'n peri llai o risg, a ddewisir ar hap. Bydd y rhaglen newydd hon yn ymdrin ag oddeutu 100 o gwmnïau bob blwyddyn, ar draws pob sector rydym yn ei oruchwyllo. Byddwn hefyd yn cysylltu â chwmnïau ar draws y sectorau i ofyn i ba raddau maent yn deall risgiau gwyngalchu arian, a sut maent yn mynd ati i gydymffurfio yn hynny o beth.

Gwneud gofynion atal gwyngalchu arian yn gymesur ac yn effeithlon

Mae'r gyfraith yn mynnu bod banciau a llawer o gwmnïau ariannol eraill yn cymryd camau i ganfod achosion o wyngalchu arian ac atal hynny. Mae hyn yn hollbwysig i sicrhau uniondeb system ariannol y DU ac i atal troseddau rhag manteisio arni. Ond mae'r mesurau hyn yn costio, a'r cyhoedd, yn y pen draw, sy'n talu'r pris. Rydym yn annog y diwydiant i edrych ar ffyrdd o symleiddio mesurau i atal gwyngalchu arian er mwyn lleihau beichiau cydymffurfio a'u gwneud yn symlach i gwsmeriaid cyffredin. Rydym wedi comisiynu adolygiad o waith arloesol yn y sector er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut gall technoleg helpu cwmnïau i reoli'r risg o droseddau ariannol a gwyngalchu arian. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau yn nes ymlaen yn 2017.

Bydd rhai cwmnïau'n ceisio sicrhau eu bod yn cydymffurfio â holl ofynion atal gwyngalchu arian drwy wrthod gwasanaeth bancio i unigolion neu sefydliadau sy'n 'amheus' yn eu barn nhw, neu dynnu'r gwasanaethau bancio hynny yn ôl. Gelwir hyn yn 'leihau risg'. Fodd bynnag, mae rhai cwsmeriaid wedi cwyno bod gwasanaethau wedi cael eu tynnu'n ôl heb iddynt wybod beth yw'r rheswm am hynny, a gall hyn olygu bod unigolion yn cael eu cau allan a'u bod yn methu cael mynediad at wasanaethau bancio.

Yn 2016, fe wnaethom gwblhau ein hasesiad o effaith lleihau risg ar gwmnïau, i helpu i sicrhau bod cwmnïau'n ymateb i leihau risg mewn ffordd gymesur ac effeithiol. Rydym yn awr yn gweithio gyda'r diwydiant bancio i annog banciau i gyfathrebu'n well â'u cwsmeriaid pan fyddant yn penderfynu gwrthod perthynas fancio neu'n dod â pherthynas i ben, ac i ystyried a yw'r hyn maent yn ei wneud yn effeithio ar gystadleuaeth neu ar ddiogelwch defnyddwyr.

Rydym hefyd wedi cyfrannu at ymdrechion y Llywodraeth i sicrhau bod y DU yn rhoi gofynion Cyfarwyddeb Atal Gwyngalchu Arian diweddaraf yr UE ar waith. Mae hyn yn cynnwys diweddarau ein canllawiau i adlewyrchu Rheoliadau Gwyngalchu Arian diwygiedig y DU.

Rydym yn dal yn gyfrannwr o bwys yn y Tasglu Gweithredu Ariannol (FATF), a fydd yn gwerthuso pa mor ddigonol yw cyfundrefn Atal Gwyngalchu Arian y DU yn nes ymlaen yn 2017. Bydd eu hadborth yn ein helpu i ddeall sut mae aseswyr rhyngwladol ac awdurdodau tramor yn gweld ein trefniadau ni ar gyfer atal gwyngalchu arian. Byddwn hefyd yn dal ati i gymryd rhan yn fforymau pwyllgorau Basel ac Awdurdodau Goruchwyllo Ewrop ar bolisiau troseddu rhyngwladol.

Goruchwyllo cyrff proffesiynol

Mae gan y DU lawer o wahanol gyrff proffesiynol sy'n gorchwyllo'r proffesiwn cyfreithiol a chyfrifeg. Canfu Aseiad Risg Cenedlaethol y Llywodraeth o Gyllido Terfysgwyr a Gwyngalchu Arian yn 2015 fod nifer y goruchwylwyr atal gwyngalchu arian mewn rhai sectorau yn peri risg o ddull gweithredu anghyson. Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd y Trysorlys y byddai Swyddfa newydd yn cael ei ffurfio – Swyddfa Goruchwyllo Atal Gwyngalchu Arian ar gyfer Cyrff Cyhoeddus (OPBAS) – i weithio gyda chyrff proffesiynol i'w helpu i gydymffurfio â'r rheoliadau a sicrhau eu bod yn gwneud hynny. Bydd OPBAS yn dod dan law yr FCA, ac rydym wrthi'n paratoi ar gyfer y rôl newydd hon ar hyn o bryd.

Defnyddio ein gwybodaeth a gweithio gydag eraill i atal troseddau ariannol

Eleni, lansiwyd y Ffurflen Ddata Flynyddol ar gyfer Troseddau Ariannol i'n helpu i adnabod risgiau o droseddau ariannol ym musnes cwmnïau. Bydd y data hyn yn gadael i ni ganolbwyntio ein hadnoddau goruchwyllo'n gryfach ar gwmnïau sydd â modelau busnes risg uchel, i asesu a yw eu fframweithiau rheoli yn cyd-fynd â'u risgiau.

Rydym yn aelod craidd o'r Tasglu ar y Cyd ar gyfer Gwybodaeth am Wyingalchu Arian, sef partneriaeth gyhoeddus/preifat gydag asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith a'r sector ariannol i fynd i'r afael â throseddau ariannol a gwyngalchu arian a helpu i sicrhau glendid marchnadoedd ariannol y DU. Yn 2016, cawsom wahoddiad i ymuno â'r Tasglu ar y Cyd ar gyfer Twyll, partneriaeth gyhoeddus/preifat arall a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref i ddod â'r Llywodraeth, y rheini sy'n gorfodi'r gyfraith, rheoleiddwyr a'r sector bancio at ei gilydd i wella ymateb y DU i dwyll.

Ym mis Ebrill 2016, adroddwyd yn eang am amrywiaeth o honiadau, gan gynnwys gwyngalchu arian, a oedd yn ymwneud â'r cwmni cyfreithiol o Panama, Mossack Fonseca. Mae aelodau o staff wedi mynd ar secondiad i'r Ganolfan ar y Cyd ar gyfer Dadansoddiadau Ariannol (JFAC), tasglu a lansiwyd ym mis Ebrill 2016 i ddadansoddi gwybodaeth o ddata Papurau Panama, a ryddhawyd heb awdurdod. Mae'r tasglu'n cynnal ymchwiliadau i unigolion a chwmnïau am droseddau sifil difrifol neu droseddau eraill sy'n ymwneud â thwyll treth a drwgweithredu ariannol. Mae JFAC wedi nodi sawl cyfle ar gyfer cydweithio ag asiantaethau partner, ac mae wedi cyfrannu at nifer o ymchwiliadau parhaus drwy ddod o hyd i asedau troseddol cudd.

Deutsche Bank yn cael dirwy o £163m am fethiannau o ran atal gwyngalchu arian

Ym mis Ionawr 2017, cafodd Deutsche Bank AG ddirwy o dros £163m gennym am fethiannau yn ei fframwaith atal gwyngalchu arian rhwng 2012 a 2015. Roedd Deutsche Bank wedi methu mynd ati'n briodol i oruchwyllo perthnasoedd newydd â chwsmeriaid a phrosesau trefnu busnes byd-eang yn y DU. Roedd hyn yn golygu bod system ariannol y DU wedi bod yn agored i risg o droseddau ariannol.

Gan nad oedd ganddo drefniadau rheoli digonol i atal gwyngalchu arian, defnyddiodd cwsmeriaid anhysbys Deutsche Bank i drosglwyddo tua \$10bn o arian anhysbys o gyfrifon yn Rwsia i gyfrifon banc mewn gwledydd tramor. Dyma'r ddirwy ariannol fwyaf i gael ei rhoi am fethiannau o ran atal gwyngalchu arian.

Sgamiau a lleihau niwed i ddefnyddwyr

Mae ein hymgyrch ScamSmart yn ceisio rhoi gwybodaeth ac adnoddau i ddefnyddwyr sy'n wynebu risg er mwyn

eu hatal rhag dioddef twyll buddsoddi. Mae'r ymgyrch yn dysgu defnyddwyr beth yw'r arwyddion rhybudd i gadw golwg amdanynt ac yn hyrwyddo ein Rhestr Rhybudd. Mae'r adnodd hwn yn darparu rhestr o gwmnïau i'w hosgoi (gellir chwilio drwy'r rhestr hefyd) ac yn rhoi gwybodaeth am risgiau gwahanol 'gyfleoedd' buddsoddi.


Mae ein gwaith i ddiogelu defnyddwyr rhag sgamiau yn cydnabod bod troseddwyr yn manteisio ar gyfleoedd, a bod eu targedau'n gallu newid dros amser. Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod dros un rhan o bump o bobl dros 55 oed ac un rhan o dair o bobl dros 75 oed yn credu eu bod wedi cael eu targedu gan sgam buddsoddi ers 2013.

Yn 2016, lansiwyd cam newydd o'r ymgyrch, gan gynnwys gweithgareddau newydd ym maes cysylltiadau cyhoeddus, y cyfryngau cymdeithasol a hysbysebu, a chyfathrebu drwy bartneriaid. Buom yn gweithio gyda phob math o bartneriaid, gan gynnwys banciau, darparwyr pensiynau, grwpiau defnyddwyr, rheoleiddwyr eraill a phartneriaid sy'n ceisio atal troseddau.

Mesurau llwyddiant yn erbyn Cynllun Busnes 2016/17

Mae Ffigur 4.5 yn dangos cynnydd mawr yn nifer yr ymweliadau â safle ScamSmart a defnydd o'r Rhestr Rhybudd yn 2016/17, sy'n cyrraedd ei anterth yn ystod ein ymgyrchoedd hysbysebu. Bu cyfanswm o 319,594 o ddefnyddwyr ar safle ScamSmart yn 2016/17 (wedi cynyddu o 94,543 yn 2015/16) a gwiriodd 26,091 fuddsoddiad ar y Rhestr Rhybudd (wedi cynyddu o 13,795 yn 2015/16). Bu cynnydd o 238% yn nifer y defnyddwyr sy'n ymweld â hyb ScamSmart yn 2016/17, a chynnydd o 89% yn y gwiriadau buddsoddi ar ein Rhestr Rhybudd.

Ffigur 4.5: Nifer yr ymweliadau â Hyb ScamSmart yr FCA a'r Rhestr Rhybudd



Ymrwymadau ein Cynllun Busnes – Diwylliant a threfniadau llywodraethu

Mae diwylliant a threfniadau llywodraethu cwmnïau, a'u heffaith ar ymddygiad, yn dal yn flaenoriaeth i'r FCA. Rydym felly wedi bod yn canolbwyntio ar y prif bethau sy'n arwain at ddiwylliant da neu ddiwylliant gwael o ran ymddygiad sy'n gallu arwain at niwed. Rydym yn awyddus i unigolion mewn cwmnïau fod yn falch o fod yn atebol am ymddygiad da. Mae rhoi'r Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio ar waith yn hollbwysig i hyrwyddo diwylliant o atebolrwydd.

Mae mesur diwylliant yn systematig yn gallu bod yn her; ond credwn fod diwylliant yn rhywbeth y mae modd ei reoli. Er mai cyfrifoldeb pob cwmni yw ei ddiwylliant efi hun, rydym wedi cymryd camau i ddeall a chreu ymwybyddiaeth o ddiwylliant y cwmnïau rydym yn eu goruchwylio, gyda'r bwriad o weld a oes gan yr hyn sy'n symbylu diwylliant pob cwmni y potensial i achosi niwed. Rydym wedi defnyddio ystod eang o ddulliau goruchwylio i weithio gyda chwmnïau ar y pethau sy'n symbylu eu diwylliant sydd o ddiddordeb i ni, er enghraifft negeseuon y cwmni ar bwrpas a gwerthoedd, agwedd y rheolwyr, agwedd at gymhellion a galluoedd gweithwyr, a pha mor effeithiol yw'r dulliau rheoli a llywodraethu.

Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol drwy ddioglyddiaid yn y diwydiant, trafodaethau bwrdd crwn ac areithiau, er mwyn esbonio ein hagwedd at ddiwylliant a llywodraethu, a sut mae hyn yn cyd-fynd â'n hamcanion. Rydym yn dal i chwarae rhan frwd yng Ngweithgor y Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol ar Fframweithiau Llywodraethu.

Datblygu diwylliant o atebolrwydd mewn cwmnïau

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dilyn rhaglen waith barhaus i weithredu a gwreiddio'r Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio ar gyfer banciau, cymdeithasau adeiladu, undebau credyd a chwmnïau rheoleiddio deuol i wella trefniadau llywodraethu cwmnïau ac i hybu diwylliant o atebolrwydd.

Erbyn 7 Mawrth 2017, dylai bod pob unigolyn ardystiedig wedi cael ei asesu gan ei gwmni i brofi ei fod yn addas ac yn briodol ar gyfer ei rôl. Daeth rheolau ymddygiad unigolion i rym gyda'r bwriad o fod yn berthnasol i bob aelod o staff (ac eithrio unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau ategol penodol sydd ddim yn ymwneud â gwasanaethau ariannol) mewn cwmnïau sy'n rhan o'r gyfundrefn ar hyn o bryd, nid dim ond Uwch Reolwyr ac Unigolion Ardystiedig.

Rydym wedi cyhoeddi rheolau a chanllawiau ar y canlynol:

- Cyfeiriadau rheoleiddiol – adnodd allweddol sy'n mynnu bod cwmnïau'n rhannu gwybodaeth berthnasol am unigolion i helpu cwmnïau eraill i asesu a yw gweithwyr newydd posibl yn 'addas ac yn briodol'.

- Dyletswydd cyfrifoldeb, i egluro sut gallai'r FCA a'r PRA gymryd camau gorfodi yn erbyn Uwch Reolwyr. Mae hyn yn berthnasol os ydynt yn gyfrifol am reoli unrhyw weithgareddau lle mae'r cwmni'n mynd yn groes i ofyniad rheoleiddiol, ac nad ydynt yn cymryd camau rhesymol i osgoi'r sefyllfa neu i'w hatal rhag parhau.
- Rhoi ein llyfr ffynonellau Cod Ymddygiad ar waith yng nghyswllt cyfarwyddwyr anweithredol safonol mewn banciau, cymdeithasau adeiladu, undebau credyd, cwmnïau yswiriant a chwmnïau buddsoddi rheoleiddio deuol. Bydd hyn yn helpu i godi safonau ymddygiad ar gyfer yr unigolion hyn, gyda'r nod o leihau risg o gamymddwyn yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi papur trafodaeth ynghylch a yw'r swyddogaeth gyfreithiol yn dod o dan y Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio.

Aethom ati i gynnal adolygiad goruchwyliol o'r Datganiadau Cyfrifoldebau a'r mapiau cyfrifoldeb a ddarparwyd i ni gan gwmnïau fel rhan o'r broses o roi'r Gyfundrefn ar waith ar 7 Mawrth 2016. Fe wnaethom gyhoeddi adborth yn benodol ar gyfer yr adolygiad hwn ym mis Medi 2016.

Un elfen allweddol o'n gwaith goruchwyliol gyda banciau ac yswirwyr ers rhoi'r Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio ar waith fu gweithio gyda chwmnïau i sicrhau eu bod wedi deall y gyfundrefn a'i rhoi ar waith yn briodol, a'u bod yn gallu sicrhau'r amcanion a fwriedir, sef gwella trefniadau llywodraethu a diwylliant o atebolrwydd.

O 2018 ymlaen, bydd y Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio yn cael ei hymestyn i bob cwmni sydd wedi'i awdurdodi gan y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol, a byddwn yn ymgynghori ar hyn yn ystod 2017. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein cynigion yn syml, yn gymesur ac yn glir, ac yn briodol ar gyfer poblogaeth mor fawr ac amrywiol o gwmnïau.

Torri rheolau ymddygiad o dan y Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio

Ar ôl i'r Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio gael ei rhoi ar waith, mae'n ofynnol bod cwmnïau'n rhoi gwybod i ni'n flynyddol am achosion o dorri rheolau a chmau disgyblu.

Ar ôl y dyddiad adrodd cyntaf, 31 Hydref 2016, dim ond i Uwch Reolwyr a staff ardystiedig mewn cwmnïau yn y sector bancio yr oedd y rheolau ymddygiad yn berthnasol. O'r boblogaeth honno, mae 32 o gwmnïau wedi rhoi gwybod am 75 achos o dorri rheolau ymddygiad, a bu 89 o gamau disgyblu yn ystod y cyfnod cychwynnol, sef rhwng 7 Mawrth 2016 a 31 Hydref 2016.

Ar 7 Mawrth 2017, daeth y rheolau ymddygiad i rym ar gyfer pob aelod o staff ychwanegol (ac eithrio'r rheini

mewn rolau ategol) mewn cwmnïau. Felly, adroddiad Hydref 2017 fydd yr un cyntaf i gynnwys blwyddyn lawn o ddata ar gyfer Uwch Reolwyr a staff ardystiedig, yn ogystal â'r set gyntaf o ddata ar gyfer staff eraill ar gyfer y cyfnod ers 7 Mawrth 2017. Adroddiad Hydref 2018 fydd yr un cyntaf i gynnwys blwyddyn lawn o ddata ar achosion o dorri rheolau i bob aelod o staff y mae'r rheolau ymddygiad yn berthnasol iddynt.

Rhoi sylw i'r hyn sy'n sail i ymddygiad

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu a gwreiddio'r ffordd rydym yn ymdrin â chydabyddiaeth. Fe wnaethom ymgynghori ar sicrhau bod darpariaethau cydnabyddiaeth yn cyd-fynd â Chanllawiau Awdurdod Bancio Ewrop ar bolisiau cydnabyddiaeth cadarn ar gyfer cwmnïau o dan y Gyfarwyddeb Gofynion Cyfalaf. Fe wnaethom wneud newidiadau, a rhannu ein disgwyliadau am arferion da ymhellach.

Cymhelliannau a gwrthdaro rhwng buddiannau

Ers cyflwyno'r Adolygiad Dosbarthu Adwerthol, rydym wedi canolbwyntio'n gadarn ar gymhelliannau. Bwriad hyn yw lleihau'r risg bod ymgynghorwyr neu gwmnïau'n cael eu cymell yn amhriodol i argymell cynnyrch i'w cleientiaid, er bod hwnnw ddim er budd gorau'r cleient. Ym mis Ebrill 2016, fe wnaethom gyhoeddi prif ganfyddiadau ein hadolygiad thematig o fuddion yr oedd cwmnïau wedi'u darparu ac wedi'u cael ar gyfer buddsoddiadau adwerthol, a phwysleisio ein disgwyliadau ynglŷn â rheolau cymell. Ein prif ganfyddiad oedd nad oedd lefel yr haelioni a ddarparwyd neu a dderbyniwyd ddim bob amser yn gwella ansawdd y gwasanaeth i'r cleient. Darparwyd adborth unigol i'r cwmnïau yn yr adolygiad am y gwelliannau y dylent eu gwneud.




Erbyn 7 Mawrth 2017, dylai bod pob unigolyn ardystiedig wedi cael ei asesu gan ei gwmni i brofi ei fod yn addas ac yn briodol ar gyfer ei rôl.



Mesurau llwyddiant yn erbyn Cynllun Busnes 2016/17

Canfu ein hadolygiad blynyddol o arferion a pholisïau cydnabyddiaeth 'cwmnïau Lefel 1' (y rheini sy'n derbyn blaendaliadau a chwmnïau buddsoddi gyda mantolen dros £50bn) eu bod wedi gwneud llawer o waith i wreiddio ymddygiad a diwylliant yn eu harferion a'u polisïau cydnabyddiaeth y flwyddyn hon. Roedd gwelliannau amlwg ym mha mor soffistigedig oedd systemau a phrosesau cwmnïau i bennu gwobrau, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ymddygiad staff. Roedd cwmnïau'n parhau i ddefnyddio ffyrdd o addasu gwobrau i adlewyrchu perfformiad ymarferol gwael a chamymddwyn ar sail canlyniadau gwirioneddol. Roedd tuedd am i lawr ym maint yr adborth o ran goruchwyllo yr oedd ei angen yn y maes hwn, fel y nodir yn ffigur 4.6.

Ffigur 4.6: Categori'r adborth a roddwyd i bob cwmni Lefel 1 yn yr adolygiad blynyddol wrth ymateb i'w defnydd o ddulliau ar ôl digwyddiad



* Ar gyfer 2016/17 roedd 18 o gwmnïau yn hytrach nag 16

Pennod 5

Hybu cystadleuaeth

Gellir mesur cystadleuaeth iach ac effeithiol mewn nifer o wahanol ffyrdd. Pan fydd cystadleuaeth yn gweithio'n dda, bydd defnyddwyr yn teimlo bod grym yn eu dwylo a bod ganddynt ddigon o wybodaeth. Bydd cwmnïau, yn eu tro, yn gwneud eu gorau i ennill cwsmeriaid ar sail gwasanaeth, ansawdd, pris ac arloesedd. Mae hyn yn helpu i sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr. Ein nod yw gwneud yn siŵr bod cwmnïau llwyddiannus, cystadleuol ac arloesol yn ffynnu, a bod cwmnïau sydd ddim yn gystadleuol yn newid eu ffyrdd neu'n ymadael.

Mae cystadleuaeth yn gallu cael ei wanhau mewn sawl ffordd. Er enghraifft, efallai nad yw cwmnïau'n darparu gwybodaeth glir i helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau doeth am wasanaethau cymhleth, neu efallai y byddant yn manteisio ar ddiffyg dealltwriaeth cwsmeriaid neu dueddiadau ymddygiad. Yn ogystal â hyn, gallai rhwystrau sy'n atal cwmnïau newydd rhag cael mynediad olygu nad oes raid i gwmnïau sydd wedi'u sefydlu weithio'n galed i gadw cwsmeriaid.

Ein nod yw hybu cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr yn y marchnadoedd a reoleiddiwn. Mae gennym ddyletswydd o ran cystadleuaeth hefyd. Cyn belled ag y bo hynny'n cyd-fynd â'r dasg o

hybu ein hamcanion o ran uniondeb y farchnad neu ddiogelu defnyddwyr, mae'r Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol yn dweud ei bod yn rhaid i ni gyflawni ein swyddogaethau cyffredinol mewn ffordd sy'n hybu cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr. Mae'r mandad hwn yn rhoi'r grym i ni adnabod problemau o ran cystadleuaeth a rhoi sylw iddynt, ac yn gofyn i ni fabwysiadu dull pro-gystadleuol o ymdrin â rheoleiddio. Mae'r mandad hwn hefyd yn cydnabod potensial cystadleuaeth i hybu ein hamcanion gweithredol.

Mae gennym hefyd bwerau (ein 'swyddogaethau cydredol') i wneud y canlynol:

- cynnal astudiaethau marchnad (yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol a Deddf Menter 2002)
- gorfodi gwaharddiadau Deddf Cystadleuaeth 1998 a'r Cytuniad ar Swyddogaethau'r Undeb Ewropeaidd ar y cyd â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)
- cyfeirio ymchwiliadau marchnad sy'n ymwneud â'r sector gwasanaethau ariannol at y CMA.

Rydym o'r farn bod ein swyddogaethau cydredol yn cyd-fynd â'r pwerau sydd gennym yn barod (gan gynnwys y rheini sy'n dod o dan y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol) ac yn rhoi ffordd arall i ni sicrhau bod



Mae cystadleuaeth effeithiol yn cymell cwmnïau i ddarparu'r hyn sydd ei eisiau ar ddefnyddwyr a rhoi gwerth am arian mewn modd mor effeithlon ac arloesol â phosibl



Gall defnyddwyr gwybodys sy'n ymgysylltu chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ysgogi cystadleuaeth effeithiol rhwng cwmnïau

marchnadoedd gwasanaethau ariannol yn gweithio'n dda er budd defnyddwyr.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn amlinellu rhywfaint o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud i ddatblygu ein dyletswydd a'n hamcan o ran cystadleuaeth ymhellach. Mae rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gystadleuaeth ar gyfer 2016/17, sydd ar gael ar ein gwefan.

Astudiaethau marchnad

Gallwn gynnal astudiaethau marchnad yn unol â Ddeddf Menter 2002 neu'r Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol. Byddwn yn penderfynu ar y llwybr priodol fesul achos.

Rydym wedi defnyddio ein pwerau o dan y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol agor nifer o astudiaethau marchnad gan, ac yn dal i wneud hynny. Mae'r gwaith hwn yn cael ei esbonio'n fanylach isod. Nid ydym wedi agor nac wedi cau unrhyw astudiaethau marchnad o dan Ddeddf Menter 2002 yn y flwyddyn a fu, ac nid oes astudiaethau marchnad o'r fath yn cael eu cynnal ar hyn o bryd.

Cardiau credyd

Roedd canfyddiadau terfynol ein hastudiaeth marchnad cardiau credyd, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, yn dangos:

- bod defnyddwyr yn edrych o gwmpas i weld beth sydd ar gael, yn newid darparwyr, ac yn gweld gwerth yn natur hyblyg cardiau credyd
- bod cystadleuaeth yn canolbwyntio ar nodweddion cynnyrch penodol, fel gwobrau a chynigion hyrwyddo Mae llai o bwysau cystadleuol ar gyfraddau llog sydd ddim yn rhan o gynigion hyrwyddo ac ar ffioedd a chostau eraill
- bod y dewis o gynnyrch a darparwyr yn fwy cyfyngedig i ddefnyddwyr risg uwch
- bod gwaith dadansoddi newydd yn gwneud i ni deimlo'n fwy pryderus am ddyledion cardiau credyd hirdymor

Rydym wedi cynnig pecyn o atebion i alluogi defnyddwyr i siopa o gwmpas yn

fwy effeithiol, i gyllidebu'n fwy effeithiol ac i ad-dalu eu dyledion yn gynt. Roedd y rhain yn cynnwys:

- safonau cliriach ar gyfer gwefannau cymharu a phrosesau chwilio am ddyfynbris
- rhoi gwybod i gwsmeriaid pryd y bydd cyfnodau cynigon arbennig yn dod i ben
- adnabod cwsmeriaid sydd mewn dyled o hyd neu sydd mewn perygl o wynebu problemau ariannol, a chymryd camau priodol
- rhoi gwybod i bobl pan fyddant yn cyrraedd terfynau credyd
- rheolyddion ar gynyddu terfynau credyd, gan gynnwys gwell rheolaeth i gwsmeriaid

Ar 3 Ebrill 2017, cyflwynwyd papur ymgynghori a oedd yn cynnig rheolau newydd i fynd i'r afael â dyledion cardiau credyd parhaus a hybu prosesau ymyrryd yn gynt. Roedd hyn yn cynnwys mynnu bod cwmnïau'n cymryd mwy a mwy o gamau i annog cwsmeriaid i ad-dalu dyledion yn gynt, ac osgoi mynd i ddyled barhaus yn y lle cyntaf. Os nad yw cwsmeriaid sydd mewn dyled barhaus yn gallu fforddio ad-dalu'r balans mewn cyfnod rhesymol, byddai angen i gwmnïau gymryd camau i'w galluog i wneud hynny. Gallai hynny gynnwys gostwng y gyfradd llog. Fe wnaethom hefyd amlinellu cytundeb gwirfoddol ar gyfer y diwydiant i roi mwy o reolaeth i gwsmeriaid dros gynydd mewn terfynau credyd. Yn sgil hyn, bydd y diwydiant yn rhoi gwell rheolaeth i gwsmeriaid presennol a newydd dros gynydd yn y terfynau gwario sy'n berthnasol i'w cardiau credyd.

Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried yr adborth a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad, a gan ddibynnu ar natur yr ymatebion, rydym yn disgwyl cyhoeddi'r rheolau terfynol mewn datganiad polisi yn nes ymlaen yn 2017.

Bancio corfforaethol a buddsoddiadau

Roedd ein hastudiaeth marchnad o'r farchnad bancio corfforaethol a buddsoddiadau yn canolbwyntio ar y prif farchnadoedd ac ar weithgareddau cysylltiedig a ddarperir yn y DU.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad terfynol ym mis Hydref 2016. Canfuom fod llawer o gleientiaid yn credu bod y model bancio cyffredinol o drawsverthu a thrawsgymorthdalau gan wasanaethau brocera corfforaethol a benthyca i wasanaethau prif farchnadoedd yn gweithio'n dda iddyn nhw. Roedd hyn yn arbennig o wir i gleientiaid corfforaethol mawr.

Fodd bynnag, canfuom hefyd y gallai rhai arferion gael effaith negyddol ar gystadleuaeth, yn enwedig i gleientiaid llai. O ganlyniad, aethom ati i lunio set benodol o atebion i roi sylw i'r pryderon hyn a sicrhau bod cystadleuaeth yn digwydd ar sail teilyngdod yn unig. Roedd yr atebion hyn yn cynnwys gwahardd cymalau caeth mewn contractau, rhoi diwedd ar dablau cynghrair hawdd eu camddehongli pan fydd banciau yn gwerthu i gleientiaid, cael gwared ar gymhellionau i fasnachau sy'n gwneud colled ddringo tablau cynghrair, rhaglen oruchwyliol ar gyfer dyraniadau Cynigion Cyntaf i'r Cyhoedd (IPO) ac adolygu'r broses ar gyfer hynny.

Rheoli asedau

Mae diwydiant rheoli asedau'r DU yn rheoli gwerth bron i £7tn o asedau unigolion a sefydliadau. Mae dros dri chwarter yr aelwydydd yn y DU sydd â phensiynau galwedigaethol neu bersonol yn defnyddio gwasanaethau rheoli asedau. Yn 2015, cychwynwyd astudiaeth marchnad i asesu sut mae rheolwyr asedau yn cystadlu i gynnig gwerth am arian.

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddasom ein hadroddiad interim. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad terfynol yn 2017. Mae ein canfyddiadau interim yn awgrymu bod y gystadleuaeth o ran prisiau yn wan mewn sawl rhan o'r diwydiant rheoli asedau. Er bod prisiau cronfeydd sy'n cael eu rheoli'n oddefol wedi disgyn, mae'r prisiau ar gyfer cronfeydd gweithredol wedi aros yn sefydlog. Er bod nifer fawr o gwmnïau'n gweithredu yn y farchnad, mae elw'r diwydiant rheoli asedau wedi gweld elw cyson uchel dros lawer o flynyddoedd. Canfuom hefyd nad yw buddsoddwyr bob amser yn gwybod yn iawn beth yw amcanion cronfa, ac nad yw rheolwyr



Drwy gyhoeddi data'r cynllun peilot, rhoddwyd dangosyddion gwerth cyffredin i grwpiau defnyddwyr, sylwebyddion y farchnad a defnyddwyr eraill i'w helpu i asesu cynnyrch a chymharu â chwmnïau eraill.



cronfeydd bob amser yn adrodd ar berfformiad yn erbyn meincnod priodol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i fuddsoddwyr asesu hyn yn ystyrlon.

Yn ein hadroddiad interim, cynigiwyd pecyn o atebion i wneud i gystadleuaeth weithio'n well yn y farchnad hon ac amddiffyn y rheini sydd â'r lleiaf o allu i ymgysylltu'n effeithio â'r sawl sy'n rheoli eu hasedau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dyletswydd gryfach ar reolwyr asedau i weithredu er budd gorau eu cleientiaid
- diwygiadau i ddal rheolwyr asedau'n fwy atebol
- cyflwyno ffi sy'n cynnwys popeth er mwyn ei gwneud yn hawdd i fuddsoddwyr weld beth sy'n cael ei dynnu o'u cronfa
- mesurau i helpu buddsoddwyr adwerthol i ddod o hyd i'r gronfa fwyaf priodol.

Daeth pryderon helaeth i'r amlwg yn y sector ymgynghori ym maes buddsoddi hefyd, a'r rheini'n ymwneud â'r ochr galw a'r ochr cyflenwad. Felly ymgynghorwyd hefyd i weld a ddylid cyfeirio ymchwiliad marchnad i'r CMA ar y farchnad hon.

Buom yn ymgynghori ar y canfyddiadau ac ar yr atebion posibl a nodwyd yn yr adroddiad interim ac yn cysylltu'n eang â rhanddeiliaid i ddod o hyd i safbwyntiau a thystiolaeth drwy drafodaethau bwrdd crwn ar ôl y cyhoeddiad.

I gyd-fynd â'r gwaith hwn, ym mis Ebrill 2016, cynhaliwyd adolygiad thematig i asesu a oedd mandadau wedi'u gwahanu a chronfeydd buddsoddi a awdurdodwyd yn y DU yn cael eu gweithredu'n unol â disgwiliadau buddsoddwyr o fandadau buddsoddi a deunyddiau datgelu a marchnata. Mae'n bwysig bod y deunydd hwn yn gywir ac yn glir gan fod buddsoddwyr yn ei ddefnyddio fel sail i benderfyniadau ynglŷn â buddsoddi mewn cronfeydd buddsoddi awdurdodedig. Ar ôl dod o hyd i wendidau yn yr arferion presennol, nod ein hadroddiad oedd sicrhau'r canlynol:

- bod disgrifiadau cynnyrch yn glir ac yn gywir
- proses lywodraethu a goruchwyliaeth effeithiol drwy gydol oes cronfa, gan gynnwys cronfeydd sydd ddim yn cael eu marchnata rhagor
- adnabod tueddiadau a allai ddangos gwerthiannau amhriodol drwy fonitro'r sianeli dosbarthu y mae darparwyr cynnyrch yn eu dewis fel rhan o'u cyfrifoldebau.

Cynnyrch ychwanegol cyffredinol wrth brynu yswiriant: atebion

Roedd ein hastudiaeth marchnad yn dangos nad yw cystadleuaeth ar gyfer cynnyrch ychwanegol wrth brynu yswiriant (cynnyrch sy'n cael ei werthu ochr yn ochr â'r 'cynnyrch sylfaenol' neu yn eu sgil) yn effeithiol yn aml iawn. Yn bur aml, nid yw defnyddwyr yn ymwybodol eu bod wedi prynu cynnyrch ychwanegol neu nad yw'r cynnyrch hwnnw'n werth da am arian ac yn diwallu eu hanghenion.

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddwyd data yn ein cynllun peilot cyffredinol ar gyfer mesur gwerth yswiriant. Mae'r rhain yn cynnwys pa mor aml y gwneir hawliadau, cyfraddau derbyn hawliadau a'r hawliadau a delir gan yswirwyr ar gyfartaledd ar gyfer pedwar math o gynnyrch yswiriant:

- yswiriant cartref (adeiladau a chynnwys)
- yswiriant argyfwng ar gyfer y cartref
- yswiriant damweiniau personol a werthir fel cynnyrch ychwanegol ar ben yswiriant cartref neu yswiriant cerbyd
- yswiriant allweddi a werthir yn ychwanegol at yswiriant cerbyd

Drwy gyhoeddi data'r cynllun peilot, rhoddwyd dangosyddion gwerth cyffredin i grwpiau defnyddwyr, sylwebyddion y farchnad a defnyddwyr eraill i'w helpu i asesu cynnyrch a chymharu â chwmnïau eraill. Disgwiliwn y bydd y data hyn yn gwella tryloywder yn y marchnadoedd hyn, yn dylanwadau ar ymddygiad y defnyddiwr a'r cwmni, ac yn cymhell cwmnïau i wella gwerth y cynnyrch a gynigir i ddefnyddwyr. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r ail set

ddata ar gyfer y cynllun peilot ym mis Ionawr 2018.

Morgeisi

Yn yr astudiaeth marchnad, a fydd yn canolbwyntio ar forgeisi cyntaf, byddwn yn ystyried dau gwestiwn eang:

- Ar bob cam o siwrnai'r defnyddiwr, a yw'r adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys cyngor) yn helpu'r rheini sy'n ceisio cael morgais i wneud penderfyniadau effeithiol?
- A yw trefniadau masnachol rhwng benthycwyr, broceriaid ac eraill yn arwain at wrthdaro rhwng buddiannau neu gymhellion sydd ddim yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr?

Wrth gyfeirio at 'adnoddau', rydym yn golygu unrhyw ffynonellau cymorth y gallai defnyddiwr eu defnyddio wrth siopa o gwmpas neu ddewis cynnyrch, er enghraifft, gwybodaeth am gynnyrch a ddarperir yn uniongyrchol gan fenthycwyr, gwefannau cymharu prisiau neu dablau sy'n dangos y cynnyrch gorau sydd ar gael a chyfrifanellau morgais, yn ogystal â chyngor (p'un a yw'n cael ei ddarparu gan fenthyciwr neu gan frocer).

Byddwn hefyd yn ystyried a oes cyfleoedd i ddefnyddio gwell atebion technolegol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau, gan gynnwys lle mae rhwystrau rhag cyflwyno gwybodaeth neu gyngor yn effeithiol drwy sianeli digidol. Disgwyliwn gyhoeddi'r adroddiad interim ar gyfer yr astudiaeth hon o'r farchnad, ynghyd â'n dadansoddiadau a'n casgliadau cychwynnol, ddiwedd haf 2017.

Yr Uned Sefydlu Banciau Newydd

Menter ar y cyd rhwng y PRA a'r FCA yw'r Uned Sefydlu Banciau Newydd. Mae'n rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i fanciau sydd newydd gael eu hawdurdodi a chwmmiau sy'n ystyried sefydlu banc newydd yn y DU.

Y nod yw lleihau'r rhwystrau sy'n atal darpar fanciau rhag cael mynediad, gan sbarduno cystadleuaeth ac arloesedd i hyrwyddo gwell canlyniadau i ddefnyddwyr.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae wyth banc newydd wedi cael ei awdurdodi.

Y Gyfarwydddeb Gwasanaethau Talu II (PSD2)

Dyma ddeddfwriaeth yr UE i reoleiddio cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau talu. E nod yw hybu arloesedd a chystadleuaeth mewn gwasanaethau talu drwy sicrhau chwarae teg i ddarparwyr gwasanaethau talu, drwy leihau costau, gwella diogelwch taliadau a diogelwch defnyddwyr, a gwneud yn siŵr bod gwasanaethau talu newydd penodol yn cael eu cynnwys mewn rheoliadau. Mae'n rhaid i'r PSD2 fod yn rhan o gyfraith y DU erbyn 13 Ionawr 2018. Ni fydd yr awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am awdurdodi a goruchwyllo darparwyr gwasanaethau talu o dan PSD2. Y Rheoleiddiwr Systemau Talu fydd yn gyfrifol am elfennau penodol sy'n ymwneud â systemau talu.

Rydym wedi bod yn gweithio i hyrwyddo ein hamcanion strategol a gweithredol i gefnogi'r broses o roi PSD2 ar waith yn effeithiol. Rydym wedi ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid allanol, gan gynnwys y Trysorlys, Awdurdod Bancio Ewrop (EBA), cymdeithasau masnach, a'r rheini sy'n cynrychioli defnyddwyr a chwmmiau. Fe wnaethom gyflwyno papur ymgynghori ym mis Ebrill 2017 i adlewyrchu Rheoliadau Gwasanaethau Talu 2017, a gyflwynwyd gan y Trysorlys ym mis Chwefror 2017, sy'n rhoi PSD2 ar waith. Mae ein hymgyngoriad yn cynnwys cynigion ar gyfer canllawiau yn ein Dogfen Dull ddiwygiedig, sy'n cyfuno'r Dogfennau Dull presennol ar gyfer E-arian a Gwasanaethau Talu. Mae ein timau awdurdodi yn paratoi i dderbyn ceisiadau awdurdodi gan gwmnïau o 13 Hydref 2017 ymlaen. Mae ein timau goruchwyllo wedi bod yn gweithio i ddiweddau prosesau i'n galluogi i asesu adroddiadau a hysbysiadau newydd gan gwmnïau.

Yr EBA sy'n gyfrifol am roi rhai o'r darpariaethau ar waith, gan gynnwys llunio canllawiau a safonau technegol rheoleiddiol. Mae'r EBA yn ymgynghori ar y darpariaethau hyn ar wahân. Rydym wedi cysylltu ag ef i gynrychioli buddiannau'r DU wrth ddatblygu'r safonau a'r canllawiau hyn.

Defnyddio dulliau gorfodi cystadleuaeth

Yn 2016/17, fe wnaethom ddal ati i fwrw ymlaen â'n hymchwiliad presennol i gyd-arferion a chytundebau gwrthgystadleuol o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Fe wnaethom agor ymchwiliad newydd hefyd.

Rydym wedi defnyddio dulliau eraill i gryfhau'r lefelau cydymffurfio o dan y Ddeddf. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi rhoi 23 o llythyrau hysbysu i gwmnïau. Mae'r llythyrau hyn yn wahanol i llythyrau 'rhybudd preifat' a roddir o dan y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol. Byddwn yn anfon llythyrau hysbysu os yw'r dystiolaeth yn awgrymu achos posibl o dorri'r gyfraith cystadleuaeth, ond ein bod ni wedi penderfynu peidio â rhoi blaenoriaeth i agor ymchwiliad. O ganlyniad i'r llythyrau hyn, mae'r cwmnïau dan sylw wedi ymgymryd â nifer o gynlluniau i gryfhau'r lefelau cydymffurfio ym maes cystadleuaeth.

Rydym hefyd wedi anfon chwe llythyr cynghori. Bwriad y llythyrau hyn yw codi ymwybyddiaeth o gyfraith cystadleuaeth i sicrhau bod y cwmnïau perthnasol yn cydymffurfio'n well. Roedd y mathau o ymddygiad a oedd yn arwain at y ddau fath o lythyr yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth sensitif o safbwynt cystadleuaeth yn amhriodol ar draws ystod eang o sectorau gwasanaethau ariannol.

Mae ein rhaglen waith sy'n ymwneud â'r Ddeddf Cystadleuaeth yn cynnwys gweithio'n agos gyda phartion allanol, rheoleiddwyr eraill ac awdurdodau cystadleuaeth. Mae hyn yn cynnwys rhaglen amrywiol a pharhaus gyda chwmmiau, gweithwyr proffesiynol a chyrrff masnach. Er enghraifft, cynhaliwyd gweithdy ar gyfraith cystadleuaeth ym mis Medi 2016 i aelodau'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi, fel rhan o'n gwaith dilynol o'r cais am fewnbwn yn y sector morgeisi. Nod y digwyddiad oedd codi ymwybyddiaeth o gyfraith cystadleuaeth, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am ein rôl fel rheoleiddiwr cystadleuaeth cydredol ac elfennau hanfodol cyfraith cystadleuaeth.

Ymrwymïadau ein Cynllun Busnes – Technoleg ac arloesi

Mae technoleg yn chwarae rhan allweddol a chynyddol bwysig yn y broses o gyflwyno cynnyrch a gwasanaethau arloesol. Ein nod yw cael cydbwysedd rhwng cefnogi arloesedd sy'n dwyn budd i ddefnyddwyr a sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n briodol.

Cynyddu arloesedd a chystadleuaeth i ddefnyddwyr

Mae ein Hyb Arloesi wedi dal ati i gefnogi busnesau newydd a rhai sydd wedi'u sefydlu'n barod – rhai wedi'u rheoleiddio a rhai heb eu rheoleiddio – er mwyn gallu cyflwyno cynnyrch a gwasanaethau ariannol arloesol i'r farchnad pan mae'r rhain yn dwyn budd i'r defnyddwyr. Mae'r Hyb yn galluogi busnesau i ddeall y fframwaith rheoleiddiol a sut mae'n berthnasol iddyn nhw, ac mae'n rhoi cyngor ar y broses awdurdodi hefyd.

Mae ein blwch tywod rheoleiddiol yn rhoi cyfle i fusnesau brofi cynnyrch, gwasanaethau, modelau busnes a dulliau cyflawni arloesol mewn amgylchedd byw. Caiff profion eu cynnal ar raddfa fach am gyfnod byr, a byddwn yn gweithio gyda chwmnïau i gytuno ar y paramedrau profi ac i gynnwys mesurau sy'n diogelu defnyddwyr.

Drwy ymgysylltu ar lefel ryngwladol, mae'r Hyb Arloesi yn ceisio annog cwmnïau arloesol i ddod i'r DU, gan hybu arloesedd a chystadleuaeth yng ngwasanaethau ariannol y DU. I wneud hyn, rydym wedi llofnodi cytundebau cydweithredu â nifer o reoleiddwyr tramor. Hyd yn hyn, rydym wedi llofnodi cytundebau â saith rheoleiddiwr yn Awstralia, Singapôr, De Korea, China, Hong Kong, Canada a Japan.

Data Mawr

Rydym wedi gwella ein dealltwriaeth ynghylch sut mae cwmnïau yswiriant cyffredinol adwerthol yn defnyddio data a phrosesau dadansoddi. Mae Data Mawr yn sicrhau pob math o fanteision i ddefnyddwyr ym maes yswiriant cartref ac yswiriant cerbyd, ac mae hyn yn ei dro yn hybu mwy o arloesedd mewn cynnyrch a gwasanaethau. Er nad oeddem yn teimlo bod Data Mawr yn cyfyngu ar gystadleuaeth effeithiol ar hyn o bryd, nodwyd y gallai arwain at risg y byddai cwsmeriaid risg uwch yn cael eu heithrio rhag cael mathau penodol o gynnyrch. Mae'r potensial yno hefyd i gwmnïau wneud penderfyniadau prisio ar sail rhesymau eraill ar wahân i risg neu gost. Byddwn yn parhau i weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar faterion diogelu data perthnasol, ac rydym hefyd wedi dechrau edrych ar arferion prisio yn y farchnad yswiriant cyffredinol adwerthol.

Gwneud cydymffurfio'n symlach

Rydym wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau i geisio deall sut gallem ddefnyddio technoleg i helpu cwmnïau i ryngweithio â defnyddwyr, pa rôl y gallwn ni ei chwarae i ddatblygu a mabwysiadu technoleg reoleiddiol mewn gwasanaethau ariannol, a pha rwystrau rheoleiddiol sy'n atal arloesi neu fabwysiadu technoleg reoleiddiol mewn gwasanaethau ariannol.

Rydym wedi cynnal tri digwyddiad TechSprint i ddod â chyfranwyr at ei gilydd dros ddau ddiwrnod i weithio ar sialensiau cyffredin i asesu a datrys problemau yn y diwydiant. Byddwn yn parhau i ddefnyddio TechSprint fel un o'n hadnoddau rheoleiddiol i ystyried atebion i heriau eraill. Bydd yn gweithredu fel catalydd, yn helpu i ddatgloi manteision posibl arloesi ym maes technoleg ac yn annog y diwydiant gwasanaethau ariannol i fabwysiadu'r newidiadau hyn.

Gwella seilwaith a chadernid seiber cwmnïau

Mae cwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio yn dal i wynebu heriau o ran pa mor gyflym mae technoleg yn newid a'r arloesedd sydd ei angen i ymateb i ofynion cwsmeriaid sy'n newid o hyd – yn enwedig o ran mynediad at wasanaethau ariannol gan ddefnyddio sianeli digidol fel bancio ar ddyfeisiau symudol ac ar y rhyngwrwyd. Mae hyn yn rhoi straen ar hen amgylcheddau TG sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion gwahanol iawn.

I ymateb i hyn, rydym yn cryfhau ein dull o ddelio â gwydnwch gweithredol. Rydym yn cydweithio â Banc Lloegr, y PRA a'r Trysorlys i wella cadernid y seilwaith hanfodol sy'n sail i'r system ariannol.

Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau er mwyn gwneud yn siŵr nad yw methiannau o ran TG yn cael effaith negyddol ar gwsmeriaid nac ar uniondeb y farchnad. Os bydd methiannau difrifol, byddwn yn asesu gallu cwmnïau i wneud y canlynol:

- adfer gwasanaethau'n rhesymol ac yn gyflym
- cael dealltwriaeth glir o'r prif beth sydd wrth wraidd hynny
- cysylltu â'r cwsmeriaid a'r farchnad yn glir ac yn gyflym
- cymryd camau i leihau'r risg o wynebu digwyddiadau tebyg yn y dyfodol
- sicrhau bod defnyddwyr yn cael iawndal, os yw hynny'n briodol

Mae Banc Lloegr, y Trysorlys, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r FCA wedi cydweithio i lunio strategaeth gydweithredol a chydgyssylltiedig ar gyfer cadernid seiber. Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â strategaeth seiberddiogelwch genedlaethol y DU, ac mae'n ceisio asesu a yw cwmnïau sy'n achosi'r risg fwyaf yn "ymwybodol â'r bygythiad", yn gallu amddiffyn eu hunain yn effeithiol, ac yn gallu ymateb yn gymesur i ddigwyddiadau seiber. Hyd yn hyn, rydym wedi gwerthuso'r trefniadau cadernid seiber sydd ar waith gan 11 o fasnachwyr amlder uchel a 36 o yswirwyr cyffredinol a chyfryngwyr. Rydym yn bwriadu ymdrin â chwmnïau ar draws y sbectrwm gwasanaethau ariannol yn 2017/18. Rydym hefyd wedi cyfrannu at syniadau rhyngwladol ynghylch cadernid seiber, gan gynnwys Hanfodion Seiber G7 a chanllawiau CPMI-IOSCO ar gadernid seiber ar gyfer Seilweithiau Marchnad Ariannol.

Yn 2016, lanswyd ein cynllun Grŵp Cydgysylltu Seiber, sy'n dod ag oddeutu 150 o gwmnïau o bob rhan o'r sector ariannol at ei gilydd. Bydd y Grŵp yn rhannu gwybodaeth, yn codi ymwybyddiaeth o fygythiadau a chadernid seiber effeithiol, yn trafod ac yn gweithio ar y cyd i ddod o hyd i ffyrdd o strwythuro ymdrechion effeithiol ar gyfer adfer, ac yn gwella cadernid y sector ariannol yn gyffredinol. I gyd-fynd â'r gwaith hwn, rydym wedi dal ati i weithio gyda chwmnïau i oruchwylio ymatebion priodol a chymesur i ddigwyddiadau seiber.




**Ein nod yw cael
cydbwysedd rhwng
cefnogi arloesedd sy'n
dwyn budd i ddefnyddwyr
a sicrhau bod defnyddwyr
yn cael eu diogelu'n
briodol.**



Mesurau llwyddiant yn erbyn Cynllun Busnes 2016/17

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Hyb Arloesi wedi cael 371 o geisiadau am gymorth gan gwmnïau sy'n awyddus i gyflwyno gwasanaethau a chynnyrch ariannol arloesol i'r farchnad (o'i gymharu â 319 yn 2015/16). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynyddu lefelau boddhad cyffredinol y cwmnïau sydd wedi dod i gysylltiad â'r Hyb Arloesi. Cyn 2016/17, roedd 73% o'r cwmnïau'n dweud bod eu profiad cyffredinol o'r Hyb Arloesi yn dda neu'n ardderchog. Mae hyn wedi cynyddu i 79% gan gynnwys y flwyddyn 2016/17.

Yng nghohort cyntaf y blwch tywod rheoleiddiol, roedd 24 o geisiadau (allan o 69) yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, gydag 18 o gwmnïau'n cynnal profion. Roedd 77 o gwmnïau wedi gwneud cais yn yr ail gohort, ac roedd 31 yn bodloni'r meini prawf cymhwys. Mae dau gwmni ar bymtheg o'r Hyb Arloesi wedi mynd ymlaen i fod yn gwmnïau cwbl awdurdodedig.



Pennod 6

Sut rydym yn rheoleiddio

Ni yw'r rheoleiddiwr ymddygiad ar gyfer holl ddiwydiant gwasanaethau ariannol y DU a'r rheoleiddiwr darbodus ar gyfer 18,000 o gwmnïau wedi'u hawdurdodi. Gyda chylch gwaith mor helaeth, mae angen i ni sicrhau bod yr adnoddau rydym yn eu defnyddio i reoleiddio'r farchnad yn gymesur ac yn effeithiol.

Ein hegwyddorion a'n swyddogaethau rheoleiddio

O dan FSMA, mae gennym swyddogaethau amrywiol, gan gynnwys llunio rheolau o dan FSMA, rhoi arweiniad cyffredinol, goruchwyllo ac awdurdodi cwmnïau.

Pan fyddwn yn rhoi ein swyddogaethau cyffredinol ar waith, rydym yn ystyried yr egwyddorion rheoleiddio canlynol er mwyn sicrhau rheoleiddio da:

- effeithlonrwydd ac economi
- cyfranoldeb
- twf cynaliadwy
- cyfrifoldeb defnyddwyr
- cyfrifoldeb uwch reolwyr i gydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddiol
- cydnabod y gwahaniaethau rhwng busnesau a gafodd eu cynnal gan wahanol bobl wedi'u rheoleiddio
- didwylledd a datgeliad
- tryloywder

Mae'r egwyddorion rheoleiddiol hyn yn sail i'n holl waith ac maent i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd. Yn unol â gofynion FSMA, rydym yn cynnwys datganiad cydnawsedd yn ein papurau ymgynghori. Mae hyn yn egluro pam rydym yn credu bod ein cynigion yn gydnaws â'n dyletswydd i ystyried yr egwyddorion, gan gydnabod na fydd yr holl egwyddorion bob amser yn berthnasol ym mhob achos ac y gallai mwy nag un egwyddor gael ei gynnwys mewn unrhyw gyd-destun penodol.

Mae darnau penodol o waith yn dangos hyn. Er enghraifft, fel rhan o'n proses o roi'r Drefn Uwch Reolwyr ac Ardystio ar waith, a eglurir ym mhennod 4 (o dan y pennawd Diwylliant a threfniadau llywodraethu cwmnïau), fe wnaethom ystyried yr egwyddorion canlynol wrth berfformio ein swyddogaeth llunio rheolau – cyfrifoldeb uwch reolwr i gydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio, cymesuredd, didwylledd a datgeliad, a thryloywder.

Mae ein gwaith ar werth am arian (a eglurir yn nes ymlaen yn y bennod hon), sy'n berthnasol i ddarpariaeth ein holl swyddogaethau, yn canolbwyntio'n benodol ar egwyddor effeithlonrwydd ac economi, yn ogystal â chymesuredd, twf cynaliadwy a thryloywder.



Rydym yn chwarae rôl bwysig fel didolwr ar gyfer cwmnïau sydd eisïau ymuno â'r farchnad.



Mae ein gwaith i sicrhau bod cwmnïau yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am werthiant blwydd-daliadau (a amlinellir yn ein thema Pensiwn ym mhennod 3) yn enghraifft arall o'r modd rydym yn cyflawni ein swyddogaethau llunio rheolau a rhoi arweiniad. Mae'n dangos sut rydym yn ceisio annog y gwaith o roi rhagor o gyfrifoldeb ar ddefnyddwyr i wneud penderfyniadau priodol am eu dewisiadau ymddeol.

Mae ein rheolau ar gyfer awdurdodi cwmnïau, a'r safonau y mae'n rhaid i gwmnïau eu cynnal, yn amrywio yn ddibynnol ar natur y busnes a gafodd ei gynnal gan wahanol bobl wedi'u rheoleiddio. Rydym yn dal cwmnïau sy'n peri risg systemig fwy i farchnadoedd yn atebol i safonau mwy llym, gan adlewyrchu ein hagwedd gymesur tuag at reoleiddio. Mae ein gwaith ar arloesi a'r blwch tywod rheoleiddiol (a drafodir ym mhennod 5) hefyd yn adlewyrchu sut rydym yn adnabod ein gwahanol fodolau busnes.

Gwneud rheolau er mwyn sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda

Rydym yn defnyddio ein pwerau llunio polisi i hybu ac i ddarparu rheolau cadarn ac ymarferol sy'n cefnogi ein hamcanion. Mae hyn yn berthnasol i'r polisi rydym yn ei ddatblygu ein hunain a'n gwaith gyda gwneuthurwyr polisi allanol.

Caiff ein gwaith polisi ei arwain gan yr egwyddorion canlynol. Rydym yn:

- blaenoriaethu ac yn targedu ein gweithgarwch polisi lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf
- llunio rheolau a chanllawiau newydd a'u cefnogi, dim ond os ydym yn credu y byddant yn effeithiol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem berthnasol, ac yn gymesur â hi.
- adolygu ein rheolau pan fyddwn o'r farn nad ydynt yn cyflawni'r amcanion cywir mwyach
- ceisio dylanwadu ar agendâu ac amserlenni rhyngwladol ac Ewropeaidd. Fel arfer, ein dull cyffredinol o roi deddfwriaeth yr UE ar waith yw 'copio'n ddeallusol' y gofynion y cytunwyd arnynt i'n Llawlyfr, a dim ond mynd y tu hwnt

i'r hyn sy'n ofynnol os byddwn yn ystyried bod hyn yn gymesur. Pan ydym wedi gwneud hynny yn y gorffennol, mae wedi bod er mwyn cynnal safonau diogelu defnyddwyr sy'n bodoli eisoes, neu i leihau afluniad cystadleuol posibl i'r graddau mwyaf posibl, ac mae hyn bob amser law yn llaw ag ymgynghoriad â'r cyhoedd a dadansoddiadau cost-budd.

Awdurdodi cwmnïau sy'n ceisio ymuno â'r farchnad

Mae angen i gwmnïau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ariannol gystadlu'n effeithiol, rhedeg eu busnesau er budd gorau'r defnyddwyr a chynnal uniondeb y farchnad. Rydym yn chwarae rôl bwysig fel didolwr ar gyfer cwmnïau sydd eisïau ymuno â'r farchnad. Rydym yn asesu cwmnïau, ac unigolion lle bo hynny'n briodol, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni ein safonau. Mae hyn yn cynnwys archwilio cynaliadwyedd modelau busnes cwmnïau, yn ogystal â pha mor addas a phriodol yw unigolion.

Yn 2016/17, cawsom nifer fawr o geisiadau unwaith eto:

- 3,540 o geisiadau am awdurdodi cwmnïau credyd defnyddwyr
- 1,072 o geisiadau am awdurdodi cwmnïau credyd heb fod yn rhai defnyddwyr
- 2,474 o geisiadau am amrywio hawliau
- 2,011 o hysbysiadau ynghylch newid rheolaeth
- 366 o geisiadau am hepgoriad perthnasol
- 15,757 o gofrestriadau, dad-gofrestriadau ac achosion cysylltiedig â chymdeithasau cydfuddiannol
- 7,771 o achosion yng nghyswllt pasbortau, gan gynnwys:
 - 423 o basbortau newydd i mewn neu ychwanegu pasbortau am i mewn
 - 899 a basbortau allan neu ychwanegu pasbortau am allan
 - 6,449 o hysbysiadau i ddiwygio neu ganslo pasbortau sy'n bodoli eisoes

- 65,282 o geisiadau pobl wedi'u cymeradwyo
- 8,330 o asiantau gwasanaeth taliadau'r DU wedi cofrestru

Rydym yn asesu pob cais ac yn nodi ei fod wedi'i awdurdodi, ei wrthod neu ei dynnu'n ôl.

Rydym yn monitro ein perfformiad yn erbyn mwy nag 20 o ofynion statudol, yn ogystal â nifer o safonau gwasanaethau gwirfoddol. Rydym yn ceisio bodloni safonau gwasanaethau gwirfoddol a statudol ac yn tanlinellu eu pwysigrwydd drwy ddefnyddio achosion tracio rheolaidd, rhoi adborth i staff yn gyson a blaenoriaethu adnoddau. Yn achlysurol, mae ffactorau eithriadol yn golygu efallai na fydd yn bosibl pennu achosion am reswm sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ac felly rydym yn adrodd ar ganran yr achosion lle gwnaethom fodloni amseriad y gwasanaeth.


Fe wnaethom gwblhau rhan helaeth o'r gwaith o drosglwyddo awdurdodiad cwmnïau credyd defnyddwyr o'r Swyddfa Masnachu Teg eleni, gyda 99.3% o'r ceisiadau yn cael eu pennu. Byddwn yn cwblhau'r nifer bach o geisiadau gan gwmnïau credyd defnyddwyr â hawliau dros dro sydd heb eu pennu yn ystod 2017. Mae'r ceisiadau hyn yn achosion mwy cymhleth y mae'n cymryd mwy o amser i ni wneud penderfyniad yn eu cylch, gan gynnwys cwmnïau rheoli dyled masnachol a llwyfannau rhwng cymheiriaid.

Fel y dengys ffigur 6.1, mae nifer yr awdurdodiadau sy'n ymwneud â chredyd heb fod yn rhai defnyddwyr wedi aros yn gymharol gyson. Ar ôl diwedd y cyfnod ymgeisio ar gyfer hawliau cwmnïau credyd defnyddwyr ar 31 Mawrth 2016, mae nifer y ceisiadau newydd sy'n berthnasol i gredyd defnyddwyr wedi gostwng yn sylweddol, yn ôl y disgwyl.

Mae cyfran fechan o'r cwmnïau yn tynnu eu ceisiadau'n ôl yn ystod y cyfnod pennu (ffigur 6.2). Mae hyn yn digwydd am nifer o resymau, gan gynnwys ei bod yn dod i'r amlwg ein bod yn debygol o wrthod y cais.


Mae'r amser prosesu cyfartalog (ffigur 6.3) yn dangos yr amser a dreulir yn ystyried ceisiadau a gafodd eu dyfarnu yn ystod y cyfnod ond nid yw'n cynnwys

Ffigur 6.1: Nifer y ceisiadau am awdurdodiadau newydd




Ffigur 6.2: Nifer yr awdurdodiadau a gafodd eu cymeradwyo, eu gwrthod neu eu dynnu'n ôl

Prosesau cwmnïau craidd




Pobl a phasbortau wedi'u cymeradwyo




Nodyn: Mae prosesau cwmnïau craidd yn cyfeirio at y mathau o geisiadau a restrir yn ffigur 6.3, yn ogystal â cheisiadau am newid rheolaeth a chanslo

Ffigur 6.3: Yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau, mewn wythnosau



Ffigur 6.4: Perfformiad yng nghyswllt safonau gwasanaeth statudol, ac achosion o'u torri



achosion a dderbyniwyd ond na wnaed penderfyniad yn eu cylch. Gall fod yn gamarweiniol mesur amseroedd prosesu cyfartalog achosion nad ydynt ond wedi'u cydnabod ar ôl eu cau oherwydd mae hyn yn tueddu i dangofnodi pryd mae hyd achosion agored yn tyfu, ac yn gorliwio pryd mae hyd cyfartalog achosion agored yn cael ei dynnu'n ôl i lawr. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn clirio ein hachosion awdurdodi hyn a rhai newydd mwy cymhleth. Cododd yr amseroedd prosesu cyfartalog rywfaint, o 22 wythnos yn 2015/16 i 23 wythnos yn 2016/17.

Mae ffigur 6.4 yn dangos sawl gwaith cafodd y safonau gwasanaeth unigol eu bodloni neu eu methu yn ystod y flwyddyn. Nid yw rhai safonau gwasanaeth bob amser yn berthnasol bob mis (er enghraifft, os nad ydym yn cael unrhyw achosion perthnasol y mis hwnnw), felly gall cyfanswm y safonau sy'n cael eu methu neu eu bodloni amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth am safonau gwasanaeth, ewch i bennod 2 yr adroddiad hwn.

Er bod gostyngiad bach wedi bod o ran ein perfformiad o gymharu â 2015/16, mae ein perfformiad wedi gwella llawer ers y pwynt isel blaenorol ddiwedd 2014/15.

Sut rydym yn goruchwyllo cwmnïau

Rydym yn goruchwyllo cwmnïau yn strategol a thrwy edrych ymlaen, gan

geisio lliniaru risgiau yng nghyswllt ymddygiad cyn iddynt achosi niwed arwyddocaol i gwsmeriaid neu farchnadoedd. Rydym yn asesu strategaethau a modelau busnes cwmnïau er mwyn canfod risgiau sy'n dod i'r amlwg ac i sicrhau bod ein gweithgarwch goruchwyllo yn bwrpasol ar gyfer y niwed posibl y mae pob cwmni'n ei gyflwyno.

Poblogaeth fechan o gwmnïau yw grwpiau portffolio sefydlog (o'r holl rai rydym yn eu rheoleiddio). Yn seiliedig ar ffactorau fel maint, presenoldeb yn y farchnad ac ôl troed cwsmeriaid, gallant gael yr effaith fwyaf ar ddefnyddwyr neu farchnadoedd felly mae gofyn am y lefel uchaf o'n sylw goruchwyllo. Rydym yn pennu goruchwyllo neu dîm goruchwyllo ar gyfer y cwmnïau hyn, sy'n eu goruchwyllo'n rhagweithiol gan ddefnyddio dull asesu parhaus.

Caiff y mwyafrif helaeth o gwmnïau eu pennu'n rhai 'portffolio hyblyg'. Yng nghyswllt cwmnïau hyblyg, rydym yn delio â materion cyfredol neu rai sy'n dod i'r amlwg ar sail ein parodrwydd i wynebu risg, gan geisio mynd i'r afael â'r niwed neu'r niwed posibl mewn modd mor effeithlon â phosibl. Mae'r cwmnïau hyn yn defnyddio ein Canolfan Gysylltu fel eu prif bwynt cyswllt â ni, ond rydym yn uwchgyfeirio'r achosion mwyaf difrifol at eu tîm goruchwyllo portffolio.

Rydym yn symud tuag at oruchwyllo'r cwmnïau hyn yn unol â phortffolios cwmnïau tebyg. Bydd tîm goruchwyllo

penodol yn gyfrifol am bob portffolio o gwmnïau. Bydd y tîm yn cynnal dadansoddiadau ledled y portffolio, gan weithredu yng nghyswllt cwmnïau risg uchel ac egluro ymarfer da i'w portffolio.

Ffigur 6.5: Nifer y cwmnïau ym mhob sector

Sector	Nifer y cwmnïau
Marchnadoedd Ariannol Cyfanwerthol	1,650
Rheoli Buddsoddiad	3,000
Buddsoddiadau Adwerthu	5,850
Incwm Ymdeoliad a Phensiynau	230
Bancio Adwerthu	1,300
Benthyca Adwerthu	30,000
Diogelwch ac Yswiriant Cyffredinol	5,800

Sylwch nad yw hyn yn cynnwys tua 8,000 o gwmnïau awdurdodedig yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sydd heb gael eu dyrannu i sector penodol eto.

Yr adnoddau rydym yn eu defnyddio i oruchwyllo cwmnïau

Mae ein model goruchwyllo wedi'i seilio ar dri hanfod gweithgarwch goruchwyllo:

- Mae Hanfod I yn rhaglen o oruchwyliaeth ragweithiol penodol i'r cwmni ar gyfer y cwmnïau a'r grwpiau pwysicaf mewn sector
- Mae Hanfod II yn oruchwyliaeth ymatebol seiliedig ar ddigwyddiadau, sy'n canolbwyntio ar ddelio â risgiau crisialu neu sydd wedi'u crisialu yn unol â'n parodrwydd i wynebu risg
- Hanfod III yw ein dull thematig, lle rydym yn canolbwyntio ar risgiau a materion ledled y sector cyfan

Ymyriadau Hanfod I yn y farchnad

Er bod gennym set sylfaenol o weithgareddau goruchwyllo ar gyfer cwmnïau sefydlog, mae ein dull yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'n goruchwylwyr ddefnyddio eu crebwyll wrth benderfynu ar y lefel briodol o weithgarwch goruchwyllo ar gyfer cwmnïau unigol, gan gynnwys cwmnïau hyblyg risg uchel.

Ffigur 6.6: Cyfarfodydd â chwmnïau Hanfod I fesul Sector Goruchwyliaeth Portffolio Sefydlog ar gyfer 2016/17

Sector	Cyfarfodydd cwmnïau
Marchnadoedd Ariannol Cyfanwerthu	1,724
Rheoli Buddsoddiad	130
Buddsoddiadau Adwerthu	166
Incwm Ymddeoliad a Phensiynau	339
Bancio Adwerthu	980
Benthyca Adwerthu	236
Diogelwch ac Yswiriant Cyffredinol	925

Rydym yn defnyddio cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb ag uwch reolwyr mewn cwmnïau (ffigur 6.6) er mwyn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth briodol a chyfredol o fodel busnes y cwmni, ei weithrediadau, ei uwch unigolion allweddol a'u cyfrifoldebau, yn ogystal â'i drefniadau llywodraethu a diwylliant. Mae'n bwysig ein bod yn gyfarwydd â datblygiadau mewn cwmni er mwyn ein helpu ni i ganfod risgiau yn brydlon a gweithredu'n gyflym er mwyn lleihau'r niwed posibl i'r graddau mwyaf posibl.

I rai cwmnïau (y mae'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus wedi nodi eu bod yn bwysig i sefydlogrwydd system ariannol y DU) mae'n ofyniad statudol eu bod yn cynnal cyfarfod blynyddol â'u harchwilwyr allanol. Diben y cyfarfodydd hyn yw cael dealltwriaeth ddyfnach o faterion y cwmni, yn ogystal â'r themâu a'r tueddiadau sy'n codi o waith yr archwilydd allanol. Trefnwyd a chynhaliwyd 38 o'r cyfarfodydd hyn yn ystod y flwyddyn.

Goruchwyllo grŵp

Mae un tîm yn atebol am oruchwyllo gweithgareddau grwpiau – sef cwmnïau sy'n weithredol mewn mwy nag un sector – ac am ddod i gasgliad cyffredinol am y grŵp cyfan. Drwy ddod i gasgliad am y grŵp, bydd y tîm goruchwyllo grŵp yn defnyddio arbenigedd goruchwylwyr arbenigol o dîm goruchwyllo'r sector perthnasol sy'n goruchwyllo gweithgareddau'r grŵp yn y sector hwnnw.

Ymyriadau Hanfod II yn y farchnad

Mae goruchwyliaeth Hanfod II yn mynd i'r afael â materion a risgiau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Diben gwaith Hanfod II sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau yw delio yn gyflym ac yn effeithlon â digwyddiadau a allai beri niwed i gwsmeriaid neu fygwth uniondeb y farchnad. Rydym yn penderfynu ar ein hymateb i bob digwyddiad yn unol â'n parodrwydd i wynebu risg ac yn ceisio mynd i'r afael ag achosion o niwed neu niwed posibl mewn modd mor effeithlon â phosibl.

Rydym yn canfod digwyddiadau sy'n peri risg mewn sawl ffordd. Gallai'r rhain fod drwy asesiadau Hanfod I,

gwaith thematig, hysbysiad gan y cwmni, ymholiadau i'r Ganolfan Gyswllt, chwythwyr chwiban neu ffurflenni rheoleiddio. Rydym yn mynd i'r afael â'r digwyddiadau sy'n debygol o beri'r niwed mwyaf i'n hamcanion a lle mae mwy o risg i ddefnyddwyr neu uniondeb y farchnad. Mae goruchwylwyr cwmnïau sefydlog yn asesu'r risgiau presennol ac yn cymhwyso ein goddefiad risg yng nghyd-destun eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cwmni a'i fodel busnes. Rydym yn rheoli risgiau sy'n codi mewn cwmnïau portffolio hyblyg drwy gyfuniad lle mae tîm blaenoriaethu digwyddiadau risg, timau arbenigol a thimau sector yn gweithio gyda'i gilydd i gymhwyso ein parodrwydd i wynebu risg yn gyson.

Yn ystod 2016/17, cawsom 24,916 o achosion seiliedig ar ddigwyddiadau ar gyfer cwmnïau hyblyg ar draws pob sector. Cafodd tua 10,900 o'r holl achosion hyn eu codi ar ôl dadansoddi ffurflenni rheoleiddio cwmnïau. O'r 24,916 o ddigwyddiadau a gafwyd yn 2016/17, rydym yn dal yn asesu 2,049 ohonynt. Fe wnaethom ymgymryd â gwaith goruchwyllo yng nghyswllt 36% o'r digwyddiadau lle gallai'r digwyddiad beri'r niwed mwyaf i'n hamcanion.

Ymyriadau Hanfod III yn y farchnad

Mae goruchwyliaeth Hanfod III yn ceisio mynd i'r afael â'n prif flaenoriaethau ar gyfer cynnyrch unigol a materion penodol. Mae'n seiliedig ar risgiau sectorau ac mae'n caniatáu i ni fynd i'r afael â risgiau sy'n gyffredin i fwy nag un cwmni, ac o bosibl ar draws mwy nag un sector.

Mae dau fath o waith traws-gwmni y mae modd ei gynnal o dan Hanfod III.

Gwaith thematig: rydym yn asesu risg bresennol neu risg sy'n dod i'r amlwg ynghylch mater neu gynnyrch ledled nifer o gwmnïau mewn sector neu farchnad. Gall y gwaith hwn ganolbwyntio ar ganfod beth sy'n digwydd ac awgrymu ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem.

Rydym yn rheoleiddio'n ddarbodus oddeutu

18,000

o gwmnïau

Goruchwyliaeth seiliedig ar y farchnad (neu aml-gwmni): mae hyn yn cynnwys ymyriadau byr gyda ffocws pendant sy'n targedu grŵp o gwmnïau. Mae'r rhain yn ymchwiliadau goruchwyllo seiliedig ar sector. O gymharu ag adolygiadau thematig, mae'r adolygiadau hyn yn tueddu i fod angen llai o adnoddau ac yn llai tebygol o arwain at newid rheolau, canllawiau neu adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi.

Mae goruchwyliaeth seiliedig ar y farchnad (neu aml-gwmni): yn cynrychioli rhan allweddol o'n dull diwygiedig o oruchwyllo cwmnïau portffolio hyblyg. Er enghraifft, yn y farchnad rheoli asedau, rydym wedi ymgymryd â nifer o brosiectau (gan gynnwys elw blwch heb risg, rhannu comisiynau a llywodraethu cyllid) sy'n edrych ar sut mae cwmnïau'n gweithio, ac rydym wedi defnyddio'r canlyniadau o'r gwaith hwnnw i helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ein gwaith o astudio'r farchnad.

Rydym wedi cynnal rhaglen helaeth o ddigwyddiadau rhanbarthol yn y DU – 'Live & Local' – ar gyfer cwmnïau buddsoddi, yswiriant cyffredinol a morgais er mwyn eu helpu i ddeall sut mae cydymffurfio â'n rheolau ni. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys cyflwyniadau, gweithdai, cyfarfodydd bwrdd crwn a chymorthfeydd un-i-un gyda'n goruchwylwyr. Fe wnaethom ni hefyd gynnal cinio â Chadeiryddion ym mhob ardal y gwnaethom ymweld â hi. Buom yn siarad â bron i 2,600 o gwmnïau ac ychydig o dan 3,200 o ymgynghorwyr fel rhan o'r rhaglen hon yn 2016/17.

Goruchwyliaeth arbenigol

Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i reoleiddio marchnadoedd a'r cwmnïau sydd ynddynt yn briodol, mae gennym dimau arbenigol sy'n canolbwyntio ar oruchwyllo materion a gweithgareddau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys Asedau Cleientiaid a Datrysiaid (CARD), Darbodaeth, Technoleg a Chadernid, Arbenigwyr Ymddygiad a Throsedd Ariannol.

Yn CARD, mae ein hamserlen adolygu ar sail desg ac ymweliadau yn ein galluogi ni i oruchwyllo cwmnïau yn barhaus ac yn cynyddu ein heffaith reoleiddiol ar draws pob categori o gwmnïau sydd yng nghyfundrefn

asedau'r cleientiaid, gan gynnwys categorïau newydd fel cwmnïau cyllid torfol seiliedig ar ddyled. Yn 2016, rydym hefyd wedi bod yn canolbwyntio ar roi sylw i weithgareddau y mae cwmnïau wedi'u rhoi allan ar gontract er mwyn sicrhau ein bod yn goruchwyllo gwaith sydd wedi'i ddirprwyo yn briodol.

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Trysorlys ddiwygiadau i reoliadau'r gyfundrefn weinyddol arbennig. Ar yr un pryd, fe wnaethom ni gyhoeddi ymgynghoriad yn galw am adborth ar nifer o agweddau ar gyfundrefn asedau'r cleient sy'n berthnasol os yw cwmni buddsoddi'n methu. Gyda'i gilydd, mae'r cynigion hyn yn ceisio sicrhau gwell canlyniadau i gleientiaid a marchnadoedd os bydd cwmni buddsoddi'n methu.

Rheoli ein cyfrifoldebau rheoleiddio darbodus

Er mai'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus yw'r rheoleiddiwr darbodus ar gyfer y rheini sy'n cymryd blaendaliadau, yswirwyr a chwmnïau buddsoddi mawr, ni sy'n gyfrifol am reoleiddiad darbodus 18,000 o gwmnïau, gan gynnwys rheolwyr asedau, cwmnïau buddsoddi, darparwyr seilwaith a llwyfannau. Bwriad ein dull darbodus yw lleihau'r niwed i ddefnyddwyr, cyfranwyr y farchnad gyfanwerthu a sefydlogrwydd y farchnad i'r graddau mwyaf posibl pan fydd cwmnïau'n wynebu straen ariannol neu'n methu mewn modd sy'n achosi anhrefn. Rydyn ni o'r farn y dylai cwmnïau o bob maint sy'n methu gael caniatâd i fethu mewn modd heb anhrefn. Rydym yn defnyddio dull ymatebol ar gyfer cwmnïau llai, gan eu bod yn peri llai o risg i'n hamcanion, ac yn caniatáu iddynt fethu'n anhrefnus yn yr achosion hyn.

Ochr yn ochr â rhoi'r Gyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol (MiFD II) ar waith, sydd wedi'i chynnwys yn ein thema Blaenoriaethau cyfanwerthu, mae ein gwaith darbodus wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- parhau i roi Cyfarwyddeb Gofynion Cyfalaf IV ar waith
- newidiadau i'n Hadolygiad Goruchwyliaeth a'n Proses Werthuso er mwyn bodloni canllawiau newydd Awdurdod Bancio Ewrop

- rhoi'r Gyfarwydddeb Adfer a Datrys ar waith a helpu cwmnïau i wella eu cynlluniau dod i ben os bydd cwmni'n methu

Parhau i oruchwyllo marchnadoedd

Fel rhan o'n gwaith o sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda i bawb sy'n rhan o'r farchnad a chefnogi twf economaidd cynaliadwy, ein rôl yw cynnal y safonau rheoleiddio cadarn sy'n sail i enw da marchnadoedd cyfalaf y DU ledled y byd

Datgelu marchnadoedd yn amserol ac yn fanwl gywir

Mae cyfundrefn restru'r DU yn dibynnu ar ddatgeliad a thryloywder er mwyn caniatáu i fuddsoddwyr wneud penderfyniadau gwybodus. Er mwyn cyflawni ein hamcan o sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda, mae'n hanfodol bod cwmnïau rhestredig yn datgelu marchnadoedd yn amserol ac yn fanwl gywir. Mae hyn yn sicrhau y gall buddsoddwyr ddibynnu arnynt pan fyddant yn gwneud penderfyniadau i brynu, gwerthu neu ddal ar fuddsoddiad.

Mae Awdurdod Rhestru'r DU yn canolbwyntio ar y rheini sy'n dyrannu gwarannau, eu datgeliadau a'r noddwyr sy'n gweithio gyda dyrannwyr yn y brif farchnad. Yn 2016/17, fe wnaethom adolygu 276 o ddogfennau trafodion ecwiti, 351 o ddogfennau ynghylch trafodion dyled a 162 o ddogfennau ynghylch trafodion cronfa, yn ogystal â chymeradwyo 409 o brosbectysau atodol pellach.

Trafodion partiön perthnasol fesul cwmni rhestredig premiwm

Mae cyfundrefn restru'r DU yn rhoi hyder i fuddsoddwyr bod cwmnïau rhestredig premiwm yn bodloni amrywiaeth o safonau ynghylch llywodraethu a diogelu buddsoddwyr. Mae'r rheolau ynghylch trafodion ar gyfer partiön cysylltiedig yn diogelu buddsoddwyr lleiafrifol mewn cwmnïau rhestredig drwy sicrhau bod cyfranddalwyr mawr a chyfarwyddwyr cwmnïau yn cael budd annheg oherwydd eu statws.

Rydym yn trafod ein gwaith ynghylch camddefnyddio'r farchnad a rhoi gwybod am drafodion ym mhennod 4 o dan y pennawd 'Cyfanwerthu'.

Sut rydym yn gorfodi ein rheolau

Mae ein gwaith gorfodi yn cefnogi ein hamcanion drwy ei gwneud yn glir bod cwmnïau ac unigolion sydd ddim yn dilyn y rheolau yn wynebu canlyniadau real ac arwyddocaol.

Mae ein dull o ddefnyddio ein pwerau yn canolbwyntio ar ataliad penodol (atal y person rhag troseddu eto) ac ataliad cyffredinol (atal eraill rhag troseddu). Mae ein hymchwiliadau hefyd yn helpu i roi mwy o ffydd i'r cyhoedd ein bod yn canfod achosion o ddrwgweithredu ac yn mynd i'r afael â nhw'n briodol. Mae ein sancsiynau cyhoeddus yn tanlinellu gwerth a chyfreithustra'r rheol, y gofyniad neu'r safon y mae ein hymchwiliad yn ei gynnal. Drwy wneud hyn, mae ymchwiliadau yn tynnu llinellau clir y mae modd i weddill y farchnad eu dilyn, gan helpu pawb i gydymffurfio a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda.

Rydym yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill a'r rheini sy'n gorfodi'r gyfraith, yn ddomestig ac yn rhyngwladol, er mwyn canfod a gweithredu'n fuan pan fo angen cymryd camau gorfodi. Rydym yn defnyddio ystod helaeth o bwerau gorfodi – rhai troseddol, sifil a rheoleiddiol – er mwyn diogelu defnyddwyr a marchnadoedd ac i gymryd camau gweithredu yn erbyn cwmnïau ac unigolion sydd ddim yn bodloni ein safonau.

Gallwn gymryd camau gweithredu fel:


- tynnu awdurdodiad cwmni yn ôl
- gwahardd unigolion rhag gweithio mewn gwasanaethau ariannol neu ymgymryd â gweithgareddau penodol
- atal cwmnïau ac unigolion rhag cyflawni gweithgareddau
- ceryddu cwmnïau ac unigolion drwy gyfrwng datganiadau cyhoeddus
- rhoi dirwyon i gwmnïau ac unigolion sy'n torri ein rheolau neu'n camddefnyddio'r farchnad,



Mae cwmnïau ac unigolion sydd ddim yn dilyn y rheolau yn wynebu canlyniadau real ac arwyddocaol.



Ffigur 6.7: Cyfanswm gwerth y cosbau ariannol a godwyd



Ffigur 6.8: Cosbau ariannol a orfodwyd

	2014/15	2015/16	2016/17
Nifer y cosbau ariannol a orfodwyd	43	34	15
Cyfanswm gwerth y cosbau ariannol	£1,409.8m	£884.6m	£181.0m
Nifer y cosbau ariannol a orfodwyd ar gwmnïau	23	17	6
Cyfanswm gwerth y cosbau ariannol a orfodwyd ar gwmnïau	£1,403.1m	£880.4m	£180.1m
Nifer y cosbau ariannol a orfodwyd ar unigolion	20	17	9
Cyfanswm gwerth y cosbau ariannol a orfodwyd ar unigolion	£6.7m	£4.2m	£0.9m

yn ogystal â chwmnïau sy'n torri cyfreithiau cystadlu

- gwneud cais i'r llysoedd am waharddebau a gorchmynion gwneud iawn
- cynnal erlyniadau troseddol i fynd i'r afael â throseddau fel cynllwynio mewnlol a chwmnïau'n cynnal gweithgareddau rheoledig heb eu hawdurdodi

Mae manylion llawn ein gwaith gorfodaeth ar gael yn y Cyfrif perfformiad blynyddol ar gyfer gorfodaeth 2016/17 ar ein gwefan.

Gwella ein gorfodaeth yn dilyn yr Adolygiad Gwyrdd

Yn 2014, cyhoeddodd y Trysorlys adolygiad o brosesau gwneud penderfyniadau'r FCA a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus yn dilyn cwmpwys HBOS. Yn 2015, cyhoeddodd yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a'r FCA eu hadroddiad eu hunain ar y cyd, yn ogystal ag adroddiad gan Andrew Green CF. Yn 2016/17 fe wnaethom

barhau i roi'r argymhellion o'r adroddiadau hyn ar waith, gan gynnwys:

- cyhoeddi crynodeb o'n proses gyfeirio a'n fframwaith, ein meini prawf cyfeirio wedi'u diwygio a'n dull dewis achosion
- newid ein Dogfen Cyfeirio Gorfodaeth yn unol ag argymhellion yr Adroddiad Gwyrdd
- diweddarau ein Canllaw Gorfodaeth
- lle bo hynny'n briodol, sicrhau bod timau ymchwilio'r FCA a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus yn rhoi gwybodaeth i'w gilydd a'u timau goruchwyllo eu hunain am gynnydd yr ymchwiliad yn rheolaidd.
- diddymu'r drefn gostwng cosbau yng nghamau 2 a 3 a gwella'r broses a thryloywder ar gyfer setliadau cam 1
- darparu diweddariadau ac ymateb mwy hyblyg yn ystod ymchwiliadau, gwella tryloywder

Yn ogystal â'r argymhellion Gwyrdd, rydym wedi cyflwyno proses ar gyfer achosion sy'n cael eu 'herio'n rhannol'.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein hadolygiad blynyddol o benderfyniadau gan y Pwyllgor Penderfyniadau Rheoleiddio, yn unol ag argymhellion yr Adolygiad.

Canlyniadau ein gwaith gorfodi

Fe wnaethom sicrhau canlyniadau cyhoeddus cryf yn 2016/17. Fe wnaethom gyflwyno 180 o rybuddion terfynol (155 yn erbyn cwmnïau a 25 yn erbyn unigolion), sicrhau 209 o ganlyniadau gan ddefnyddio ein pwerau gorfodaeth (198 o rai rheoleiddiol/sifil ac 11 o rai troseddol) yn ogystal â dyfarnu 15 o gosbau ariannol gwerth £181m gyda'i gilydd (ffigurau 6.7 a 6.8).

Mae'r ffigurau ar gyfer 2015/16 a 2014/15 yn cynnwys dirwyon eithriadol cysylltiedig â chamymddwyn FX a LIBOR. Rydym yn dal wedi ymrwymo

i ymchwilio i gwmnïau ac unigolion a'u dal yn atebol am gamymddwyn, gan sicrhau bod drwgweithredwyr yn talu am gostau adfer. Nid yw ein hagwedd tuag at gamymddwyn a chosbau ariannol wedi newid.

Fodd bynnag, nid ydym yn cyhoeddi canlyniadau pob un o'n hachosion. Efallai bod hyn oherwydd nad ydym yn canfod tystiolaeth o gamymddwyn ar ôl ymchwilio a'n bod yn dod i'r casgliad, gan ystyried amgylchiadau'r achos, nad yw'n briodol nac yn gymesur cymryd camau disgyblu. O'r holl achosion a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, daeth 62% ohonynt i ben heb gymryd unrhyw gamau gweithredu.

Rheoli ymholiadau

Ein Canolfan Gyswllt yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau gan ddefnyddwyr a chwmnïau portffolio hyblyg.

Yn ystod 2016/17, fe wnaethom ddelio ag oddeutu 313,000 o ymholiadau gan ddefnyddwyr a chwmnïau. Mae hyn wedi gostwng ers y llynedd oherwydd bod y cyfnodau ymgeisio ar gyfer cwmnïau credyd defnyddwyr wedi dod i ben.

Rydym yn monitro'r pwnc a'r math o gynnyrch cysylltiedig ag ymholiadau defnyddwyr. Cynnyrch yswiriant, buddsoddiad a chredyd yw'r materion mwyaf cyffredin.

Dyma'r prif resymau dros gysylltu â ni yn ôl defnyddwyr:

- Statws awdurdodi neu hawliau cwmni.
- Eu profiadau o broblemau a phryderon ar ôl gwerthu, o ran yr arferion gwerthu y maent wedi dod ar eu traws neu ba mor addas yw'r cynnyrch a gafodd ei brynu. Roedd prif broblemau a oedd yn codi pryderon yn cynnwys ffioedd/taliadau, cyngor camarweiniol a chynnyrch nad oedd yn diwallu anghenion y defnyddiwr.
- Maent o'r farn nad yw'r ffordd maent wedi cael eu trin gan gwmnïau yn deg, gan gynnwys materion ynghylch delio â hawliadau, ymholiadau ynghylch ôl-ddyledion/adfeddiannu, anhawster wrth gysylltu â chwmnïau a

phremiymau yn codi'n anghymesur/ heb eglurhad.

Mae cwmnïau'n fwyaf tebygol o gysylltu â ni ynghylch eu profiad o gyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio'r system GABRIEL, gwneud ceisiadau gan ddefnyddio'r system Connect a chwestiynau ynghylch rheoleiddio a Llawlyfrau.

Eleni, rydym wedi mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o gysylltu â chwmnïau ac wedi gwella ein gwasanaethau ymhellach drwy wneud y canlynol:

- darparu oriau agor mwy hyblyg er mwyn helpu defnyddwyr a chwmnïau ar amseroedd brig
- defnyddio themâu cyffredin o ymholiadau i wella ein prosesau, i wneud cyfathrebiadau'n gliriach ac i gyfeirio achosion at adrannau mewnol
- mwy o hyfforddiant er mwyn galluogi staff i ddelio a mathau o alwadau sy'n mynd yn fwy a mwy cymhleth
- mynd ati'n rhagweithiol i gysylltu â chwmnïau i'w cynorthwyo â phroblemau a gofynion rheoleiddiol
- creu gwell gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr agored i niwed a gwella ein harferion cyfathrebu, gan gynnwys sefydlu gwasanaeth cyfieithu a phartneriaethau â sefydliadau defnyddwyr

Gwerth am arian

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni ein hamcanion statudol, ac wrth ymgorffori gwerth am arian i'n diwylliant a'n gwaith o wneud penderfyniadau.

Mae tair prif elfen i'n dull:

Economi: A yw'r costau gweithredol yn economaidd mewn perthynas â chymaryddion perthnasol?

Effeithlonrwydd: A ydym yn gwneud pethau yn y ffordd fwyaf effeithlon er mwyn cyflawni strategaethau neu newidiadau'r FCA?

Effeithiolrwydd: A ydym yn llwyddo i wneud y pethau iawn er mwyn cyflawni'r canlyniadau sydd eu heisiau arnom, hynny yw, a ydym yn darparu gwerth i'r cyhoedd?

Rydym yn canolbwyntio ar leihau cost yr adnoddau i'r graddau mwyaf posibl gan ystyried yr effaith ar ansawdd ein gwaith; mae'n rhaid i ni allu cyfiawnhau unrhyw gynnydd mewn costau. Ar gyfer gweithredoedd fel y newid rheolau arfaethedig, mae'n ofynnol ein bod yn amcangyfrif costau cydymffurfio, ynghyd â chostau a buddiannau eraill, a chyhoeddi'r rhain fel rhan o'n hymgyngoriad. Mae Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Menter 2016 yn rhoi gofynion adrodd newydd ar reoleiddwyr, gan gynnwys yr FCA, er mwyn gwella tryloywder. Rydym wedi rhoi mwy o fanylion ynghylch ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf hon yn ein Hadroddiad Blynnyddol ar wahân ynghylch y Ddeddf Menter. Fe wnaethom gyhoeddi hyn ar ein gwefan ym mis Mehefin 2017. Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r newidiadau rydym wedi'u gwneud ers 8 Mai 2015 i osod gofyniad, gosod safonau neu gyflwyno neu newid canllawiau ar gyfer busnesau a sicrhau y cydymffurfir â'r rhain.

Rydym bob amser yn ceisio sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio yn addas i'r diben, wedi'i dargedu'n dda ac nad yw'n rhoi baich diangen ar gwmnïau. Er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'n hadnoddau, rydym yn defnyddio ein Safbwyntiau ar y Sector i'n helpu ni i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ein blaenoriaethau a strategaethau ar gyfer sectorau. Rydym hefyd yn gwella i ba raddau rydym yn cyflawni ein canlyniadau yn effeithlon, drwy roi mentrau ar waith i wella ein gwaith awdurdodi a goruchwylio.

Rydym hefyd yn cael ein harchwilio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol sy'n edrych ar ba mor economaidd, effeithlon ac effeithiol rydym wedi defnyddio ein hadnoddau yn ein gwaith (astudiaethau gwerth am arian). Mae hyn yn ein helpu ni i gael gwybodaeth ynghylch pa feysydd y byddai modd i ni wella ynddynt. Eleni, er enghraifft, fe wnaethom gynorthwyo'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol â'i hadolygiad o Ddefnyddwyr Agored i Niwed mewn Diwydiannau Rheoledig.

Pennod 7

Ein hadnoddau

Er mwyn cyflawni ein hamcanion mewn modd mor effeithiol â phosibl, rydym yn:

- annog amrywiaeth
- cefnogi ein pobl, ein seilwaith a'n systemau ac yn buddsoddi ynddynt
- defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni mewn modd economaidd, effeithiol ac effeithlon
- annog dinasyddiaeth gorfforaethol dda a chyfrifoldeb corfforaethol
- mesur a monitro ein perfformiad mewn modd tryloyw

Ein pobl

Rydym yn ceisio denu, datblygu a chadw'r dalent orau, gan gydnabod bod ein pobl yn allweddol o ran ein gallu i gyflawni ein hamcanion. Rydym yn annog amrywiaeth. Rydym eisiau creu amgylchedd gwaith sydd nid yn unig yn annog gwahaniaeth, ond un lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu – lle gall ein pobl fod yn nhw eu hunain a sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Recriwtio

- Nifer y gweithwyr ar gyfer 2016/17:
 - Cododd lefelau gweithwyr o 3,285 i 3,422 rhwng dechrau a diwedd y flwyddyn.
 - Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom benodi 987 o bobl i swyddi drwy gyfuniad o 560 o symudiadau mewnol a 427 o benodiadau allanol.
- Ar hyn o bryd mae gennym 104 o weithwyr ar ein rhaglen i raddedigion, a dechreuodd 47 o'r rhain y rhaglen ym mis Hydref 2016. Yn 2017, fe wnaethom gyflogi 48 o raddedigion a 21 o interniaid dros yr haf. Cawsom

3,417 o geisiadau gan 267 o wahanol brifysgolion.

- Fe wnaethom dreialu ein rhaglen brentisiaeth gyntaf ym mis Medi 2016, drwy gyflogi deg o brentisiaid. Mae ein rhaglen yn rhoi cyfle i unigolion gyfuno dysgu ymarferol yn y swydd ag astudiaethau proffesiynol, gan ennill cymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol. Rydym yn bwriadu cynyddu nifer ein rhaglenni prentisiaeth i bymtheg yn 2017.
- Trosiant gweithwyr:
 - Mae trosiant allanol wedi lleihau eleni ac roedd yn 10.9% pan ddaeth y flwyddyn i ben

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar recriwtio ymgeiswyr yn uniongyrchol er mwyn lleihau faint rydym yn defnyddio asiantaethau recriwtio; mae hyn wedi arwain at arbed amcangyfrif o ychydig dros £590,000 o gostau, heb ostwng safon yr ymgeiswyr.

Rydym wedi dyrchafu pobl yn fewnol lle bo hynny'n bosibl, ac yn effeithiol iawn, er mwyn defnyddio'r dalent sydd gennym eisoes yn y ffordd orau bosibl. Lle nad yw'r sgiliau wedi bod gennym yn



fewnol, rydym wedi mynd i'r farchnad i recriwtio'r dalent orau sydd ar gael.

Rydym yn darparu ystod gynhwysfawr o fuddiannau lles ac yn ceisio trin gweithwyr sy'n sâl â pharch ac urddas, gan ddarparu cymorth, gwasanaethau cwnsela, rhaglenni adsefydlu pwrpasol a (lle bo hynny'n briodol) gwneud newidiadau yn y gweithle a allai helpu'r unigolyn i barhau i weithio'n gynhyrchiol gyda ni. Yn ystod 2016/17 colodd gweithwyr 6.5 diwrnod y flwyddyn yr un ar gyfartaledd (2016: 5.3 diwrnod) o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch.

Arolwg ar gyfer gweithwyr

Mae ein harolwg blynyddol ar gyfer gweithwyr yn ein helpu ni i ganfod meysydd sy'n bwysig o ran ymgysylltu â gweithwyr, a gweithredu yn y meysydd hynny.

Roedd yr arolwg ar gyfer 2016/17 yn seiliedig ar ddull newydd gyda graddfa sgorio a set o gwestiynau wedi'u diweddarau; am y rheswm hwn, ni allwn gymharu'n briodol â data'r blynyddoedd cynt.

Yn arolwg gweithwyr 2016/17, ymatebodd 67% o staff yn gadarnhaol

ynghysyllt eu lefel ymgysylltu wrth weithio â'r FCA – 10% yn uwch na meincnod Best Places to Work ar gyfer cwmnïau mawr yn y DU (500+ o staff). Yn benodol, mae staff yn ymfalchio yn llwyddiannau'r FCA wrth iddo weithio tuag at ei amcanion ac mae'r mwyafrif yn teimlo eu bod yn gwneud gwahaniaeth drwy eu gwaith yma.

Amrywiaeth a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol oedd y categorïau a gafodd y sgoriau uchaf yn ystod 2016/17. Roedd y meysydd y nodwyd bod angen eu datblygu yn cynnwys Rheoli Talent a Gwobrwyo.

Datblygiad

Mae rhoi mynediad i'n gweithwyr at y cyfleoedd datblygu cywir yn rhan hanfodol o'r hyn rydym yn ei gynnig fel cyflogwr. Mae Academi'r FCA yn cynnig dysgu strwythuredig o ansawdd uchel i staff. Yn ystod 2016/17, rydym wedi:

- Cwblhau trydedd blwyddyn ein MSc mewn Rheoliad Ariannol. Ar hyn o bryd mae 26 o fyfyrwyr (25 o'r FCA) yn eu hail flwyddyn a 32 yn eu blwyddyn gyntaf (28 o'r FCA).
- Parhau i ddatblygu cwricwlwm yr FCA a rhaglen fewnol yr Academi. Fe

wnaethom gynnal cyfanswm o 5,319 o ddiwrnodau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn. Mae 56% o'r holl weithwyr wedi mynd i o leiaf un digwyddiad hyfforddi eleni.

- Trefnu 67 o secondiadau i'r FCA a 91 o'r FCA i sefydliadau partner. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau wedi'u hawdurdodi, Awdurdod Gwarannau a Marchnadoedd Ewrop (ESMA), y Trysorlys, Banc Lloegr a chyrrff defnyddwyr.

Ein targedau:

45%

o'n Uwch Dîm Rheoli
(UDRh) yn ystyried eu
hunain yn fenywod
erbyn 2020

8%

o'n UDRh yn ystyried
eu hunain yn BAME
erbyn 2020

Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae gennym ymrwymiad cryfi amrywiaeth a chynhwysiant. Er mwyn bod yn reoleiddiwr effeithlon, mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn recriwtio, yn datblygu ac yn cadw'r gweithlu mwyaf talentog, ymrwymedig ac amrywiol posibl. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, ym mis Mehefin 2016 fe wnaethom lofnodi Siarter Menywod mewn Cyllid y Llywodraeth, sy'n ceisio cynyddu cynrychiolaeth merched yn y sector gwasanaethau ariannol, yn enwedig ar lefelau uwch.

Yn unol â'r Siarter, mae'n ofynnol ein bod yn darparu adroddiad ar ein targedau o ran y rhywiau. Dyma ein targedau:

- bod 45% o'n Uwch Dîm Rheoli (UDRh) yn ystyried eu hunain yn fenywod erbyn 2020, a 50% erbyn 2025. Ar hyn o bryd, mae 39% yn ystyried eu hunain yn fenywod.

Rydym hefyd wedi gosod targedau yng nghyswllt amrywiaeth Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) ar lefelau uwch, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i wneud cynnydd yng nghyswllt BAME. Dyma ein targedau:

- bod 8% o'n UDRh yn ystyried eu hunain yn BAME erbyn 2020, a 13% erbyn 2025. Ar hyn o bryd, mae 2% o'r UDRh yn ystyried eu hunain yn BAME.

Mae mentrau eraill rydym wedi ymgymryd â nhw yn y maes hwn yn cynnwys gweithio gyda'n darparwyr recriwtio er mwyn cael rhestr fer mwy amrywiol yn ein prosesau recriwtio a chyflwyno ein cynllun Mentora o Chwith BAME.

Rydym wedi'n calonogi ein bod yn dal yn y 100 uchaf ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Rydym hefyd yn gyflogwr Cyflog Byw.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn ein pedwar amcan o ran cydraddoldeb a data'r gweithlu, ar gael yn ein hadroddiad amrywiaeth Blynyddol, sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Mae ein hamcanion o ran dyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus hefyd wedi'u cynnwys ar ein

gwefan o dan y pennawd 'cyfrifoldeb corfforaethol'.

Gwella ein seilwaith

Mae angen i ni ddatblygu'n barhaus a gwella ein galluoedd a'n systemau gwybodaeth er mwyn cadw ar y blaen o ran ein gofynion gweithredol a rheoleiddiol. Eleni, fe wnaethom fuddsoddi £58.5 miliwn i gyflawni prosiectau newid er mwyn rhoi newidiadau deddfwriaethol ar waith ac i wella ein gallu gweithredol a chynnal ein systemau gwybodaeth.

Mae gwaith allweddol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys rhoi'r Drefn Uwch Reolwyr ac Ardystio, MiFID a MAR (a drafodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn) ar waith. Mae mentrau allweddol eraill yn cynnwys rhoi Rheoliadau a'r Gyfarwyddeb Gofynion Cyfalaf (CRD IV), y Gyfarwyddeb Credyd Morgais a'r Gyfarwyddeb Datrys ac Adfer Bancio ar waith.

Rydym wedi buddsoddi mewn gwelliannau gweithredol er mwyn cefnogi ein systemau mewnol a gwaith effeithiol. Yn fwyaf nodedig, rydym wedi comisiynu rhith-ganolfan ddata yn y cwmwl cyhoeddus. Bydd y ganolfan ddata hon yn y cwmwl yn ein galluogi ni i lunio dadansoddiadau data o ansawdd gwell, i gynyddu arloesedd ac i ddarparu gwasanaeth mwy hyblyg â gwell gwerth am arian na chanolfannau data ffisegol traddodiadol.

Symud i Stratford

Rydym yn symud ein swyddfeydd yn Llundain i Barc Olympaidd y Frenhines Elizabeth yn Stratford yn 2018. Rydym yn bwriadu symud o'n swyddfeydd yn Canary Wharf fesul cam rhwng mis Mai a mis Awst 2018.

Mae ein hadeilad newydd ar y trywydd iawn i ennill safon ragorol yn unol â safonau Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM), sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i arddel cyfrifoldeb corfforaethol ac arferion amgylcheddol da.



Mae ein gwaith yn 2016/17 wedi canolbwyntio ar yn canlynol:

- y gwaith o adeiladu a dodrefnu'r adeilad newydd – disgwylir y bydd y ddwy elfen yn barod ar amser
- cynllun yr adeilad a'r dyluniad mewnol – gwella'r modd mae'r FCA yn gweithio gyda'i gilydd
- ein strategaeth ar gyfer y gweithle – sicrhau bod ein hadeilad newydd, ein technoleg a'n dulliau gweithio yn ein helpu i ddenu a chadw'r bobl orau, a'u galluogi nhw i weithio mewn modd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl
- gweithio gyda staff i sicrhau parhad ein holl wasanaethau yn ystod y cyfnod trosglwyddo

Cynaliadwyedd

Rydym yn bwriadu dilyn yr ymarfer gorau yn y diwydiant yng nghyswllt ein heffaith ar yr amgylchedd. Rydym yn credu bod rheolaeth amgylcheddol gadarn a defnyddio adnoddau'n ofalus yn berthnasol i un o'r egwyddorion rheoleiddio da, sef defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf effeithlon ac economaidd posibl.

Mae ein hegwyddorion amgylcheddol wedi'u nodi yn ein Datganiad Polisi Amgylcheddol ar ein gwefan, o dan y pennawd 'Cynaliadwyedd'. Rydym wedi cynnwys adroddiad cynaliadwyedd manwl yn Atodiad 3, sy'n dangos y cynnydd rydym wedi'i wneud eleni.

Ymgysylltu â'r gymuned

Mae ein rhaglen ymgysylltu â'r gymuned yn annog pobl i wirfoddoli gyda'r elusen gofrestrdig neu'r grŵp cymunedol o'u dewis. Rydym yn cefnogi ac yn annog gwirfoddoli drwy neilltuo amser o'r gwaith gyda thâl i'n gweithwyr gael cyfle i fod yn weithgar yn eu cymunedau. Y llynedd, fe wnaeth 1,305 o bobl yn ein swyddfeydd yng Nghaeredin ac yn Llundain wirfoddoli cyfanswm o 14,939 o oriau. Mae hyn yn cynrychioli 39% o'r gweithwyr, o gymharu â'n targed o 30%.

Rhoddion elusennol

Bu Pwyllgor Elusennol FCA yn cefnogi Shelter UK a Little Havens Hospice drwy gydol 2016. Mae'r holl roddion wedi dod gan staff a'u hymdrechion i godi arian. Fe wnaethom godi arian ar gyfer:

- Shelter UK – £7,881 (ac eithrio rhodd cymorth)
- Little Havens Hospice – £8,782 (ac eithrio rhodd cymorth)

Drwy ein cynllun Rhoi drwy'r Gyflogres, fe wnaeth ein gweithwyr godi £157,992 ar gyfer gwahanol elusennau, sy'n gynnydd o £45,000 ers 2015.

Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn ymateb i geisiadau am wybodaeth cyn pen 20 diwrnod yn y rhan fwyaf o achosion. Yn ystod 2016/17 fe gawsom 787 o geisiadau am wybodaeth, ac fe wnaethom drin 597 o'r rheini fel ceisiadau ffurfiol – tua 16% o gynnydd ers 2015/16. Fe wnaethom gwblhau

579 o'r ceisiadau ffurfiol cyn y terfyn amser statudol (ffigrau 7.2 a 7.3).

Eleni, roedd y prif geisiadau am wybodaeth yn ymwneud â dulliau'r FCA o ddelio â chwynion, ymchwiliadau gorfodi, y Gyfarwyddeb Rheolwyr Cyllid Buddsoddi Amgen (AIFMD), talu iawndal yswiriant gwarchod taliadau (PPI), deilo â hysbysiadau chwythu'r chwiban, manylion yswirwyr indemniad proffesiynol, gwybodaeth am gontractau a chaffael, y Gyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol (MiFID), materion yng nghyswllt pasbortau a cheisiadau mewn perthynas â newid rheolau pensiwn. Cafwyd y ceisiadau o amryw o ffynonellau (ffigur 7.1).

Fe wnaethom ddatgelu deunydd ar gyfer tua 50% o'r achosion lle roedd gennym y wybodaeth y gwnaed gais amdani, sydd yr un fath â 2015/16. Rydym hefyd wedi ychwanegu mwy o wybodaeth at ein cofnod datgelu lle bo'r wybodaeth o fwy o ddi-ddordeb i'r cyhoedd. Mae hwn wedi'i gyhoeddi yng Nghyhoeddi i Wybodaeth ein Cynllun Cyhoeddi, sydd ar gael ar ein gwefan.

Os bydd ceisydd yn dweud wrthym ei fod yn anfodlon â'n hymateb neu'r modd rydym wedi delio â'i gais, byddwn yn cynnal arolwg mewnol o'r achos. Os bydd y ceisydd yn dal yn anfodlon ar ôl i'r broses adolygu fewnol ddod i ben, gall ofyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ymchwilio. Mae'r ICO yn nodi canlyniad eu hymchwiliad mewn Hysbysiad o Benderfyniad, a gyhoeddir ar wefan yr ICO.

Ffigur 7.1: y prif geiswyr yng nghyswllt y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fesul sector yn ystod 2016/17

Cyfringau	192
Defnyddwyr	173
Darparwyr gwasanaethau/cwmnïau rheoli	118
Cynghorwyr cyfreithiol	49

Ffigur 7.2: Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a gafodd eu cwblhau yn ystod 2016/17


Busnes fel arfer*	21
Gwybodaeth y mae modd cael gafaal arni drwy dulliau eraill	15
Gwybodaeth y bwriadwyd ei chyhoeddi yn y dyfodol	2

Ffigur 7.2: Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a gafodd eu cwblhau yn ystod 2016/17

Dim gwybodaeth wedi'i dal	55
Dim gwybodaeth wedi'i darparu.	82
Dim ymateb gan y ceisydd	29
Dros uchafswm y gost	88
Dros uchafswm y gost a rhywfaint o wybodaeth wedi'i darparu	37
Wedi cyfeirio at awdurdod arall	1
Cais wedi'i fodloni	141
Cais wedi'i dynnu'n ôl	8
Rhywfaint o wybodaeth wedi'i darparu.	99
Cais Diogelu Data	1

*Ceisiadau Busnes fel Arfer yw'r rheini y mae modd eu trin fel gohebiaeth arferol ac ymateb iddynt y tu allan i gwmpas y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, er enghraifft pan wneir cais am eglurhad yn hytrach na gwybodaeth wedi'i chofnodi.

Ffigur 7.3: Ein perfformiad yng nghyswllt bodloni'r gofynion statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2016/17



Os ydym ni neu'r ceisydd yn anfodlon â phenderfyniad yr ICO, gall y ddau barti apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth) ac os bydd y naill neu'r llall ohonom yn dal yn anfodlon, i'r Uwch Dribiwnlys (ond yng nghyswllt pwynt cyfreithiol yn unig, a gyda chaniatâd).


Yn 2016/17, penderfynodd yr ICO o'n plaid yn y chwe ymchwiliad a gynhaliwyd (gan gynnwys un lle rhoddwyd gwybodaeth gyfyngedig i ni yn ystod yr ymchwiliad). Nid oedd yr FCA yn rhan o unrhyw apeliadau a wnaed i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth) na'r Uwch Dribiwnlys yn ystod 2016/17.

Deddf Diogelu Data

Mae'n ofynnol arnom i roi gwybod i'r ICO sut rydym yn prosesu data personol bob blwyddyn. Fe wnaethom gyflwyno ein hysbysiad ym mis Tachwedd 2016, ac mae hwnnw wedi'i gyhoeddi ar wefan ICO. Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, mae'n rhaid i ni ymateb cyn pen 40 diwrnod calendr i 'geisiadau mynediad at wybodaeth unigolyn', sef ceisiadau gan unigolion sydd am gael y wybodaeth sydd gennym amdanynt.

Yn ystod 2016/17, cawsom 147 o geisiadau mynediad at wybodaeth unigolyn, o gymharu â 71 yn 2015/16. Fe wnaethom ymateb i 139 (gan gynnwys nifer o rai a gariwyd ymlaen o 2015/16) – 78% o fewn y terfyn amser statudol.

Ffigur 7.4: Nifer y llythyrau gan Aelodau Seneddol a dderbyniwyd gan yr FCA



Fe wnaeth cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data gostio oddeutu £998,000 i ni yn 2016/17 (o gymharu â £863,000 yn 2015/16). Roedd hyn yn cynnwys prosesu'r ceisiadau o dan y ddwy ddeddfwriaeth, yr amser a dreuliwyd gan staff mewn gwahanol feysydd busnes a chost ymchwiliadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Rydym yn amcangyfrif ei bod yn costio £832 ar gyfartaledd i brosesu pob gais, o gymharu â thua £860 yn 2015/16.

Ni allwn adennill y gwariant hwn gan geiswyr oherwydd mae cyfyngiad bach iawn o ran codi tâl am wybodaeth yng nghyswllt y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data. Ni aethom i gostau o ran cyfreithwyr allanol yng nghyswllt ymchwiliadau ac apeliadau.

Cwynion

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Ariannol 2012, mae'n ofynnol ein bod yn sefydlu trefniadau ar gyfer ymchwilio cwynion yn ein herbyn. Rydym yn ystyried y gwaith o ymchwilio i gwynion yn rhan allweddol o'n hatebolrwydd. Rydym yn prosesu cwynion yn unol â'r Cynllun Cwyno, sydd ar gael yn www.fca.org.uk/your-fca/complaints-scheme.

Arhosodd lefel y cwynion yn erbyn yr FCA yn gymharol debyg, gan ostwng o 590 yn 2015/16 i 577 yn 2016/17. Nid oes tuedd amlwg o ran y materion dan sylw, ac eithrio cwynion ynghylch cynnyrch sy'n rhagfantoli cyfraddau

llog. Fodd bynnag, rydym yn dal i dderbyn nifer o gwynion gan gwmnïau credyd defnyddwyr sydd wedi gorfod talu ffi weinyddol gan nad ydynt wedi cyflwyno eu ffurflenni GABRIEL ar amser.

Pan fo achwynwyr yn anfodlon â chanlyniad eu cwyn, mae modd iddynt gyfeirio'r mater at Swyddfa'r Comisiynydd Cwynion. Yn ystod 2016/17, fe wnaeth y Comisiynydd Cwynion wydroi penderfyniad yr FCA mewn wyth o achosion – dau yn llawn a chwech yn rhannol. Mae modd gweld Adroddiadau Terfynol y Comisiynydd yn <http://fsc.gov.uk/publications/>, yn ogystal ag Adroddiadau Blynyddol y Comisiynydd.

Yn ogystal â gweithgareddau busnes fel arfer, mae gennym raglen gwelliant parhaus ar waith er mwyn gwella effeithlonrwydd gweithredol, trefniadau llywodraethu a rheolaeth. Mae hon yn cynnwys cynllun gweithredu 20-pwynt, sy'n mynd i'r afael â phynciau sy'n amrywio o ddatblygu llyfrgell rhannu gwybodaeth i wella ein fframwaith sicrwydd ansawdd presennol. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys llif gwaith mewn perthynas â Dadansoddi Gwraidd yr Achos.

Mae Dadansoddi Gwraidd yr Achos yn ddull o ddatrys problemau a ddefnyddir er mwyn canfod gwraidd yr hyn sy'n achosi nam neu broblem. Caiff ffactor ei ystyried fel gwraidd yr achos os yw ei dynnu yn atal y digwyddiad annymunol terfynol rhag digwydd eto.

Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau o'n hymchwiliadau o gwynion i weithio gydag adrannau eraill yn y sefydliad er mwyn helpu i wella ein perfformiad a'n gwerth i'r cyhoedd.

Llythyrau Aelodau Seneddol

Yn 2016/17 fe gawsom 451 o llythyrau gan seneddwyr (ffigur 7.4).

Rydym yn ceisio ymateb i 50% o llythyrau cyn pen 15 diwrnod gwaith, ac i llythyrau mwy cymhleth cyn pen 30 diwrnod gwaith. Yn 2016/17, fe wnaethom ddelio â 50.8% o llythyrau cyn pen 15 diwrnod gwaith a 94.8% cyn pen 30 diwrnod gwaith.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi adolygu'r modd rydym yn delio â llythyrau gan Aelodau Seneddol ac wedi gwella ein prosesau. Rydym wedi diwygio ein Cytundebau Lefel Gwasanaeth o'n gwirfodd, felly o fis Chwefror 2017 ymlaen, ein nod yw ymateb i 80% o'r llythyrau cyn 15 diwrnod gwaith ac i 100% cyn pen 20 diwrnod gwaith. Hyd yn hyn, rydym yn cyflawni'r targedau newydd hyn.

Roedd rhai o'r prif broblemau a gododd ASau gyda ni ar ran etholwyr yn ymwneud â buddsoddiadau (yn enwedig colledion yng nghyswllt buddsoddiadau), credyd defnyddwyr (llawer yn ymwneud â'r broses awdurdodi) ac amrywiaeth o faterion yn ymwneud â morgais.

Pennod 8

Gweithio gyda'n partneriaid

Rydym yn rhan annatod o fframwaith rheoleiddio ariannol ehangach y DU. Mae rhan hanfodol o'n gwaith yn cynnwys gweithio ar y cyd gydag ystod o bartneriaid gwahanol, gan gynnwys rheoleiddwyr ac asiantaethau rhyngwladol sy'n mynd i'r afael â phryderon rheoleiddio byd-eang, yn ogystal â chysylltu a chydweithio'n agos ag amrywiaeth o gyrff yn y DU sy'n cwmpasu meysydd fel ymwybyddiaeth defnyddwyr, rheoleiddio darbodus a llunio polisi ar risgiau sy'n dod i'r amlwg yng nghyswllt ein hamcanion.

Rydym yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o gyrff cyhoeddus, a phob un â'u dyletswyddau a'u hamcanion eu hunain. Maent yn cynnwys yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus, Banc Lloegr, y Rheoleiddiwr Systemau Talu, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, y Rheolydd Pensiynau, Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, y Cynllun Iawndal ar gyfer Gwasanaethau Ariannol a'r Trysorlys.

Mae gan Fanc Lloegr, gan gynnwys y PRA, amryw o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda'r FCA a'r PSR. Mae'r rhain yn cynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â systemau talu yn y DU, dyddiedig Mawrth 2015. Ym mis Mehefin 2016, cyhoeddwyd adolygiad o'r flwyddyn gyntaf o gydweithio mewn perthynas â systemau talu'r DU, gan ddod i'r casgliad bod y cydweithrediad rhwng yr holl bartion a Banc Lloegr yn gweithio'n dda.

Y Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR)

Daeth y PSR yn gwbl weithredol ar 1 Ebrill 2015 ac mae'n is-gorff o'r FCA. Dyma'r rheoleiddiwr cyntaf o'i fath yn y byd, a'i ddiben yw gwneud i systemau talu weithio'n well i'r bobl a'r sefydliadau sy'n eu defnyddio. Caiff hyn ei gefnogi gan ei amcanion o hybu cystadleuaeth, arloesi a buddiannau defnyddwyr y gwasanaeth.

Yn ein rôl fel un o'r awdurdodau cymwys ar gyfer rhai o'r darpariaethau rheolau busnes yn y Rheoliad Ffi Gyfnawid, buom yn gweithio â'r PSR (sydd hefyd â chymhwysedd ar gyfer y rheolau hyn) i ganfod sut byddwn yn cydweithio'n effeithiol i fonitro cydymffurfiaeth.

Mae'r FCA a'r PSR yn disgwyl bod yn awdurdodau cymwys i fonitro a gorfodi Rheoliad 105 o Reoliadau Gwasanaethau Talu 2017. Rydym wedi gweithio'n agos â'r PSR i ddatblygu drafft o'n dull ar gyfer y rheoliadau hyn ac yn dal i gydweithio â nhw er mwyn paratoi ar gyfer pan ddaw'r rheoliadau hyn i rym fis Ionawr 2018.



Yn 2016, cyflwynodd y grŵp defnyddwyr Which? arch-gŵyn i'r PSR am sgamiau talu'n uniongyrchol, gan ddadlau nad oes digon yn cael ei wneud i amddiffyn dioddefwyr rhag y math hwn o dwyll. Ymchwiliodd PSR i'r arch-gŵyn a chanfod bod y math hwn o dwyll yn broblem sydd ar gynydd a bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â hyn. Cyhoeddodd y PSR raglen waith gyda'r bwriad o leihau gallu twyllwyr i gynnal sgamiau, a chynyddu'r siawns y bydd dioddefwyr yn gallu adennill eu harian pan mae'r sgamiau'n digwydd. Gweithiodd yr FCA yn agos â'r PSR i ddatblygu ei ymateb. Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau i fynd i'r afael â phryderon mewn banciau anfon a derbyn, yn monitro cynnydd ac, os bydd problemau heb eu datrys ledled y sector, yn mynd ati i wneud gwaith pellach.

Mae rhagor o wybodaeth am weithgarwch y PSR yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yn ei Adroddiad Blynyddol ei hun.

Yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA)

Mae llawer o'n gwaith cydlynol â'r PRA yn digwydd yn ddyddiol yn sgil ein gwaith ar y cyd, a hynny yn ogystal â chyfarfodydd lefel uwch rheolaidd sydd wedi'u hamserlennu. Mae ein Prif Weithredwr yn aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio Darbodus ac mae Prif Swyddog Gweithredol y PRA yn aelod o fwrdd yr FCA.

Mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r PRA, sy'n cynnwys trefniadau o ran sut rydym yn ymgymryd â'n cyfrifoldebau a sut rydym yn mesur ein perfformiad drwy lunio adroddiadau chwarterol manwl, ac yn tanlinellu ein bwriad o weithio mewn modd annibynnol a chydlynol. Yn ystod 2016/17, roedd lefelau cydlynu yn dal yn gryf a chafodd unrhyw fethiannau materol yng nghyswllt cydlynu eu hadfer cyn gynted â phosibl. Mae'r FCA a'r PRA yn parhau i gydnabod y gall fod yn amhriodol defnyddio dulliau gwahanol, gan fod eu hamcanion a'u cyfrifoldebau yn wahanol.

Mae gan y PRA hawl i nacáu lle mae'n ystyried bod y camau gweithredu rydym yn eu cymryd yn bygwth

sefydlogrwydd ariannol neu'n achosi rhywun sydd wedi'i awdurdodi gan y PRA i fethu mewn modd a fyddai'n cael effaith niweidiol ar sefydlogrwydd ariannol. Nid yw'r pŵer hwn wedi cael ei ddefnyddio eleni.

Mae'r rheoleiddwyr wedi cydlynu'n effeithiol ar faterion polisi fel y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr, banciau'n clustnodi a gwobrwyo. Yn 2016, cyhoeddodd y PRA a'r FCA bapur ymgynghori ar y cyd, a oedd yn gwneud nifer o gynigion i wella tryloywder prosesau gorfodi rheoleiddiol, yn dilyn argymhellion gan y Trysorlys (fel y trafodwyd ym Mhennod 6).

Mae'r rheoleiddwyr yn cydweithio'n agos â'i gilydd i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau penodol drwy Fframwaith Ymateb Awdurdodau, sy'n galluogi'r FCA, Banc Lloegr a'r Trysorlys i roi'r ymateb cydlynus sy'n ofynnol ganddynt i ddigwyddiad sy'n arwain at aflonyddu llawer ar y sector ariannol a/neu'r awdurdodau.

Mae'r ddau reoleiddiwr yn parhau i adolygu systemau TG a rennir yr FSA er mwyn sicrhau bod gan y ddau sefydliad systemau sy'n diwallu eu hanghenion unigol gan gefnogi dull cydweithredol



Rydym yn cydweithio'n agos â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol er mwyn deall y problemau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu.



o rannu gwybodaeth ar yr un pryd. Yn ystod toriad byr a gafodd effaith ar systemau penodol a rennir ym mis Medi 2016, fe wnaeth cryfder y dull hwn alluogi'r rheoleiddwyr i leihau'r aflonyddu ar weithgarwch arferol.

Fe wnaeth y rheoleiddwyr gynnydd da drwy ddiweddarau eu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i adlewyrchu nifer o newidiadau, gan gynnwys pwerau cystadlu cydredol yr FCA, y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr, a newidiadau gofynnol o ganlyniad i Ddeddf Banc Lloegr a'r Gwasanaethau Ariannol 2016.

Y Pwyllgor Polisi Ariannol (FPC)

Yr FPC yw'r prif gorff yn y DU ar gyfer canfod, monitro a lliniaru risg yng nghyswllt sefydlogrwydd ariannol. Mae ein Prif Weithredwr yn aelod o'r pwyllgor ac rydym yn cydweithio'n agos â Banc Lloegr mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r FPC. Yn 2016/17, roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyllid cartrefi, cyllid buddsoddi a risgiau seiber.

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol a'r Cynllun Iawndal ar gyfer Gwasanaethau Ariannol (FSCS)

Gall defnyddwyr sy'n anfodlon ag ymateb cwmnïau rheoledig i'w cwynion gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, ac rydym yn defnyddio data eu cwynion i'n helpu ni i asesu graddfa problemau presennol a rhai yn y dyfodol. Rydym hefyd yn gweithio â'r FSCS, sef y corff annibynnol sy'n delio â hawliadau am iawndal gan ddefnyddwyr pan fydd cwmnïau rheoledig yn mynd yn fethdalwyr.

Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu'r trefniadau ariannu ar gyfer yr FSCS a chafodd papur ymgynghori ei gyhoeddi ynglŷn â hyn ym mis Rhagfyr 2016. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y trefniadau ariannu hyn yn gynaliadwy o safbwynt cwmnïau sy'n talu ardollau, ac y gall defnyddwyr barhau i gael iawndal priodol lle bo pethau wedi mynd o chwith.

Rydym yn cydweithio'n agos â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol er mwyn deall y problemau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu. Eleni, mae ein gwaith ymgysylltu wedi cynnwys ystod o faterion ynghylch polisiau, gan gynnwys credyd defnyddwyr, unioni pensiwn a PPI.

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS)

Rydym yn gweithio gyda MAS, sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu arweiniad ariannol diduedd ledled y DU, ac am ariannu a chydlynu'r gwaith o ddarparu cyngor ynghylch dyled yn rhad ac am ddim.

Ym mis Mawrth 2016, bu'r Llywodraeth yn ymgynghori ynglŷn â sefydlu model darparu deugorff ar gyfer canllawiau wedi'u noddi gan y llywodraeth. Roedd hyn yn cynnwys disodli MAS a chael corff arweiniad ariannol symlach yn eile, yn ogystal â dod â'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau a Pension Wise at ei gilydd i greu corff newydd i roi arweiniad ar bensiwn. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch sut byddai'r ddau gorff yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd, cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Hydref 2016 y byddai un corff (y Corff Arweiniad Ariannol Unigol) yn well ar gyfer ymateb i anghenion gwahanol ddefnyddwyr yng nghyswllt arweiniad ariannol. Bu'n ymgynghori ynghylch y dull hwn ym mis Rhagfyr 2016.

Mae'r llywodraeth yn rhag-weld y bydd y Corff Arweiniad Ariannol Unigol yn cael ei lansio erbyn tymor yr hydref 2018 fan bellaf. Rydym yn parhau i weithio gyda MAS, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'r Trysorlys i ddarparu cymorth drwy gydol y cyfnod pontio er mwyn sicrhau y bydd y model newydd yn cael ei roi ar waith yn effeithiol.

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)

Mae'r CMA yn gweithio i hybu cystadleuaeth er budd y defnyddwyr, yn y DU a thu allan i'r DU. Ei fwriad yw sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr, busnesau a'r economi. Ers 1 Ebrill 2015, rydym ni a'r CMA wedi bod â phwerau cystadlu cydredol. Mae'r rhain yn rhoi pwerau i'r FCA orfodi yn erbyn torri cyfraith cystadleuaeth, pwerau ychwanegol i gynnal astudiaethau o'r farchnad ynglŷn â sut mae cystadleuaeth yn gweithio mewn marchnadoedd, a phwerau i gyfeirio marchnadoedd at y CMA i gael archwiliad manwl. Er enghraifft, rydym wedi ymgynghori ynghylch p'un ai a yw'n briodol i ni gyfeirio'r sector ymgynghoriaeth rheoli asedau at y CMA i gael ei archwilio.

Partneriaid rhyngwladol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein cyfraniad mewn gweithgareddau a chyrrff yn Ewrop a ledled y byd wedi parhau i fod yn agwedd anhepgor ar ein gwaith, er gwaethaf canlyniad Refferendwm y DU. Ar ba bynnag delerau fydd y DU yn gadael yr UE, bydd y perthnasoedd rhwng rheoleiddwyr a chyrrff yn y DU ac yn rhyngwladol, a'r gwaith rydym yn ei wneud â nhw, yn parhau i fod yn rhan hanfodol o sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda yn y DU.

Mae canllawiau, rheolau a safonau rheoleiddio yn Ewrop ac yn Fyd-eang yn parhau i fod yn rhan o'r fframwaith rydym yn gweithredu ynddo. Ein nod yw ymgysylltu â rheoleiddwyr a'r rheini sy'n gosod y safonau yn rhyngwladol er mwyn sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio yn cyd-fynd â'n hamcanion a'u bod yn briodol ar gyfer y cwmnïau a'r marchnadoedd sy'n gweithredu yn y DU.

Mae ein blaenoriaethau o ran trafodaethau rheoleiddio rhyngwladol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys gwaith parhaus ar safonau byd-eang ar gyfer rheoleiddio meincnodau, y sector rheoli asedau, ymddygiad a llywodraethu mewn cwmnïau, cyfnewid data, diogelwch seiber ac arloesi ariannol.

Mae ein gwaith o roi mewnbwn i ddatblygu deddfwriaeth Ewrop a'i rhoi ar waith wedi canolbwyntio ar amryw o fentrau sy'n effeithio ar ein gwaith, fel cwblhau'r Rheoliadau a'r Gyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol, y Rheoliadau ar Gamddefnyddio'r Farchnad, Meincnodau, Prosbectysau, Cynnyrch Buddsoddi Seiliedig ar Yswiriant ac Adwerthiant wedi'i Becynnu (PRIIPs), a'r Gyfarwyddeb Darparu Yswiriant, ynghyd â pharhau i roi mewnbwn i raglen Undeb Marchnadoedd Cyfalaf yr UE.

Rydym wedi parhau i gydweithio'n agos â rheoleiddwyr yn Ewrop ar drafodaethau polisi ehangach, i ddatblygu safonau rheoleiddio, i rannu ein harbenigedd rheoleiddio ac i adnabod materion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Ym mis Mehefin 2016, er enghraifft, fe wnaethom gynnal seminar rheoleiddio ar gyfer dros 40 o reoleiddwyr o Ewrop er mwyn trafod modelau ar gyfer dull o oruchwylio seiliedig ar risg. Fe wnaethom hefyd gynnal seminar ar broblemau yng nghyswllt rheoli asedau a sefydlogrwydd ariannol ym mis Ebrill. Lle bu rheoleiddwyr, diwydiannau ac academyddion rhyngwladol yn cymryd rhan. Rydym wedi parhau i fod yn weithgar yn holl Awdurdodau Goruchwylio Ewrop – yn enwedig yn Awdurdod Marchnadoedd a Gwarannau Ewrop (ESMA) lle mai ein Prif Weithredwr yw aelod y DU o Fwrdd Goruchwylwyr ESMA ac mae ein staff yn cymryd rhan ym mhob un bron o bwyllgorau ESMA.

Rydym yn aelodau gweithgar o'r Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Comisiynau Gwarannau (IOSCO), ac mae ein Prif Weithredwr yn aelod parhaol o Fwrdd IOSCO. Rydym yn cael ein cynrychioli ar bob un o dasgluoedd a Phwyllgorau Polisi IOSCO. Rydym yn cadeirio'r Pwyllgor ar Reoli Asedau ac yn is-gadeirydd y Pwyllgor Gorfodi a Chyfnawid Gwybodaeth; rydym hefyd yn cadeirio'r tasglu Meincnodau ac yn is-gadeirydd tasglu Ymddygiad y Farchnad.

Rydym yn aelod o'r Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol (FSB). Mae ein Cadeirydd yn mynychu Cyfarfod Llawn FSB a'r Pwyllgor Sefydlog ar Gydweithredu Rheoleiddiol a Goruchwyliol. Yn ystod 2016/17 fe wnaethom gyfrannu at waith FSB ar reoli asedau, ymddygiad a llywodraethu, bancio cysgodol ac arloesi technolegol, a FinTech yn benodol.

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n agos â llawer o sefydliadau rhyngwladol eraill, gan gynnwys:

- Cymdeithas Ryngwladol y Goruchwylwyr Yswiriant
- Y Tasglu Gweithredu Ariannol
- Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) – rydym ar hyn o bryd yn cadeirio'r Tasglu G20-OECD ar Ddiogelu Defnyddwyr Ariannol
- Y Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Diogelu Defnyddwyr Ariannol
- Awdurdod Bancio Ewrop
- Awdurdod Pensiynau Galwedigaethol ac Yswiriant Ewrop
- Bwrdd Risg Systemig Ewrop

Yn ogystal â'n gwaith ymgysylltu parhaus ag amryw o fforymau polisi rhyngwladol, rydym wedi parhau i weithio gyda nifer o reoleiddwyr eraill ar sail ddwyochrog. Yn 2016/17 roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd â'n huwch-swyddogion gweithredol yn UDA, Hong Kong, Singapore a Tsieina, ymysg eraill, ac fe wnaethom groesawu amrywiaeth helaeth o gynrychiolwyr rhyngwladol – o farchnadoedd wedi'u sefydlu a rhai sy'n dod i'r amlwg, i'r FCA.

Paneli Statudol

Mae'n ofynnol ein bod yn ymgynghori ynghylch effaith ein gwaith â phedwar panel statudol. Mae'r paneli hyn yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr, ymarferwyr, marchnadoedd a chwmnïau llai wedi'u rheoleiddio. Rydym hefyd yn ymgynghori â Phanel Ymgynghori'r Awdurdod Rhestru.

Mae'r paneli hyn yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o'n cynghori a'n herio ni, ac yn dod â phrofiad, cymorth ac arbenigedd helaeth yng nghyswllt canfod risgiau i'r farchnad ac

i ddefnyddwyr. Byddwn yn ystyried eu safbwyntiau pan fyddwn yn datblygu ein polisiau a phan fyddwn yn penderfynu ar ymryiadau rheoleiddio eraill ac yn eu rhoi ar waith. Mae pob panel yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ei hun (ac eithrio Panel Ymgynghori'r Awdurdod Rhestru).

Panel y Defnyddwyr

Mae hwn yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr, yn monitro i ba raddau rydym yn cyflawni ein hamcanion statudol mewn perthynas â defnyddwyr pan fyddwn yn datblygu rheolau neu bolisi, yn rhoi cyngor i ni ac yn ein herio.

Panel yr Ymarferwyr

Mae'r panel hwn yn cynrychioli buddiannau ymarferwyr. Mae'n rhoi mewnbnw i ni gan y diwydiant cyfan.

Panel yr Ymarferwyr Busnesau Llai

Mae hwn yn cynrychioli cwmnïau llai sydd wedi'u rheoleiddio, ac efallai na fyddai ganddynt lais cryf yng nghyswllt llunio polisiau fel arall.

Panel yr Ymarferwyr Marchnadoedd

Mae'r panel hwn yn adlewyrchu buddiannau ymarferwyr y mae ein swyddogaethau yng nghyswllt marchnadoedd yn debygol o effeithio arnynt.

Panel Ymgynghori'r Awdurdod Rhestru

Mae'r panel anstatudol hwn yn rhoi cyngor i ni ynghylch materion polisi sy'n effeithio ar y rheini sy'n dyfarnu gwarannau, ac ynghylch cynigion rheoleiddio polisi o swyddogaeth rhestrau'r FCA.

Sefydliadau defnyddwyr

Rydym yn chwilio am safbwyntiau gan ddefnyddwyr drwy amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cyrff defnyddwyr, ein Canolfan Gyswilt a Phanel Defnyddwyr y Gwasanaethau Ariannol. Er mwyn ein galluogi ni i gyflawni ein nod yng nghyswilt diogelu defnyddwyr, rydym yn cynnal ymchwil helaeth i wella ein gwybodaeth am ddefnyddwyr a'u hanghenion. Rydym hefyd yn cynnal ymchwil ar ymddygiad ac yn defnyddio syniadau'r gwyddorau ymddygiad yn ein gwaith, gan gynnwys cyfrannu at Dasglu G20-OECD ar Ddiogelu Defnyddwyr Ariannol.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos ag amrywiaeth o sefydliadau defnyddwyr ledled y DU er mwyn sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio yn adlewyrchu profiadau go iawn defnyddwyr; mae ein gwaith yn y maes hwn wedi cael ei gydnabod fel ymarfer gorau gan Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU.

Mae ein rhwydwaith o sefydliadau defnyddwyr yn cynnwys:

Age UK
AdviceUK
Alzheimer's Society
Cyngor ar Bopeth (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon)
Cristnogion yn erbyn Tlodi
Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon
Panel Defnyddwyr y Gwasanaethau Ariannol
Money Advice Scotland
Ymddiriedolaeth y Cyngor Ariannol
MoneySavingExpert
Scope
Shelter
StepChange
The Money Charity
Toynbee Hall
Which?
Young Scot

Rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth gynyddol o grwpiau eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol â defnyddwyr i'n helpu ni i adnabod problemau sy'n dod i'r amlwg. Rydym hefyd yn cynnal ac yn mynd i fforymau galluedd ariannol ledled y DU i gael darlun gwell o broblemau defnyddwyr ar lawr gwlad.

Eleni, fe wnaethom gynnal prosiect arloesol i wella ein dealltwriaeth o'r arferion cyfredol a pha mor gyffredin yw benthyca heb awdurdod. Byddem fel arfer yn arolygu cwmnïau mewn marchnad, ond nid yw hyn yn opsiwn pan fo'r benthyccwyr yn ymdrechu i beidio â chael eu canfod yn fwriadol a'r defnyddwyr yn anodd eu cyrraedd. Yn hytrach, rydym wedi gweithio'n agos gyda Thimau Benthyca Ariannol yn Anghyfreithlon mewn Llywodraeth Leol ym Mhrydain a'r cyrff perthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Rydym wedi adeiladu ar eu profiad er mwyn canfod ardaloedd o weithgarwch sy'n hysbys ac wedi defnyddio eu cysylltiadau i ehangu ein rhwydweithiau a dod o hyd i ymgynghorwyr sydd â gwybodaeth am fenthyccwyr a'r defnyddwyr sy'n eu defnyddio.

Fe wnaethom ddefnyddio'r gwaith cychwynnol hwn i ddatblygu ein cyfres o gyfarfodydd bwrdd crwn ledled y DU mewn manau lle bu gweithgarwch benthyca heb awdurdod. Fe wnaethom gynnal wyth o gyfarfodydd bwrdd crwn ledled y wlad, gyda mwy na 70 o bobl o dros 50 o sefydliadau yn delio â defnyddwyr a oedd yn gyfarwydd â benthyccwyr heb awdurdod. Fe wnaethom hefyd ganfod dros 150 o gysylltiadau ychwanegol â gwybodaeth bosibl yn y maes hwn drwy ein rhwydwaith o ddefnyddwyr yn y DU a chyfeiriadau gan gyfranwyr yn y cyfarfodydd bwrdd crwn. Fe wnaethom lunio holiadur ar eu cyfer, gan adeiladu ar ganfyddiadau'r cyfarfodydd bwrdd crwn i atgyfnerthu ein dealltwriaeth.

O hyn, fe wnaethom lunio darlun o brofiadau defnyddwyr ac rydym wedi'i ddefnyddio i gryfhau ein dealltwriaeth o farchnadoedd credyd ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol ein hymyriadau.

Rydym yn gwybod bod adnoddau llawer o sefydliadau defnyddwyr yn cael eu hymestyn yn fwy ac yn fwy. Mae ein tîm

partneriaeth wedi datblygu amrywiaeth o ffyrdd gwahanol i'r cyrff hyn gyfrannu eu mewnbwn arbenigol ar gyfer ein hymgyngoriad a'n papurau trafod, ein hastudiaethau o'r farchnad a'n hadolygiadau thematig. Er enghraifft, rydym yn cynnal rhaglen secondiadau sy'n rhoi ein staff mewn sefydliadau partner. Mae hyn yn rhoi adnoddau ychwanegol i'r sefydliadau hyn ac yn sicrhau bod ein staff yn dychwelyd gyda gwybodaeth ddyfnach o ymddygiadau a phroblemau defnyddwyr. Eleni, mae gennym staff ar secondiad gyda Chyngor ar Bopeth, Age UK a Chyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon.

Rydym wedi gwneud llawer o waith er mwyn dod i ddeall anghenion defnyddwyr mewn amgylchiadau agored i niwed ac anghenion defnyddwyr sy'n cael trafferth cael mynediad at wasanaethau ariannol. Mae ein Cenhadaeth yn amlygu'r meysydd hyn fel rhai lle byddwn yn parhau i weithio gyda chwmnïau er mwyn sicrhau eu bod yn trin cwsmeriaid yn deg wrth wneud penderfyniadau busnes sy'n effeithio ar y rheini sy'n agored i niwed yn ariannol, neu'r rheini sy'n ceisio cael mynediad at wasanaethau ariannol.

© Hawlfraint yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol 2017

Gall testun y ddogfen hon (ac eithrio, lle bo'n bresennol, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adran neu asiantaeth) gael ei atgynhyrchu am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a nodi teitl y ddogfen. Lle'r ydym wedi nodi deunydd â hawlfraint gan drydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn:

Financial Conduct Authority
25 The North Colonnade
London
E14 5HS

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

ISBN Print 9781474144872

ISBN Gwe 9781474144889

ID 11051709 07/17

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75% o ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp Williams Lea ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi



25 The North Colonnade Canary Wharf London E14 5HS
Ffôn: +44 (0)20 7066 1000
Gwefan: www.fca.org.uk
Cedwir pob hawl

